Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

**Atodiad A**

Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Templed Cais Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020-21

| | |
|---|---|
| **Sefydliad enw:** | Prifysgol Abertawe |
| **Cyfeiriad y Sefydliad:** | Yr Abaty<br>Parc Singleton<br>Prifysgol Abertawe<br>SA2 8PP |

| | **Prif gyswllt** | **Cyswllt arall** |
|---|---|---|
| **Enw'r cyswllt:** | Mr Robert Bowen | Yr Athro Martin Stringer |
| Teitl Swydd: | Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad | Dirprwy Is-ganghellor |
| **Rhif ffôn:** | 01792 606235 | 01792 602149 |
| **Cyfeiriad e-bost:** | r.j.bowen@abertawe.ac.uk | k.e.prescott@abertawe.ac.uk |

# Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020-21

# Cynnwys

1. CRYNODEB GWEITHREDOL ........ 3
2. CYFNOD CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD ........ 5
3. LEFELAU FFIOEDD ........ 5
4. PARTNERIAETH Â MYFYRWYR ........ 7
5. ADOLYGIAD STRATEGOL ........ 9
6. GRWPIAU A DANGYNRYCHIOLIR MEWN ADDYSG UWCH ........ 20
7. AMCANION, GWEITHGAREDDAU A THARGEDAU ........ 24
CYFLE CYFARTAL ........ 24
CC 1 - DENU ........ 24
CC 2 - GWYBODAETH EFFEITHIOL ........ 28
CC 3 - CADW ........ 32
CC 4 - DILYNIANT ........ 42
CC 5 - CANLYNIADAU ........ 45
CC 6 – CYDRADDOLDEB ........ 47
HYRWYDDO ADDYSG UWCH ........ 49
HAU 1 - PARTNERIAETHAU STRATEGOL RHANBARTHOL ........ 49
HAU 2 - PROFIAD Y MYFYRWYR ........ 55
HAU 3 – CYFLOGADWYEDD ........ 58
HAU 4 - RHYNGWLADOLI ........ 60
HAU 5 - CYNYDDU YMWYBYDDIAETH ........ 64
8. BUDDSODDI INCWM FFIOEDD ........ 64
9. MONITRO A GWERTHUSO CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD ........ 64
10. GWERTHUSO EFFEITHIOLRWYDD CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD ........ 64
AWDURDODI CAIS CYNLLUN FFIOEDD A MYNEDIAD 2020-21 ........ 66
ATODIAD AI ........ 68
ATODIAD B - TABLAU DATA, BUDDSODDI A THARGEDAU ........ 70

## 1) Crynodeb Gweithredol

Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad Prifysgol Abertawe'n dyst i'n hymrwymiad i ddarparu amgylchedd astudio cynhwysol sy'n cefnogi grwpiau a dangynrychiolir a'n holl fyfyrwyr i gyflawni mewn addysg uwch. Mae'r **ymagwedd gynhwysol** hon yn cydweddu â datganiad polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ehangu mynediad... “Dylai addysg uwch fod ar gael i bawb sydd â’r potensial i elwa beth bynnag eu hoed, eu rhyw, eu modd a’u lefel astudio, gwlad eu tarddiad a’u cefndir..."

Mae prif ffocws a chynnwys y cynllun yn seiliedig ar gyflawni ein themâu strategol (blaenoriaethau allweddol) a rhai Llywodraeth Cymru ym maes **Cyfle Cyfartal**. Yn y cynllun, rydym yn esbonio sut y bydd y Brifysgol yn cefnogi grwpiau a dangynrychiolir er mwyn:

- cael **MYNEDIAD** i addysg uwch
- Darparu cymorth a chyfleoedd **i hwyluso eu DILYNIANT** drwy addysg uwch
- Darparu cymorth i **GADW** myfyrwyr i'w galluogi i gwblhau eu hastudiaethau
- Darparu cymorth a chyfleoedd i helpu myfyrwyr i gyflawni **CANLYNIADAU** cadarnhaol

Yn ogystal, mae gan y cynllun gyfrifoldeb i amlinellu sut bydd y Brifysgol yn cyflawni ymrwymiadau eraill, mwy cyffredinol, a bennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, ym maes **Hyrwyddo Addysg Uwch**. Gwelir rhestr lawn o amcanion y cynllun isod:

**Amcanion Cyfle Cyfartal:**

- **CC 1 - Denu:** Ysbrydoli a recriwtio mwy o fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i astudio ym Mhrifysgol Abertawe.
- **CC 2:** Sicrhau bod myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn derbyn **gwybodaeth effeithiol** (gan gynnwys gwybodaeth am gymorth ariannol) cyn ac ar ôl iddynt benderfynu astudio yn y Brifysgol.
- **CC 3 - Cadw:** Darparu gwasanaethau cymorth llesiant ac ariannol cynhwysol i fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i'w galluogi i aros mewn addysg uwch a chwblhau eu hastudiaethau.
- **CC 4 - Dilyniant:** Darparu gwasanaethau cymorth academaidd a bugeiliol cynhwysol o safon uchel, sy'n cefnogi mwy o fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i wneud cynnydd yn eu hastudiaethau addysg uwch.
- **CC 5 - Canlyniadau:** Cefnogi mwy o fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i gyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn addysg uwch sy'n arwain at gyflogaeth neu astudiaethau pellach.
- **CC 6 - Cydraddoldeb:** Hybu cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng y grwpiau staff a myfyrwyr amrywiol yn y Brifysgol a'r gymuned ehangach.

**Hyrwyddo Addysg Uwch - Amcanion:**

- **HAU 1 - Partneriaethau Strategol Rhanbarthol:** Sefydlu partneriaethau yng Nghymru sy'n cyflawni cenhadaeth addysg uwch y sefydliad, sy'n ehangu cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr ac sy’n hyrwyddo ein dyheadau o ran Cenhadaeth Ddinesig.
- **HAU 2 - Profiad y Myfyrwyr:** Darparu gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau sy'n gwella profiad y myfyrwyr, gan gynnwys gwelliannau i ansawdd yr addysgu.
- **HAU 3 - Cyflogadwyedd:** Darparu gwasanaethau, cymorth a gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr, mewn partneriaeth â chyflogwyr, sy'n cryfhau cyflogadwyedd graddedigion yng Nghymru.
- **HAU 4 - Rhyngwladoli:** Darparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo addysg uwch Cymru yn rhyngwladol, gan gynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cael eu recriwtio a phartneriaethau rhyngwladol.
- **HAU 5 - Cynyddu ymwybyddiaeth** o werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr yn gyffredinol.

Mae'r **grwpiau a dangynrychiolir** sy'n cael eu cefnogi drwy'r cynllun hwn wedi cael eu dewis ar sail grwpiau blaenoriaeth cyfredol Llywodraeth Cymru/CCAUC, adolygiad o ddata proffil ein myfyrwyr a thrwy gyfeirio at Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol. Yn nodweddiadol, y myfyrwyr hyn fydd y rhai o gefndiroedd difreintiedig, sydd â nodweddion gwarchodedig a/neu o grwpiau a dangynrychiolir ym mhoblogaeth ein myfyrwyr:

- Myfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad isel (a ddiffinnir gan POLAR)
- Myfyrwyr o 40% isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)
- Myfyrwyr o aelwydydd incwm isel
- Myfyrwyr cyfrwng Cymraeg
- Myfyrwyr rhan-amser
- Myfyrwyr Aeddfed
- Myfyrwyr Anabl
- Myfyrwyr Du a Lleiafrifoedd Ethnig (o'r DU)
- Plant sy'n derbyn gofal, ymadawyr gofal a gofalwyr
- Myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd
- Myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig eraill - Crefydd a Chred, Cyfeiriadedd Rhywiol, Ailbennu Rhywedd a Beichiogrwydd a Mamolaeth.

Wrth ymdrin â'r amcanion mewn perthynas â Chyfle Cyfartal a Hyrwyddo Addysg Uwch, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i neilltuo 17.6% o'r incwm y bydd yn ei gynhyrchu yn 2020-21 o ffioedd myfyrwyr, swm yr amcangyfrifir y bydd cyfwerth â £18.8 miliwn (17.5%, amcangyfrif o £20.3m ar gyfer cynllun 2019-20). Defnyddir y buddsoddiad hwn i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, swyddogaethau a gweithgareddau sy'n denu, yn cefnogi, yn cadw, yn datblygu ac yn cynorthwyo myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i lwyddo mewn addysg uwch. Yn ogystal, defnyddir y buddsoddiad hefyd i hyrwyddo a gwella effaith addysg uwch yng Nghymru yn lleol, yn rhanbarthol ac yn rhyngwladol.

Dyma rai o'r prif flaenoriaethau a nodwyd ar gyfer cynllun 2020-21:

- Bydd Uned Allgymorth y Sefydliad yn parhau i weithredu'n rhan o'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach a sefydlwyd i ddenu ac ysbrydoli pobl ifanc 17 oed a hŷn ac oedolion heb gymwysterau lefel 4 sy'n byw yn ne-orllewin Cymru ac sydd yn 40% isaf MALlC.
- Buddsoddi ymhellach yn Uned Allgymorth Prifysgol Abertawe, a'i datblygu ymhellach, er mwyn estyn y gweithgareddau a nodir uchod, ac ategu rhai Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, gan ganolbwyntio ar ddenu unigolion o grwpiau a dangynrychiolir ledled Cymru (nid de-orllewin Cymru yn unig).
- Darparu cymorth ariannol ychwanegol, wedi'i dargedu, ar ffurf bwrsariaethau i fyfyrwyr ag ystyriaethau ychwanegol (plant sy'n derbyn gofal/ymadawyr gofal/gofalwyr/myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd).
- Cynyddu Cronfa Cyfle Prifysgol Abertawe (cronfa caledi) i gefnogi wrth gadw a helpu myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol difrifol.
- Pwyslais cynyddol ar gymorth Lles ac Iechyd Meddwl.
- Gweithredu strategaeth cenhadaeth ddinesig (blwyddyn gyntaf).

## 2) Cyfnod y Cynllun Ffioedd a Mynediad

Bydd y Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn "ar waith" o 1 Awst 2020 tan 31 Gorffennaf 2021.

## 3) Lefelau Ffioedd

Mae'r Brifysgol yn pennu lefelau ffioedd gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o ddarpariaeth. Bydd ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanwl am lefelau ffioedd, yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch, fel y bydd myfyrwyr yn gallu gweld cost eu gradd yn glir - yr elfennau gwahanol a'r cyfanswm. Rydym hefyd yn ymrwymedig i fodloni a glynu wrth y safonau ansawdd yng nghanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch.

O ran cyrsiau penodol, bydd ein gwefan (www.swansea.ac.uk) yn darparu'r holl wybodaeth y bydd ei hangen ar fyfyrwyr cyn cyflwyno cais, gan gynnwys ffioedd. Yn ogystal, fel y nodir yn Atodiad B, tablau C a D, dyma'r ffioedd nodweddiadol mae'r Brifysgol yn eu codi ar ei myfyrwyr israddedig amser llawn o'r DU/yr UE:

- Ar gyfer gradd israddedig amser llawn neu raglen TAR, codir £9,000 y flwyddyn.
- Fodd bynnag, os yw'r radd yn cynnwys blwyddyn dramor neu flwyddyn mewn diwydiant, bydd y ffi i'w thalu yn y flwyddyn benodol honno'n gostwng i £1,350 am flwyddyn dramor neu £1,800 am flwyddyn mewn diwydiant.
- Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig nifer o raglenni gradd sylfaen, sy'n cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â Cholegau Addysg Bellach a'r ffioedd ar gyfer y rhain yw £7,500 y flwyddyn.
- Yn ogystal, mae gennym drefniadau masnachfraint gyda cholegau Addysg Bellach allweddol ac, yn y lleoliadau hyn (a welir yn Nhabl D o'r atodiad), codir y ffioedd canlynol:
  - Coleg Cambria

- Gradd Sylfaen - £7,500 y flwyddyn
- Gradd Baglor - £9,000 y flwyddyn

Ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn (mis Mawrth 2019), uchafswm y ffioedd am gyrsiau israddedig amser llawn a chyrsiau TAR (SAC) ar gyfer 2020-21 yw £9,000 y flwyddyn. Pennir yr uchafswm ffioedd hwn gan Lywodraeth Cymru a gallai'r ffigur newid yn y blynyddoedd i ddod (e.e. cynnydd ar sail chwyddiant). Gall y ffîoedd rydym yn eu pennu yn ein sefydliadau partner megis y rhai hynny drwy fasnachfraint (a restrir ar dudalen 5 ac yn Nhabl D ar ddiwedd y ddogfen) hefyd newid yn y dyfodol (e.e. yn seliedig ar chwyddiant neu eu haddasu i fod yn unol â newidiadau yn y sector). Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn ysgrifennu at fyfyrwyr drwy e-bost, cyn gynted ag sy'n ymarferol, i'w hysbysu am newidiadau i'r ffioedd y gellir eu codi arnynt yn y dyfodol ar ddechrau eu cwrs neu yn ystod y cwrs os yw'n berthnasol. Mae cymeradwyaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer y cynllun Ffioedd a Mynediad hwn yn caniatáu i'r Brifysgol bennu ffioedd ar lefel yr uchafswm ffioedd a nodir uchod.

**Cyfanswm cost ffioedd dysgu ar hyd cwrs (ffioedd cyfunol)**

Gan ddefnyddio gwybodaeth ar ein tudalennau cyrsiau, gall myfyrwyr gyfrifo cyfanswm y ffioedd dysgu, neu'r elfennau sy'n ffurfio'r cyfanswm, y byddant yn eu talu drwy gydol eu gradd benodol. Dyma rai enghreifftiau nodweddiadol:

| Math nodweddiadol o radd (Israddedig amser llawn – myfyriwr o'r DU/yr UE) | Cyfrifiad | Cyfanswm ffioedd dysgu ar gyfer hyd cyfan y cwrs* |
|---|---|---|
| Gradd israddedig amser llawn/TAR 3 blynedd | 3 x £9,000 y flwyddyn | £27,000 |
| Gradd 4 blynedd gyda blwyddyn dramor | 3 x £9,000 ynghyd â £1,350 ar gyfer y flwyddyn dramor | £28,350 |
| Gradd 4 blynedd gyda blwyddyn mewn diwydiant | 3 x £9,000 ynghyd â £1,800 ar gyfer y flwyddyn mewn diwydiant | £28,800 |
| Gradd 4 blynedd | 4 x £9,000 | £36,000 |
| Gradd Sylfaen | 2 x £7,500 y flwyddyn | £15,000 |

*nid yw'n cynnwys costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag astudio cyrsiau penodol (gweler isod)

Waeth beth yw lefel y ffioedd, byddwn yn...

- Ysgrifennu at yr holl fyfyrwyr sy'n gwneud cais i ddechrau o 2020-21 i'w hysbysu am y ffioedd, y trefniadau ar gyfer talu ffioedd a'r cymorth a fydd ar gael iddynt.
- Byddwn yn darparu gwybodaeth am lefelau ffioedd ar gyfer pob blwyddyn y rhaglen astudio (er mwyn cyfrifo'r ffi gyfunol ar gyfer y rhaglen gyfan).
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr sy'n gwneud cais i ddechrau ym Mhrifysgol Abertawe yn 2020-21, wedi gohirio eu lle o'r flwyddyn flaenorol, i'w hysbysu am y ffioedd.

- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at ein myfyrwyr presennol y gallai'r newidiadau mewn ffioedd effeithio arnynt os dewisant symud i gwrs arall neu os bydd rhaid iddynt ailsefyll arholiad, er mwyn darparu'r wybodaeth briodol iddynt.

Yn ogystal â thaliadau Ffioedd Dysgu a chostau byw, gall **costau ychwanegol gorfodol neu ddewisol** fod yn gysylltiedig â rhai rhaglenni (neu fodiwlau), i alluogi myfyrwyr i gyfranogi'n llawn a chwblhau eu rhaglen benodol.

Bydd angen i fyfyrwyr gyllidebu ar gyfer y costau hyn ar wahân, gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ffioedd dysgu cyffredinol a godir. Gall y fath gostau gynnwys teithiau maes, costau teithio i leoliadau gwaith neu leoliadau astudio, costau labordy a chyfarpar neu wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) sy'n benodol i'r rhaglen. Bydd y Brifysgol, a'i phartneriaid mewn trefniadau masnachfraint, yn parhau i ymdrechu i gadw nifer a maint costau ychwanegol i'r lefelau isaf posib, ond **cyhoeddir manylion am gostau ychwanegol ar dudalennau gwe rhaglenni unigol, a chânt eu cynnwys yn yr wybodaeth am raglenni a anfonir at ymgeiswyr wrth roi cynnig iddynt.** Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan yma.

## 4) Partneriaeth â Myfyrwyr

Mae Prifysgol Abertawe ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn gweithio mewn partneriaeth agos i gefnogi profiad o safon uchel i'r myfyrwyr, ac mae llais y myfyrwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol ym materion y Brifysgol drwy gynrychiolaeth, cyfranogiad ac ymgysylltu. Mae egwyddorion ymgysylltu a phartneriaeth â myfyrwyr yn rhan gynhenid o holl weithgareddau a phrosesau'r Brifysgol. Mae Undeb y Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Myfyrwyr hefyd yn aelodau o uwch-gyrff llywodraethu'r Brifysgol sy'n llunio datblygiad strategol.

**Cynnwys Myfyrwyr wrth Ddatblygu Cynlluniau**
Mae swyddogion amser llawn Undeb y Myfyrwyr yn cwrdd yn rheolaidd ag Uwch-dîm Rheoli’r Brifysgol mewn cyfarfodydd rhwng yr Uwch-dîm Rheoli a’r Swyddogion Amser Llawn ac maent hefyd yn cymryd rhan yn y Pwyllgor Ymgysylltu a Phartneriaeth â Myfyrwyr. Wrth i ni ddatblygu Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020-21, mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr wedi bod yn aelodau o Weithgor y Cynllun Ffioedd a Mynediad ac maent yn helpu i gyfeirio a llywio datblygiad y cynllun. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfod gyda’r Llywydd a'r Swyddog Addysg i drafod gwerthusiad Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017-18, gan gynnwys datblygiadau ar gyfer cynllun 2020-21, yn ogystal â phresenoldeb mewn cyfarfodydd cynlluniedig i drafod y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Cafodd swyddogion Undeb y Myfyrwyr eu cynnwys hefyd wrth gefnogi a helpu i lunio cynigion achos busnes yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer ail-fuddsoddi rhan o gronfeydd y fwrsariaeth ar sail incwm.

Bydd Undeb y Myfyrwyr yn adolygu drafft cyntaf y cynllun a'r adborth a dderbynnir gan CCAUC arno. Bydd Swyddogion yr Undeb hefyd yn chwarae rôl wrth gadarnhau'r cynllun pan gaiff ei gyflwyno i’r Uwch-dîm Rheoli/Cyngor i'w gymeradwyo. Yn ogystal, mae Llywydd yr Undeb yn aelod o'r Cyngor a bydd yn helpu i gadarnhau'r cynllun ar gyfer cymeradwyaeth derfynol.

**Adlewyrchu egwyddorion datganiad Wise Cymru ar bartneriaeth ar gyfer addysg uwch a dileu rhwystrau i gyfleoedd myfyrwyr a gweithredu cymdeithasol ieuenctid.**
Mae gweithgarwch ymgysylltu â myfyrwyr yn Abertawe a datblygu'r cynllun ffioedd a mynediad yn cydweddu â'r egwyddorion yn adroddiad Universities UK/NUS: 'Breaking Down the Barriers to Student Opportunities and Youth Social Action'. Fel y nodir yn Siarter y Myfyrwyr, mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i Ddatganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Addysg Uwch, ac mae'n gweithio'n agos gyda myfyrwyr i sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu cynnal a bod rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Mae cyflwyno'r tîm Gwasanaethau Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr yn cefnogi ymrwymiad y Brifysgol i wreiddio ymgysylltu â myfyrwyr yn ein holl brosesau.

**Cyfraniad llais y myfyrwyr, a gwaith partneriaeth, at lywodraethu ac ansawdd**
Mae tîm penodol ar gyfer Gwasanaethau Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr yn parhau i wella gwaith partneriaeth rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr.

**Llywodraethu**
Mae'r Cyngor a'r Senedd, uwch-gorff y Brifysgol â chyfrifoldeb am benderfyniadau academaidd, yn cynnwys myfyrwyr ymhlith eu haelodau. Mae myfyrwyr hefyd yn aelodau o is-bwyllgorau'r Senedd â chyfrifoldeb am feysydd academaidd, gan gynnwys y pwyllgorau Dysgu ac Addysgu, Safonau ac Ansawdd Academaidd, Bwrdd Strategaeth yr Iaith Gymraeg a'r Bwrdd Rheoliadau ac Achosion Academaidd. Yn ogystal, mae myfyrwyr yn rhan o'r broses adolygu a chymeradwyo drwy gynrychiolaeth ar y Bwrdd Rheoli Rhaglenni a'r Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni.

Bydd Swyddog Materion Cymraeg yn cynrychioli ac yn cefnogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a/neu sy'n byw yng Nghymru a/neu sy'n astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn gweithio'n agos gydag Academi Hywel Teifi, Cangen Abertawe o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Swyddogion Iaith Gymraeg ac Uned Gyfieithu'r Brifysgol, yn ogystal â chymdeithasau myfyrwyr a chlybiau chwaraeon Undeb y Myfyrwyr.

Mae'r system 'Cynrychiolwyr Myfyrwyr' yn cynnwys dros 250 o gynrychiolwyr Colegau a phynciau sy'n aelodau o bwyllgorau Dysgu ac Addysgu, Byrddau Astudio a Fforwm Staff a Myfyrwyr Colegau. Mae adborth cynrychiolwyr myfyrwyr yn eitem bwysig ar agendâu Byrddau Astudio a Fforymau Staff a Myfyrwyr Colegau. Cydnabyddir ymrwymiad Cynrychiolwyr Myfyrwyr i lywodraethu yn y cyfle i ennill achrediad dyfarniad HEAR. Sefydlwyd fforwm penodol ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n aelodau o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a derbynnir eu hadborth gan Fwrdd Strategaeth Iaith Gymraeg y Brifysgol a chan Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd.

**Ansawdd**
Cynrychiolir myfyrwyr yn y prosesau adolygu ansawdd drwy aelodaeth o'r paneli sy'n cynnal Adolygiadau Cyfnodol ac Adolygiadau Gwella Profiad y Myfyrwyr (sydd fel arfer yn cael eu cynnal o ganlyniad i adborth myfyrwyr). Mae myfyrwyr yn cael eu gwahodd i'r paneli hyn hefyd er mwyn rhoi adborth ar eu profiad academaidd. Mae adborth myfyrwyr, drwy eu hymatebion i arolygon, yn rhan bwysig o'r prosesau adolygu ansawdd ac mae'r gyfradd ymateb uchel yn Abertawe yn ein galluogi i gasglu data cadarn iawn ynghylch boddhad

myfyrwyr â'u rhaglenni. Mae adborth myfyrwyr ar eu modiwlau, sy'n cael ei gasglu ddwywaith y flwyddyn, hefyd yn cyfrannu at adolygiadau datblygiad proffesiynol staff.

Mae llais y myfyrwyr ac adborth myfyrwyr hefyd yn cael eu hadlewyrchu mewn arolygon Llais y Dysgwyr, a gynhelir yn ein sefydliadau partner sydd wedyn yn darparu'r adborth i'r tiwtor cyswllt ar gyfer pob coleg, ac mewn arolygon unigol ar gyfer ymgeiswyr am ddoethuriaeth. Rydym yn cynnwys myfyrwyr wrth gynllunio darpariaeth newydd yn ein sefydliadau partner ac yn cwrdd â nhw fel rhan o'n prosesau cymeradwyo rhaglenni.

Mae Gwasanaethau Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr a thimau Ansawdd Academaidd yn gweithio ar fenter newydd i greu Cymuned o Fyfyrwyr Adolygu er mwyn ein cynorthwyo yn yr ymdrech i wneud ymgysylltu â myfyrwyr yn rhan gynhenid o'n gwaith gwella ansawdd. Bydd y myfyrwyr adolygu hyn yn cymryd rhan mewn pwyllgorau, timau adolygu a phrosiectau penodol yn y tymor canolig i hir ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol i ddatblygu gwelliannau mewn rhaglenni astudio.

## 5) Adolygiad Strategol

Mae Adolygiad Strategol o ymagwedd y Brifysgol at Ehangu Mynediad yn broses allweddol sy'n ategu ac yn llywio datblygiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Mae'r adolygiad yn ystyried pedair elfen allweddol:

1. **Ymchwil a chyhoeddiadau perthnasol i'r sector sy'n amlinellu ein hymagwedd**
2. **Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru/CCAUC**
3. **Adolygiad Sefydliadol - Gwerthuso'r Cynllun Ffioedd a Mynediad blaenorol**
4. **Trafodaethau/Adolygiad Gweithgor y Cynllun Ffioedd a Mynediad**

**Ymchwil a chyhoeddiadau perthnasol i'r sector sy'n amlinellu ein hymagwedd**
Mae Prifysgol Abertawe'n mabwysiadu ymagwedd gynhwysol at ddarparu addysg uwch, yn unol â datganiad polisi Llywodraeth Cymru ynghylch ehangu mynediad: *"Dylai addysg uwch fod ar gael i bawb sydd â'r potensial i elwa beth bynnag eu hoed, eu rhyw, eu modd a'u lefel astudio, gwlad eu tarddiad a'u cefndir..."*[1]

Ategir ein hymagwedd ymhellach gan yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2017 'What Works? Student Retention and Success'[2], sy'n argymell fel a ganlyn:, *"Other institutions seeking to develop excellence in learning and teaching and improve the student experience and outcomes adopt **a whole institution approach**"*. Mae'r gwasanaethau a'r cymorth sy'n cael eu cynnig ym Mhrifysgol Abertawe ar gael i'n holl fyfyrwyr, a lle nodir rhwystrau, rydym yn gweithio i leihau neu i ddileu'r rhan fwyaf o rwystrau i'r unigolion a fyddai'n elwa mwyaf. Lle bynnag y bo modd, darperir y gwasanaethau hyn yn rhan o'r prif ffrwd; felly, cânt eu hystyried yn gymorth y Brifysgol sydd ar gael i bawb yn hytrach na chymorth wedi'i frandio sy'n targedu grwpiau unigol.
Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod bod gwella mynediad i addysg uwch ar gyfer myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn amcan tymor hir lle cefnogir darpar fyfyrwyr i ddyheu am

[1]WISERD - Mynediad i Addysg Uwch yng Nghymru - Adroddiad i CCAUC 2015 - ar gael yma.
[2] What Works? Student Retention & Success – ar gael yma

astudio ar lefel addysg uwch. Mae geiriau Chris Millward, Cyfarwyddwr Mynediad a Chyfranogiad Teg yn Swyddfa'r Myfyrwyr, yn crynhoi hyn yn berffaith:

*"Gwyddwn fod un peth yn hanfodol i hyn, sef* ***allgymorth wedi'i dargedu, parhaus a chynyddol****, sy'n cynnig ysbrydoliaeth, yn cynyddu uchelgais ac yn cefnogi pobl ifanc yn eu harddegau i wneud y dewisiadau iawn sy'n agor y drysau i addysg uwch. Mae'n helpu pobl ifanc i fynd i'r afael â system gymhleth sydd yn aml yn ddieithr iddynt, gan eu paratoi'n iawn ar gyfer bywyd fel myfyriwr, os dyna'r llwybr maent yn ei ddewis yn 18 oed."*[2]

Mae'r Brifysgol hefyd wedi myfyrio ar becyn cymorth yr Academi Addysg Uwch ar gyfer ymarferwyr ym maes Allgymorth Addysg Uwch i Ehangu Cyfranogiad[3] i'n helpu wrth gynllunio ein darpariaeth:

- Mae allgymorth ar ei fwyaf effeithiol pan gaiff ei ddarparu ar ffurf rhaglen gynyddol, barhaus o weithgarwch ac ymgysylltu dros amser.
- Mae angen i raglenni allgymorth dargedu pobl ifanc ar wahanol adegau yn eu gyrfa addysg, gan ddechrau ar y lefel gynradd.
- I gyflwyno rhaglenni allgymorth yn effeithiol, mae angen cyfranogiad ac ymgysylltu llawn gan sefydliadau addysg uwch, colegau addysg bellach ac ysgolion, ynghyd ag adnoddau digonol.

Mae'r Brifysgol wedi ymdrechu i gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau allgymorth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw'r gweithgareddau hyn bob amser wedi bod yn ddigon cynyddol na pharhaus. Ein hymagwedd a'n hymrwymiad yw adeiladu ar yr allgymorth cynyddol a pharhaus sy'n cael ei gyflwyno drwy Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru a Strategaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Sefydliadol y Brifysgol sy'n ategu hyn. Mae'r ddwy strategaeth hyn yn targedu myfyrwyr mewn grwpiau oedran gwahanol yn ne-orllewin Cymru sy'n byw mewn ardaloedd a restrir yn y 40% isaf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Rydym yn cydnabod bod bwlch yn ein darpariaeth a diffyg cydlynu effeithiol. Felly, caiff ein hymrwymiad i allgymorth cynyddol a pharhaus, wedi'i dargedu, ei ehangu yn 2020-21 i ddarparu gweithgareddau ar gyfer gweddill Cymru drwy Uned Allgymorth y Brifysgol a sefydlwyd yn ddiweddar (mae mwy o fanylion yn yr adran gwerthuso).

Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod bod *"Gweithgarwch allgymorth sy'n canolbwyntio ar ennyn diddordeb dysgwyr mewn addysg uwch a'u cynorthwyo i bontio iddi yn un elfen yn unig o strategaeth Ehangu Mynediad. Mae elfennau eraill yn cynnwys cefnogi'r garfan Ehangu Mynediad i barhau ar eu rhaglenni (cadw), i gyflawni'r canlyniad gorau y gallant (cyrhaeddiad) a'u cefnogi i symud ymlaen i ddysgu pellach a chyflogaeth (dilyniant)."*[4]

Mae corff helaeth o ymchwil i Ehangu Mynediad sy'n atgyfnerthu'r syniad bod myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn wynebu rhwystrau niferus i gwblhau rhaglenni gradd yn llwyddiannus. Mae tystiolaeth helaeth hefyd yn awgrymu y gall darparu cymorth mwy effeithiol helpu i wella profiad a chanlyniadau myfyrwyr, gan gyfrannu at well cyfraddau cadw, dilyniant a chyrhaeddiad ar gyfer myfyrwyr. Er enghraifft, mae ymchwil allweddol wedi dangos bod pedair thema gyffredinol y tu ôl i'r rhesymau pam nad yw myfyrwyr yn cwblhau:

[2] National Collaborative Outreach programme: The First Year, Office for Students, ar gael yma
[3] Higher Education Outreach to Widen Participation – Toolkits for practitioners – ar gael yma
[4] Higher Education Outreach to Widen Participation – Toolkits for practitioners – ar gael yma

- Penderfyniadau am astudio ar lefel addysg uwch ar sail diffyg gwybodaeth;
- Profiad cyffredinol o'r cwrs a'r brifysgol;
- Methu ymdopi ag astudio; a,
- Digwyddiadau allanol.

Dyma rai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at fethiant myfyrwyr i barhau ag astudiaethau addysg uwch: ymdeimlad myfyriwr o berthyn; i ba raddau mae myfyriwr yn ymrwymo i addysg uwch; cyrhaeddiad blaenorol; adnoddau ariannol; rhinweddau personol myfyriwr, gan gynnwys lefel y cyfalaf dynol adeg cyrraedd; a lefel sgorau boddhad myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr - mae sgorau is yn cyfateb i gyfraddau gadael uwch.[5]

Wrth ystyried y ffactorau hyn a myfyrio ar ganfyddiadau ein gwerthusiad, byddwn yn cryfhau ein darpariaeth ehangu mynediad ac allgymorth ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir drwy weithio mewn ffordd barhaus a chynyddol gydag unigolion drwy raglen estynedig 'Camu Ymlaen i Brifysgol Abertawe'. Byddwn yn ymdrechu i wella cynwysoldeb a chymorth academaidd a bugeiliol ar gyfer myfyrwyr drwy ehangu a chryfhau gwaith Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) drwy gynyddu ein hadnodd staff, drwy gyfnodau sabothol a chydweithio ag arbenigwyr pwnc allanol, ehangu DPP staff, a chefnogi mwy o waith prosiect arloesol gan Golegau/bynciau i ymdrin â materion penodol.

Byddwn hefyd yn ymdrechu i hwyluso mynediad i addysg uwch ar gyfer oedolion heb gymwysterau lefel 4 drwy gynnig allgymorth arloesol a chefnogol a chyrsiau byr drwy Addysg Barhaus Oedolion. Yn ogystal, byddwn yn gweithio i sicrhau bod myfyrwyr ag ystyriaethau ychwanegol, megis ymadawyr gofal a gofalwyr, yn derbyn cymorth ariannol digonol drwy fwrsariaethau i'w galluogi i barhau â'u hastudiaethau; a bod myfyrwyr mewn anawsterau ariannol yn gallu elwa o gronfeydd brys.

**Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru/CCAUC**

Mae ymagwedd y Brifysgol tuag at y Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn, cynnwys y Cynllun a'n dull o adnabod y grwpiau a dangynrychiolir mae'r Cynllun yn eu targedu, wedi cael eu llywio gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, CCAUC a sefydliadau allweddol eraill.

Wrth lunio'r Cynllun hwn, rhoddwyd sylw penodol i flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, megis y saith nod o ran llesiant a'r pum agwedd graidd ar ddatblygu sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a darperir tystiolaeth ar eu cyfer yn y cynnwys. Un enghraifft o hyn yn y Cynllun yw ein hymrwymiad cynyddol i ddatblygu Cenhadaeth Ddinesig y Brifysgol, o safbwynt nifer y gweithgareddau i'w darparu yn 2020-21 a rhoi strategaeth Cenhadaeth Ddinesig ar waith yn 2020.

Wrth adnabod y grwpiau a dangynrychiolir i'w targedu gan y Cynllun, unwaith eto rydym wedi canolbwyntio ar grwpiau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 (gweler tudalen

[5] Claire Crawford, Hydref 2014, Socio-economic differences in university outcomes in the UK: drop-out, degree completion and degree class, IFS Working Paper W14/31, University of Warwick and Institute for Fiscal Studies; Yorke, Mantz a Longden, 2004, Retention and Success in Higher Education, Open University Press; Ruth Woodfield, 2014, Undergraduate Retention and Attainment across the Disciplines, HEA; On course for success? Student retention at university, Social Market Foundation wedi'i ariannu gan UPP foundation

19). Yn ogystal, byddwn unwaith eto'n targedu myfyrwyr yn y ddau gwintel isaf (40% o'r boblogaeth) ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Rydym hefyd wedi ystyried y **Mesurau Cenedlaethol** newydd sy'n cael eu datblygu gan CCAUC oherwydd bod y rhain hefyd yn nodi'r grwpiau a dangynrychiolir y mae'n bwysig eu targedu drwy Gynlluniau Ffioedd a Mynediad. Rydym wedi ychwanegu nifer o'r Mesurau Cenedlaethol hyn at ein tabl o DPA, fel y gellir ei weld yn Nhabl G yn yr Atodiad. Wrth wneud hyn, rydym wedi penderfynu dileu nifer o fesurau sefydliadol sy'n debyg i'r mesurau sy'n cael eu disodli gan y Mesurau Cenedlaethol er mwyn lleihau dyblygu a sicrhau y gallwn wneud cymariaethau effeithiol â gweddill y sector.

Mae'r Brifysgol yn parhau i gefnogi'r ymdrech i weithredu Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050 a'i gweledigaeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae Academi Hywel Teifi wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol yn y blynyddoedd diweddar a darperir tystiolaeth o'n huchelgais i gyfrannu at amcanion ehangach Llywodraeth Cymru yn y cynllun.

Mae blaenoriaethau Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe hefyd wedi cael eu hystyried ac mae'r ddarpariaeth yn y Cynllun yn adlewyrchu hyn. Er enghraifft, gellir gweld tystiolaeth yn y cynllun hwn o'r sylw rydym wedi'i roi i bwysigrwydd cynyddol darparu cymorth iechyd meddwl mewn sefydliadau yng Nghymru drwy nifer cynyddol ac amrywiaeth ehangach o weithgareddau.

**Trafodaethau/Adolygiad Grŵp Datblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad**

Mae Gweithgor Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol yn cwrdd drwy gydol y flwyddyn i drafod y gwaith o lunio fersiwn nesaf y cynllun a gwerthuso'r cynllun. Yn ystod y trafodaethau hyn, mae'r grŵp yn gofyn a yw'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn cynnig y ddarpariaeth fwyaf priodol i'w randdeiliaid. Mae'r trafodaethau diweddaraf wedi helpu wrth ddatblygu'r cynllun hwn drwy:

1. Amlygu'r angen i ddarparu gweithgarwch allgymorth mwy cynyddol ac wedi'i dargedu i ategu'r Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach a Strategaeth Ymgyrraedd yn Ehangach y sefydliad. Cytunodd y grŵp fod angen sefydlu Uned Ehangu Mynediad ym Mhrifysgol Abertawe er mwyn cynyddu ein gallu i ddarparu allgymorth, cydlynu allgymorth yn well ar draws y sefydliad ac ehangu ein cyrhaeddiad yn sylweddol ar draws Cymru. (Cafodd hyn ei ddatblygu ymhellach mewn achos busnes - gweler yr adran isod am ail-fuddsoddi bwrsariaethau ar sail incwm).

2. Amlygodd ein gwasanaeth Arian@BywydCampws y pwysau ar y gwasanaeth a gynrychiolir gan y galw am y gronfa cyfle (y gronfa caledi) ac, wrth i fwrsariaethau ar sail incwm ddod i ben, bydd pwysau ar y gyllideb hon yn cynyddu. Wrth werthuso Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017-18, amlygwyd bod ceisiadau am y gronfa eisoes wedi cynyddu 60% o'i gymharu â blwyddyn nodweddiadol. Cytunodd y grŵp y byddai angen darparu mwy o gymorth, yn enwedig pan na fydd y bwrsariaethau ar sail incwm ar gael yn 2020-21 er mwyn cynnal cyfraddau cadw a lliniaru effaith dileu'r ddarpariaeth hon.

3. Bu'r grŵp hefyd yn ystyried yr ystod o grwpiau a dangynrychiolir sy'n cael eu targedu gan y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Ni fydd yr ystod yn newid ond penderfynwyd yn benodol y byddai angen darparu cymorth ychwanegol ar gyfer y grwpiau 'mwyaf anghenus'. Er y bydd bwrsariaethau uwch yn parhau i fod ar gael i ymadawyr gofal, myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd a myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu ar ôl i'r fwrsariaeth ar sail incwm ddod i ben, gall yr anfantais gynyddu i nifer o grwpiau penodol o fyfyrwyr o ganlyniad i hyn. Mae angen cymorth ychwanegol yn aml ar grwpiau penodol yn ystod eu hamser yn y brifysgol: myfyrwyr digartref/sy'n byw mewn foyer, myfyrwyr sy'n teithio, myfyrwyr sy'n rhieni, myfyrwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, myfyrwyr sy'n ffoaduriaid a chyn-droseddwyr.

   Cytunodd y grŵp y dylai'r Brifysgol ehangu cylch gorchwyl y Gronfa Cyfle drwy fuddsoddiad cynyddol, gan alluogi myfyrwyr o'r grwpiau hyn i dderbyn cymorth priodol drwy **grantiau cymorth arbennig dynodedig.** Bydd hyn yn sicrhau na fydd effaith negyddol ar y gallu i'r Gronfa Cyfle ddarparu ei gwasanaethau craidd a bydd yn lliniaru ymhellach effaith dileu bwrsariaethau ar sail incwm.

4. Cydnabu'r gweithgor y pwyslais cynyddol a roddir ar les ac iechyd meddwl gan CCAUC, Llywodraeth Cymru ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Drwy roi sylw i'r blaenoriaethau hyn a rhai'r sefydliad, gan gynnwys trafodaethau â'n Hundeb y Myfyrwyr ni, bydd y cynllun eleni'n dangos cynnydd mewn cymorth.

**Gwerthuso'r Cynllun Ffioedd a Mynediad Blaenorol**

Yn unol â'r arweiniad gan CCAUC ynghylch Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, am y tro cyntaf, bu'n rhaid i'r Brifysgol gynnal hunanwerthusiad o Gynllun Ffioedd a Mynediad 2017-18. Adolygodd y gwerthusiad manwl hwn yr agweddau canlynol ar y Cynllun:

- Cydymffurfiaeth - a wnaethom gyflawni yn unol â'n bwriadau
- Buddsoddiad - a wnaethom fuddsoddi'r gyfran ofynnol o'r incwm o ffioedd
- Adolygiad Beirniadol - pa mor effeithiol oedd y mentrau/gweithgareddau y cyfeiriwyd atynt yn y cynllun
- Perfformiad - a wnaethom gyflawni targedau ein Cynllun Ffioedd a Mynediad
- Effeithiolrwydd - pa mor effeithiol oedd y Cynllun Ffioedd a Mynediad wrth gyflawni ei amcanion

Cynhaliwyd y gwerthusiad yn unol â'n hymagwedd a ddisgrifiwyd yn y Cynlluniau Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2018-19 a 2019-20. Awgrymodd hyn fod y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn rhy fanwl i ni gynnal gwerthusiad effeithiol o'r ddogfen gyfan ac felly penderfynwyd gwerthuso nifer o amcanion bob blwyddyn, gan fyfyrio ar fuddsoddiad cyffredinol a mesurau perfformiad allweddol (tabl G).

Yn gyffredinol, dangosodd yr hunanwerthusiad fod Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017-18 wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan oherwydd y bu'r mentrau a werthuswyd yn effeithiol, cyflawnwyd gwariant buddsoddi a naill ai y cyflawnwyd 15 o'r 20 mesur allweddol neu dangoswyd arwyddion o welliant neu llwyddwyd i gynnal lefelau perfformiad er gwaethaf cyd-destunau gweithredu anodd.

Amlygodd y gwerthusiad sawl maes i'w ddatblygu hefyd (mae rhai o'r rhain wedi cael eu mireinio ymhellach ers i'r gwerthusiad gael ei gyflwyno i CCAUC ym mis Ionawr 2019) sy'n cyfeirio'r fersiwn hon o'r Cynllun Ffioedd a Mynediad:


| Maes i'w Ddatblygu/Wella | Ymateb i'w gynnwys yng Nghynllun Ffioedd a Mynediad 2020-21 |
|---|---|
| Bydd adolygiad o ddarpariaeth Addysg Barhaus Oedolion yn helpu i ddiwallu anghenion datblygol oedolion sy'n dysgu yn ne Cymru. | Datblygir cwricwlwm newydd, arloesol (rhagor o fanylion ar dudalen 23) |
| Rhaglen allgymorth Ysgolion a Cholegau. Mae nifer y myfyrwyr o ardaloedd Ehangu Cyfranogiad ac Ehangu Mynediad wedi cynyddu, ond mae hyn wedi arafu'n ddiweddar ac nid ydym yn perfformio gystal â gweddill y sector ar gyfartaledd. | Ail-fuddsoddi arian (£300,000) i sefydlu Uned Allgymorth Prifysgol Abertawe i gydlynu a darparu allgymorth cynyddol er mwyn denu myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir. Byddwn hefyd wedi creu proses gofnodi briodol i gofnodi ein holl weithgareddau ymgysylltu ag ysgolion/colegau, gan ddefnyddio system CRM i ganiatáu i ni gydlynu ymdrechion a deall cyrhaeddiad ein gweithgareddau yn well. (gweler tudalennau 22 a 23 am ragor o fanylion) |
| Llwybrau i gymwysterau addysg uwch. | Mwy o bwyslais ar gyflogwyr canolig/mawr i'n galluogi i nodi a recriwtio niferoedd cynyddol wrth i Raddau-brentisiaeth ennill eu plwyf fel llwybr i addysg uwch ar gyfer myfyrwyr o bob cefndir. (gweler tudalennau 24-25 a 57-58 am ragor o fanylion) |
| Gwella nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg (targed arall sydd wedi cael ei dangyflawni) | Nododd y gwerthusiad gyfleoedd i'r fenter hon fod yn fwy effeithiol drwy ddyrannu adnoddau ychwanegol yn 2018-19 (dyrannwyd £27,300 i ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg). Mae'r gwerthusiad wedi nodi pynciau penodol a fydd, efallai'n gallu cynnig darpariaeth ychwanegol yn y dyfodol, gan gynyddu cwmpas darpariaeth Cyfrwng Cymraeg. (gweler tudalennau 25 a 26 am ragor o fanylion) |
| Cymorth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, Gofalwyr ac Ymadawyr Gofal a Myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd. | Ail-fuddsoddi yn sgil dileu'r gyllideb ar gyfer bwrsariaethau ar sail incwm (£140,000) i ddarparu rhagor o fwrsariaethau i'r grwpiau penodol hyn a chynnig uwch. (gweler tudalennau 31 a 33 am ragor o fanylion) |
| Buddsoddi'r Gronfa Caledi i liniaru effaith dileu cymorth ariannol arall a galw cynyddol. | Gan gydnabod y gall dileu'r bwrsariaethau ar sail incwm olygu y bydd rhai myfyrwyr yn dal i fod mewn anawsterau ariannol (er gwaethaf pecyn cymorth Llywodraeth Cymru a'r benthyciadau sydd ar gael gan Lywodraeth Lloegr), rydym wedi buddsoddi £100,000 ychwanegol yn y gronfa caledi (sef Cronfa Cyfle Abertawe). (Mae rhagor o fanylion ar dudalennau 30-31) |
| Myfyrwyr Anabl - y gyfradd nad ydynt yn cwblhau (targed heb ei gyflawni) | Fel y nodwyd yn y gwerthusiad, bwriedir rhoi gwelliannau ar waith drwy ddatblygu'r fenter wats clyfar, ynghyd ag ymdrechion i ddarparu adnoddau ychwanegol a gwasanaethau cymorth mwy cyfartal ar y ddau gampws. (Mae rhagor o fanylion ar dudalen 36) |
| Nifer y myfyrwyr o aelwydydd incwm isel/grwpiau a dangynrychiolir sy'n manteisio ar gyfleoedd Symudedd Rhyngwladol. | Fel y nodwyd yn y gwerthusiad bydd y Brifysgol bellach yn ehangu'r meini prawf cymhwyso, amrediad yr incwm aelwyd, yn cynnwys ymadawyr gofal, gofalwyr a myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd ac yn cynyddu gwerth y fwrsariaeth, gan ddibynnu ar hyd y rhaglen, i £500 ychwanegol. (Mae rhagor o fanylion ar dudalen 43) |

**Ail-fuddsoddi arian o'r Bwrsariaethau ar sail incwm**
Fel y nodwyd yn ein gwerthusiad o Gynllun Ffioedd a Mynediad 2017-18, roedd y Brifysgol yn ystyried a ddylai ail-fuddsoddi'r arian ar ôl diddymu'r bwrsariaethau ar sail incwm ym meysydd allweddol y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Yn enwedig, nododd gwerthusiad Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017-18 fod angen gwelliannau wrth gydlynu gweithgareddau allgymorth a bod angen i'r rhain fod yn fwy cynlluniedig. Dangosodd y gwerthusiad y canlynol:

- Roedd y data ar gyfer nifer y myfyrwyr sy'n cael eu denu o ardaloedd Ehangu Mynediad (MALIC) a Chyfranogiad Isel wedi dangos twf da (mewn niferoedd) dros y pum mlynedd diwethaf.
- Fodd bynnag o'i ystyried fel cyfran o'r holl fyfyrwyr, roedd data mwy diweddar yn dangos arwyddion o arafu a gostyngiad hyd yn oed.

Ar ôl y gwerthusiad, cynhaliwyd ymchwiliad manylach i'r data, gan gymharu ein perfformiad â sefydliadau eraill a'r sector. Dangosodd hyn nad oedd ein twf cyfanredol yn y grwpiau hyn yn unol â'r sector a bod angen gwella. Atgyfnerthodd hyn y ddadl ar sail tystiolaeth bod angen buddsoddi ymhellach mewn allgymorth cynyddol. Fel rhan o'r ymarfer hwn, ystyriodd y Brifysgol ein holl ddarpariaeth allgymorth ac roedd bwlch yn amlwg. Mae Siart 1 isod yn dangos bod y Brifysgol wedi nodi angen am weithgarwch mwy cynlluniedig, cynyddol ac wedi'i dargedu ledled Cymru ac, o bosib, yn Lloegr.

**Siart 1 – Darpariaeth Allgymorth**



Datblygwyd achos busnes a nododd yr angen am ddatblygu Uned Ehangu Mynediad Prifysgol Abertawe (gweler tudalen 24). Cymeradwyodd Uwch-dîm Rheoli'r Brifysgol yr achos busnes ynghyd ag elfennau ychwanegol:

- Fel y nodwyd yn nhrafodaethau Gweithgor y Cynllun Ffioedd a Mynediad uchod, roedd angen buddsoddiad ychwanegol yng Nghronfa Cyfle'r Brifysgol (y gronfa caledi) i liniaru effaith dileu'r bwrsariaethau ar sail incwm yn gyffredinol, darparu ar gyfer grantiau cymorth arbennig dynodedig a chynyddu'r gyllideb (i fodloni galw) er mwyn cynnig bwrsariaethau uwch ar gyfer ymadawyr gofal, myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd a myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu (gweler tudalen 31).
- Buddsoddiad ychwanegol ar gyfer Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) er mwyn ehangu gweithgareddau â'r nod o gefnogi wrth gadw myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir a'u dilyniant (gweler tudalen 34).

Mae ail-fuddsoddi strategol ac wedi'i dargedu arian yn sgil dirwyn y Bwrsariaethau ar sail incwm i ben, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gam pwysig ymlaen ar gyfer y sefydliad o ran arddangos ein hymrwymiad i ehangu mynediad. Ni ddylid tanamcangyfrif pwysigrwydd hyn, gan ystyried cyd-destun ariannol presennol y sector addysg uwch yng Nghymru, lle mae'n rhaid i sefydliadau feddwl yn ofalus am eu gwariant a gwneud arbedion.

**Cysylltu ar lefel strategol**

Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol wedi'i wreiddio ar lefel strategol ar draws y sefydliad; yn gyntaf, drwy Grŵp Datblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad dan arweiniad Dirprwy Is-ganghellor a chynrychiolaeth o Undeb y Myfyrwyr ac Ymgyrraedd yn Ehangach. Yn ail, mae'r targedau a'r ddarpariaeth allweddol hefyd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol y Brifysgol, y Ddogfen Cynllunio ac Ymgysylltu Strategol. Yn ogystal, mae cynlluniau strategol eraill, megis y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Safonau'r Iaith Gymraeg a'n mentrau newid strategol, yn hybu'r nodau a'r amcanion a rennir sydd ynghlwm wrth greu amgylchedd astudio cynhwysol.

Mae **Cynllun Strategol y Brifysgol** uwchben yr holl gynlluniau strategol eraill ac mae'n amlinellu'r ymrwymiad i wella profiad y myfyrwyr ac ehangu cyfranogiad. Mae'r Cynllun Strategol presennol yn weithredol tan flwyddyn ein canmlwyddiant yn 2020, a cheir nifer o ymrwymiadau allweddol ynddo, gan gynnwys bwriad strategol mewn perthynas ag ehangu mynediad a chyfranogiad. Dylanwadodd Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol yn sylweddol ar broses datblygu'r ymagwedd strategol hon at ehangu mynediad, a gwelir y dylanwad yn y derminoleg hyd yn oed.

Mae gweledigaeth y Cynllun Strategol yn ymgorffori ein hymagwedd strategol at ehangu mynediad.

***"Gyda'n gilydd, byddwn yn trawsnewid bywydau a rhagolygon, drwy ddarparu amgylchedd academaidd rhagorol sy'n cydbwyso rhagoriaeth o ran addysgu ac ymchwil o safon fyd-eang ag ysgogi effaith ar sail cydweithio rhanbarthol a byd-eang effeithiol."***

Mae ymrwymiadau canlynol y Canmlwyddiant yn ymwneud yn uniongyrchol â bwriad strategol darpariaeth y Cynllun Ffioedd a Mynediad:

- Byddwn yn **cynyddu cyfranogiad gan fyfyrwyr o grwpiau a chymunedau a dangynrychiolir**, ac yn darparu cymorth o'r ansawdd angenrheidiol i'w galluogi i lwyddo.
- Byddwn yn darparu **amgylchedd diogel, cynhwysol a chefnogo**l sy'n ategu ein hymrwymiad i wella amrywiaeth ac yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial.
- Byddwn yn **cefnogi ein myfyrwyr i gyflawni'r canlyniadau uchaf yn eu bywydau personol, academaidd a phroffesiynol.**
- Byddwn yn creu **amgylchedd dysgu cefnogol sy'n cyfoethogi profiad ein holl fyfyrwyr.**
- Byddwn yn parchu ac yn gwerthfawrogi ein myfyrwyr fel partneriaid.
- Byddwn yn cyflwyno **amrywiaeth o weithgareddau a gwaith diwylliannol ac yn y celfyddydau i gyfoethogi diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.**
- Byddwn yn **creu ac yn datblygu partneriaethau byd-eang a lleol** sy'n cyflawni buddion i'n myfyrwyr, ein staff a'r economi, cymdeithas a'r gymuned ehangach.
- Byddwn yn cyfrannu at **ysgogi twf economaidd, cynhyrchiant a ffyniant** yn y rhanbarth, yng Nghymru ac yn y DU.

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn cael ei ategu hefyd drwy **raglenni cyflawni strategaeth a phortffolio SAILS (Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe).** Wedi'i chymeradwyo gan Bwyllgor Dysgu ac Addysgu'r sefydliad, mae strategaeth SAILS yn darparu cyfeiriad a blaenoriaethu ar gyfer ymagwedd y sefydliad at weithgareddau ehangu mynediad, gan fanylu ar y fethodoleg, y data a'r meysydd ffocws i'w cyflawni. Wedyn caiff y strategaeth a'i hamcanion eu cyflawni drwy'r gweithgareddau a ddisgrifir yn rhaglen cyflwyno'r portffolio.

Mae strategaeth bresennol SAILS a'i strategaeth cyflwyno portffolio yn weithredol tan 2020. Er bod y ddwy ddogfen yn ymdrin â nifer eang o grwpiau a dangynrychiolir, rhoddwyd blaenoriaeth uchel i dargedu'r grwpiau a'r meysydd pwnc â'r perfformiad gwaethaf, a darparu gweithgareddau i fynd i'r afael â'r rhain. Er enghraifft, mae'r strategaeth bresennol yn canolbwyntio ar wella dilyniant myfyrwyr o lefel i lefel, a nodwyd angen i wella cymorth ar gyfer myfyrwyr anabl drwy ddarparu hyfforddiant cefnogi ychwanegol i staff academaidd ac yn y gwasanaethau proffesiynol. Caiff y fersiwn nesaf o'r strategaeth, i'w gweithredu o 2020 ymlaen, ei datblygu ar sail ymagwedd debyg, wedi'i thargedu.

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i'r **Iaith Gymraeg** ac mae'r Brifysgol yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog. Mae'r safonau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018 yn disodli ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol. Yn benodol, mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn cynnwys gweithgarwch **Academi Hywel Teifi (AHT) -** pwerdy iaith Gymraeg y Brifysgol - sy'n gyfrifol am ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio elfennau o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Academi hefyd yn gartref i Ganolfan Dysgu Cymraeg Bae Abertawe ac Adran y Gymraeg ei hun. Mae Cyfarwyddwr AHT yn aelod o Grŵp Datblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.

Yn olaf, mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn cydweddu â **Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol** (2016-2020) ac mae'n adlewyrchu'r rôl bwysig sydd ganddo wrth hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae Canlyniad 1 yn y Cynllun yn adlewyrchu prif nod y Cynllun Ffioedd a Mynediad, sef cyflawni cyfle cyfartal:

"O ganlyniad i ddileu gwahaniaethu, **hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ymhlith y grwpiau amrywiol o staff a myfyrwyr**, bydd y Brifysgol wedi cyflawni cydnabyddiaeth a/neu achrediad allanol drwy bedair gwobr **Athena** Swan; Gwobrau Nod y Siarter Hil; Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall; a gwobrau Safonau Anabledd."

Mae'r Canlyniad uchod wedi'i wreiddio yn un o amcanion ein Cynllun, yr un sy'n ymwneud â Chydraddoldeb, ac mae gweithgareddau a gyflawnir gan y Tîm Cyfle Cyfartal wedi'u cynnwys yn y Cynllun yn ogystal ag aelodaeth Grŵp Datblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.

**Amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad**
Mae'r Brifysgol wedi datblygu set o amcanion ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020-21 sy'n adlewyrchu'r strategaethau amrywiol a restrir uchod, ein blaenoriaethau, ac mae hefyd yn adlewyrchu Mesurau Llywodraeth Cymru sydd wedi cael eu mabwysiadu fel amcanion o'r blaen.

**Amcanion Cyfle Cyfartal**

- **CC 1 - Denu:** Ysbrydoli a recriwtio mwy o fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i astudio ym Mhrifysgol Abertawe.
- **CC 2:** Sicrhau bod myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn derbyn **gwybodaeth effeithiol** (gan gynnwys gwybodaeth am gymorth ariannol) cyn ac ar ôl iddynt benderfynu astudio yn y Brifysgol.
- **CC 3 - Cadw:** Darparu gwasanaethau cymorth llesiant ac ariannol cynhwysol i gefnogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i aros mewn addysg uwch a chwblhau eu hastudiaethau.
- **CC 4 - Dilyniant:** Darparu gwasanaethau cymorth academaidd a bugeiliol cynhwysol, o safon uchel, sy'n cefnogi mwy o fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i wneud cynnydd yn eu hastudiaethau addysg uwch.
- **CC 5 - Canlyniadau:** Cefnogi mwy o fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i gyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn addysg uwch, gan arwain at gyflogaeth neu astudiaethau pellach.
- **CC 6 - Cydraddoldeb:** Hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da ymhlith y grwpiau amrywiol o staff a myfyrwyr yn y Brifysgol a'r gymuned ehangach.

**Hyrwyddo Addysg Uwch - Amcanion**

- **HAU 1 - Partneriaethau Strategol Rhanbarthol:** Sefydlu partneriaethau yng Nghymru sy'n cyflawni cenhadaeth addysg uwch y sefydliad, yn ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr ac yn hybu ein dyheadau o ran Cenhadaeth Ddinesig.
- **HAU 2 - Profiad y Myfyrwyr:** Darparu gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau sy'n gwella profiad y myfyrwyr, gan gynnwys gwelliannau i ansawdd yr addysgu.
- **HAU 3 - Cyflogadwyedd:** Darparu gwasanaethau, cymorth a gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr, mewn partneriaeth â chyflogwyr, sy'n cryfhau cyflogadwyedd graddedigion yng Nghymru.
- **HAU 4 - Rhyngwladoli:** Darparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo addysg uwch Cymru yn rhyngwladol, gan gynyddu cyfraddau recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a phartneriaethau rhyngwladol.
- **HAU 5 - Cynyddu ymwybyddiaeth** o werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr yn gyffredinol.

**Cydlyniant Rhanbarthol**
Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hefyd yn adlewyrchu'r ddarpariaeth, y cydweithrediad a'r gweithgarwch ar y cyd a gyflawnir y tu mewn i'r sefydliad a'r tu allan iddo, yn enwedig yr ymdrechion hynny i greu amgylchedd astudio cynhwysol ac ehangu mynediad/cyfranogiad.

Mae ein partneriaeth agos â Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru yn enghraifft dda o sut mae'r ymagwedd hon yn arwain at gydweithredu agos ar fentrau allgymorth. CCAUC yw prif ffynhonnell cyllid y Bartneriaeth ond mae hefyd yn derbyn adnoddau gan y Brifysgol, ar ffurf lle mewn swyddfa a chyllid ar gyfer swydd rheolwr y bartneriaeth.

Ar hyn o bryd, mae Rheolwr Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru yn rhan o Grŵp Datblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, gan helpu i lywio sgyrsiau ynghylch grwpiau a dangynrychiolir a nodi blaenoriaethau i fynd i'r afael â nhw yn y Cynllun. Yn ogystal, mae rheolwr y bartneriaeth hefyd yn aelod o Grŵp Rheoli SAILS a'r gymuned o ymarfer ar gyfer ehangu mynediad ar draws y Brifysgol.

Mae'r bartneriaeth rhwng y Brifysgol a Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru yn gyfle am gydlyniant rhanbarthol ac ymrwymiad a rennir i welliant rhanbarthol ym mhob agwedd ar gylch gorchwyl y Bartneriaeth. Mae hyn wedi cael hwb pellach drwy ymateb i'r cyfarwyddyd gan CCAUC i sefydliadau ddarparu symiau sy'n cyfateb i'w fuddsoddiad yn y partneriaethau hyn, gan ariannu Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Sefydliadol.

Mae Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach y Brifysgol a sefydlwyd yn 2018-19, hefyd yn canolbwyntio ar weithgarwch allgymorth cynyddol sy'n targedu darpar fyfyrwyr o ardaloedd MALlC 40 yn ne-orllewin Cymru. Bydd Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru a'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Sefydliadol yn cydweithio i ddarparu gweithgareddau allgymorth i amrediad eang o grwpiau oedran yn yr ardal hon, gan sicrhau bod gan ymyriadau tymor hir gyfle i ysbrydoli'r darpar fyfyrwyr hyn i astudio ar lefel addysg uwch:

| | | **Uned Allgymorth Prifysgol Abertawe (wedi'i hariannu gan y Brifysgol)** | |
|---|---|---|---|
| **Grwpiau Blaenoriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach CCAUC a Llywodraeth Cymru** | **SWWRWP** (ariennir gan CCAUC, MALlC40 oni nodir yn wahanol) | **Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach** (MALlC40 oni nodir yn wahanol) | **Ffocws Cymru Gyfan** (Pob grŵp a dangynrychiolir) |
| Pobl ifanc ym mlynyddoedd olaf yr **Ysgol Gynradd** hyd at Gyfnod Allweddol 4 | ✓ | | ✓ |
| 16 oed a hŷn | | ✓ | ✓ |
| Oedolion ifanc heb gymwysterau lefel 4 (<21 oed) | | ✓ | ✓ |
| Oedolion dros 21 oed heb gymwysterau lefel 4[6] | ✓ | | ✓ |
| **Cymru gyfan:** Gofalwyr, Plant sy'n Derbyn Gofal, Ymadawyr Gofal | ✓ | ✓ | ✓ |

[6] Ar gyfer y ffocws Cymru gyfan, caiff hyn ei gyflwyno gan adran Addysg Barhaus Oedolion y Brifysgol

## 6) Grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch

Wrth nodi a dethol y grwpiau a dangynrychiolir i'w cynnwys yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad, rhoddwyd ystyriaeth i'r strategaethau/blaenoriaethau sydd ar waith ar hyn o bryd gan y Brifysgol ac yn genedlaethol, gan gyfeirio at ddata proffil ein myfyrwyr ac ymgynghori â Grŵp Datblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, sy'n cynnwys Undeb y Myfyrwyr a Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru.

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn wedi cael ei lywio'n benodol gan **Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol**, gan ymateb yn benodol i un o'r pedwar canlyniad a nodir yn y cynllun:

*Canlyniad 4 - O ganlyniad i ddiddymu'r rhwystrau i gyflawniad myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig, neu sy'n ddifreintiedig oherwydd eu cefndir economaidd-gymdeithasol neu amgylchiadau eraill, bydd y Brifysgol yn cyflawni cydnabyddiaeth allanol am ddarparu profiad rhagorol i'w myfyrwyr.*

Mae llawer o'r grwpiau isod wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch yn fwy cyffredinol, ac mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn manylu ar nifer o ganlyniadau sy'n berthnasol yn uniongyrchol i fyfyrwyr â'r holl nodweddion gwarchodedig, ac mae'r rhain wedi cael eu hystyried wrth nodi a dethol y grwpiau a dangynrychiolir i'w cynnwys.

Detholwyd y grwpiau canlynol i'w cynnwys:

| Grŵp a Dangynrychiolir | Rheswm dros ei gynnwys |
|---|---|
| **Ehangu Cyfranogiad** - Myfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad isel fel y'u diffinnir gan godau post **POLAR3 (i'w ddiweddaru i POLAR4).** | Mae Llywodraeth Cymru a CCAUC am annog myfyrwyr i astudio ar lefel addysg uwch, yn enwedig y rhai o ardaloedd lle ceir lefelau is o gyfranogiad yn draddodiadol. Yn nodweddiadol, mae 31% o'n myfyrwyr yn dod o ardal lle mae cyfranogiad mewn addysg uwch yn isel. |
| **Ehangu Mynediad** - Myfyrwyr o **ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** (MALlC40) | Adeg ysgrifennu Cynllun 2019-20, dechreuodd CCAUC dynnu sylw'r Brifysgol at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r gyfran o fyfyrwyr addysg uwch sy'n dod o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae hyn wedi'i ddiffinio bellach fel y ddau gwintel isaf (40% o'r boblogaeth) ym MALlC. Drwy gydweithredu â Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, mae'r Brifysgol wedi datblygu **Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Sefydliadol** o fewn Uned Allgymorth newydd ym Mhrifysgol Abertawe er mwyn targedu myfyrwyr o'r ardaloedd hyn. Ar hyn o bryd, mae tua 34% o fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf sy'n byw yng Nghymru yn dod o ardal **MALlC40** (data 17-18). |
| Myfyrwyr o aelwydydd **incwm isel** | Rydym yn cydnabod y gall myfyrwyr o deuluoedd incwm isel fyw mewn unrhyw ardal a byddant yn wynebu rhwystrau ariannol sylweddol. Yn 2017-18, roedd tua 28% o'n myfyrwyr israddedig |

| | |
|---|---|
| | newydd yn gymwys i dderbyn ein bwrsariaeth incwm isel i'w helpu i dalu costau byw wrth astudio. |
| **Myfyrwyr ag 'ystyriaethau ychwanegol'** | **Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC)** - Mae'r grŵp hwn o fyfyrwyr yn parhau'n flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru/CCAUC, y Brifysgol a Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, oherwydd bod y cyfrannau o blant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal sy'n symud o arholiadau TGAU i addysg uwch yn eithriadol o isel. Yn ystod 2017-18, cynrychiolodd myfyrwyr LAC 0.4% yn unig o gyfanswm y myfyrwyr gradd gyntaf a dderbyniwyd i Brifysgol Abertawe (20 myfyriwr).<br><br>**Myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd** - Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod myfyrwyr yn y grŵp hwn yn wynebu heriau penodol. Ar hyn o bryd (data 2017-18) mae 14 myfyriwr yn derbyn cymorth sydd â chysylltiad uniongyrchol â'u statws. Mae nifer o fentrau, gan gynnwys darparu cymorth ariannol a chyngor wedi'i dargedu, ar waith. Bydd hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael yn annog myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd i ddatgelu eu hamgylchiadau a manteisio ar wasanaethau perthnasol.<br><br>**Myfyrwyr â Chyfrifoldebau Gofalu** - Gall mynd i'r brifysgol beri heriau arbennig i ofalwyr, oherwydd y gall fod yn anodd iddynt gydbwyso cyfrifoldebau allanol ag astudio. Adlewyrchir hyn gan ganfyddiadau astudiaeth o fyfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu a gynhaliwyd gan NUS. Awgrymodd y canlyniadau mai 36% yn unig o fyfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu sy'n teimlo eu bod yn gallu cydbwyso eu hymrwymiadau (megis gwaith, astudio a theulu/perthnasoedd), o'u cymharu â 53% o fyfyrwyr nad oedd ganddynt gyfrifoldebau gofalu (NUS, 2013). |
| **Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg** | Dyma grŵp arall sy'n flaenoriaeth i'r Brifysgol, Llywodraeth Cymru a CCAUC oherwydd eu hymrwymiad i hyrwyddo a hybu'r iaith Gymraeg a darparu cyfle i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg astudio cwrs o'u dewis drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data proffil myfyrwyr yn Abertawe yn nodi bod ychydig dros 452 o fyfyrwyr yn astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Abertawe'n gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i bennu targedau ar gyfer cyflwyno meysydd pwnc allweddol drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn diwallu anghenion strategol diwydiannau/sectorau penodol, e.e. Nyrsio, Meddygaeth, Gwaith Cymdeithasol ac Addysg. |
| **Myfyrwyr Rhan-amser** | Mae astudio rhan-amser yn parhau'n un o flaenoriaethau CCAUC sy'n helpu pobl i ennill cymwysterau galwedigaethol, yn ehangu mynediad ac yn cryfhau cysylltiadau â chyflogwyr. Tua 9% yn unig o'n myfyrwyr israddedig sy'n astudio ar gwrs rhan-amser (2017-18). Mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr hyn yn astudio am gymhwyster islaw lefel gradd oherwydd 1.7% yn unig o fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf, radd gyntaf, sy'n astudio'n rhan-amser. |

| | |
|---|---|
| **Myfyrwyr Aeddfed** | Ystyrir bod myfyrwyr aeddfed yn rhan o'r agenda ehangu mynediad gan Lywodraeth Cymru a CCAUC, sy'n mabwysiadu ymagwedd pob oedran at ehangu mynediad. Mae data proffil myfyrwyr 2017-18 yn nodi bod cyfran y myfyrwyr aeddfed (21+ oed) bellach yn cynrychioli 12% o israddedigion amser llawn sy'n astudio am radd gyntaf (7% yn achos myfyrwyr 25+). Mae'r ddarpariaeth ran-amser sydd ar gael yn Abertawe hefyd yn darparu ffordd arall i fyfyrwyr aeddfed ymgymryd ag addysg uwch. |
| **Myfyrwyr Anabl** | Fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac oherwydd ei fod yn cael ei annog gan CCAUC (gan gynnwys cyllid), mae sicrhau bod myfyrwyr anabl yn gallu astudio yn Abertawe yn elfen bwysig o'n hagenda cynwysoldeb. Yn ystod 2017-18, mae tua 10% o'n hisraddedigion amser llawn, gradd gyntaf, wedi datgan bod anabledd ganddynt. Mae niferoedd y myfyrwyr sy'n datgan anabledd wedi cynyddu yn ystod y tair blynedd diwethaf, o 448 yn 2015-16 i 526 yn 2017-18 (cynnydd o 17%) |
| **Myfyrwyr Cartref o Gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)** | Mae data proffil myfyrwyr yn awgrymu bod nifer y myfyrwyr BAME o'r DU yn y flwyddyn gyntaf, sy'n astudio am radd gyntaf, yn cynyddu. Yn ystod 2013-14 roedd 332 ohonynt (10.4%) gan gynyddu i 620 (14%) yn 2017-18, sy'n cynrychioli cynnydd o 86% mewn pum mlynedd. Fodd bynnag, ceir bwlch cyrhaeddiad (cyfran y rhai sy'n ennill dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch) rhwng myfyrwyr o'r DU nad ydynt o gefndir BAME a rhai grwpiau o fyfyrwyr BAME o'r DU (cydnabyddir hyn yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol). Bydd llawer o ffactorau'n dylanwadu ar y bwlch hwn, megis cymwysterau adeg dechrau yn y Brifysgol, y pwnc sy'n cael ei astudio a gwahaniaethau o ran cyflawniad ar draws is-grwpiau BAME. |
| Nodweddion Gwarchodedig Eraill:<br>**Crefydd a Chred**<br>**Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>**Ailbennu Rhywedd**<br>**Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall fod nodweddion gwarchodedig eraill gan fyfyrwyr. I'r grwpiau hyn, mae'n bwysig ein bod yn darparu amgylchedd astudio cynhwysol sy'n galluogi myfyrwyr i wireddu eu potensial llawn, dileu rhwystrau i ddysgu, ymgysylltu â myfyrwyr a gwella profiad y myfyrwyr.<br><br>Mae'r data proffil myfyrwyr yn cynnig gwybodaeth gyfyngedig am y grwpiau hyn ac, mewn rhai achosion, nid oes gennym ddata wedi'i gofnodi o gwbl neu nid yw myfyrwyr yn dymuno datgan yr wybodaeth. Mae'r wybodaeth sydd gennym wedi'i chrynhoi isod:<br><br>Mae data proffil myfyrwyr 2017-18 yn dweud wrthym fod tua 30% o fyfyrwyr amser llawn, gradd gyntaf, yn ystyried bod ganddynt ryw fath o grefydd neu ffydd (Cristnogaeth - 23%; Islam - 4%; Arall - 3.0%) ond gall y ffigur hwn fod yn uwch oherwydd i 13% ddewis peidio â dweud. O'r rhai a oedd yn fodlon datgan eu cyfeiriadedd rhywiol, mae data 2016-17 yn awgrymu bod gan oddeutu 2.4% o'r holl fyfyrwyr gyfeiriadedd rhywiol heblaw am heterorywiol. Roedd yn well gan 50% beidio â dweud neu ni chafodd y cwestiwn ei ateb. |

## 7) Amcanion, gweithgareddau a thargedau

### Amcanion, mesurau a thargedau cyfle cyfartal sy'n cefnogi grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch:

### CC 1 - Denu: Ysbrydoli a recriwtio mwy o fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i astudio ym Mhrifysgol Abertawe

**Cyflawni Allgymorth y Sefydliad**

Wedi'i llywio gan ein Hadolygiad Strategol ac argymhellion proses monitro a gwerthuso Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017-18, bydd ymagwedd y Brifysgol at ehangu mynediad i addysg uwch ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir yn 2020-21 yn cael ei chyflawni drwy:

- **Uned Allgymorth Prifysgol Abertawe yn cyflawni'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Sefydliadol (IRWP) yn ne-orllewin Cymru.** Mae'r Uned, a ariennir gan y Brifysgol (£282,000) ac sy'n ategu'r gweithgareddau a ddarperir gan Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, yn gweithio gyda phobl ifanc dros 16 oed, oedolion heb gymwysterau lefel 4 sy'n byw mewn ardaloedd côd post MALlC40 yn ne-orllewin Cymru. Ar y cyd â Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, mae'r Uned Allgymorth hefyd yn targedu gofalwyr, plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal ledled Cymru.

  Mae'r rhaglen ar gyfer dysgwyr unigol, 'Camu Ymlaen i Brifysgol Abertawe', yn gweithio'n helaeth gydag ysgolion a cholegau, gan ddarparu rhaglen gynyddol o lwybrau astudio i addysg uwch ar ffurf amrywiaeth o ddiwrnodau rhagflas, dosbarthiadau meistr, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyrsiau preswyl byr, a gweithio gydag addysg barhaus oedolion. Bydd effaith yr holl weithgarwch wedi cael ei gwerthuso yn gynnar ym mlwyddyn academaidd 2020-21. Defnyddir y gwersi a ddysgir i ddatblygu a mireinio'r rhaglenni a'r mentrau sy'n cael eu cynnig dros amser er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosib a'r defnydd gorau o adnoddau.

- **Buddsoddi yn Uned Allgymorth Prifysgol Abertawe a'i Datblygu, newydd ar gyfer 2020-21.** Fel y nodwyd yn y gwerthusiad a'r adolygiad strategol, mae'r Brifysgol wedi ail-fuddsoddi arian (£318,000) er mwyn cau'r bwlch yn ei darpariaeth o allgymorth wedi'i dargedu a chynyddol yng Nghymru. Bydd yr uned yn estyn ac yn adeiladu ar weithgareddau allgymorth cynyddol yr Uned Allgymorth sy'n cyflawni'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Sefydliadol (IRWP, gweler uchod). Bydd yn ehangu ei thargedau i gynnwys plant oedran ysgol gynradd i oedolion ledled Cymru ac ystod ehangach o grwpiau a dangynrychiolir. Mae'r Uned hon newydd gael ei chymeradwyo gan y Brifysgol, felly mae'n bosib y bydd y rhaglen yn wahanol erbyn iddi fod yn hollol weithredol yn 2020-21. Fodd bynnag, bydd yn seiliedig ar weithgareddau'r IRWP y manylir arnynt uchod ac yn eu hestyn.

- **Cyfraniad at Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru.** Gan ddefnyddio cyllid CCAUC, mae'r Bartneriaeth yn gyfrifol am dargedu pobl ifanc 16 oed ac yn iau (pobl ifanc ym mlynyddoedd olaf yr ysgol gynradd hyd at Gyfnod Allweddol 4) ac oedolion dros 21 oed nad oes ganddynt gymwysterau lefel 4 sy'n byw yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) a grwpiau eraill y mae'n anodd eu cyrraedd ledled Cymru (gofalwyr, plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal).

  Yn 2020-21, bydd y Brifysgol yn parhau i **fod yn brif bartner** Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, gan sicrhau bod myfyrwyr a dargedir yn pontio'n ddidrafferth o weithgareddau'r Bartneriaeth i weithgareddau Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach y Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn darparu cartref ar gyfer y bartneriaeth ac yn cyfrannu at gostau staffio drwy ariannu swydd y rheolwr a darparu amser staff academaidd i gyflwyno gweithgareddau ar y cyd. Mae Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru yn adrodd ar wahân i CCAUC, felly nid oes targedau wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.

**Mae gweithgareddau eraill i ddenu myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cynnwys:**

- Gweithio gyda'r **Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr ar ymweliadau ag ysgolion a cholegau addysg bellach**, gan dargedu disgyblion o grwpiau a dangynrychiolir.
- Penodi **Swyddog Recriwtio Myfyrwyr yn Llundain i gynorthwyo gyda'r nifer cynyddol o ddarpar fyfyrwyr o'r genhedlaeth gyntaf o fewnfudwyr o gefndiroedd BAME.**
- Cynnal y **Rhaglen Allgymorth ar-lein ar gyfer <u>Ysgolion a Cholegau</u>** sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau i ysgolion a cholegau addysg bellach er mwyn cefnogi mynediad i addysg uwch. Caiff yr holl weithgareddau ac allgymorth hyn eu cynnwys yn ein system CRM at ddibenion cofnodi ac adrodd.
- Cynnal **cymuned ymarfer** weithredol ar gyfer staff sy'n cefnogi ehangu mynediad ac allgymorth ar draws y Brifysgol.
- Darparu **cynnig wedi'i warantu** i'r holl ymgeiswyr, waeth pa raddau a ragwelir ar eu cyfer.
- Darparu llwybrau dilyniant ar ffurf **blynyddoedd sylfaen** mewn Peirianneg, Gwyddoniaeth, y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Ysgol Reolaeth ar gyfer unigolion nad ydynt yn gymwys i'w derbyn yn uniongyrchol i flwyddyn gyntaf gradd israddedig amser llawn.
- Cynnig gweithgareddau i hyrwyddo **addysg uwch ran-amser i oedolion sy'n dysgu**, gan gynnwys deunyddiau hyrwyddo, posteri, gweithgarwch yn y cyfryngau cymdeithasol ac ar y we, i hyrwyddo cyfleoedd i astudio gydag Addysg Gymunedol i Oedolion yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Abertawe. Mae hyn yn cynnwys datblygu a chyflwyno cwricwlwm arloesol newydd hefyd.
- Darparu digwyddiadau sy'n agored i'r gymuned gyfan, darlithoedd cyhoeddus yn y gymuned, sesiynau rhagflas (1.5 i 2 awr), grwpiau darllen a chyrsiau rhagflas am ddim (1-2 awr x 2-4 wythnos) i annog myfyrwyr aeddfed nad ydynt wedi bod mewn addysg ers amser i symud ymlaen i gyfleoedd addysg uwch.
- Darparu modiwlau rhan-amser, cryno, sy'n cynnig 10 ac 20 credyd ar gyfer addysg uwch, ar draws y cwricwlwm cyfan ar gyfer oedolion sy'n dysgu’n rhan-amser, yn

| |
|---|
| ystod y dydd a chyda'r hwyr, ar Gampws Parc Singleton ac yn y gymuned, i'w paratoi ar gyfer addysg uwch.<br>• Darparu saith rhaglen israddedig ran-amser, ar y campws ac mewn lleoliadau cymunedol, er mwyn cefnogi ehangu mynediad. |
| **Yr Unedau Gwasanaeth sy'n Gyfrifol:**<br>Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS), Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, Uned Allgymorth Prifysgol Abertawe, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Marchnata - Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr y DU. |
| **Rhesymeg am y gweithgareddau:**<br>• Er mwyn cydweddu â datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar ehangu mynediad... "Dylai addysg uwch fod ar gael i bawb sydd â'r potensial i elwa beth bynnag eu hoed, rhyw, modd a lefel o astudio, gwlad eu tarddiad a'u cefndir..."<br>• Ehangu'r ddarpariaeth allgymorth i Gymru gyfan, ar sail Adolygiad Strategol o'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.<br>• Cyflawni Ymrwymiad Canmlwyddiant 2020 Prifysgol Abertawe: "Byddwn yn cynyddu cyfranogiad myfyrwyr o grwpiau a chymunedau a dangynrychiolir..." |
| **Grŵp neu grwpiau o fyfyrwyr:**<br>Unigolion o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch |
| **Targedau**<br>Bydd y gweithgareddau a restrir uchod yn cynorthwyo wrth gyflawni'r targedau cyfranogiad ar gyfer y grwpiau a dangynrychiolir a restrir yn Nhabl G yn Atodiad Aii.<br><br>Yn ogystal, mae ein Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Sefydliadol yn cynnwys nifer o dargedau allweddol y byddwn yn monitro eu cynnydd a'u cyflawniad yn 2020-21:<br>• Cyfran y myfyrwyr israddedig blwyddyn gyntaf o Gymru sy'n astudio am radd gyntaf (pob modd, FPE) ym Mhrifysgol Abertawe sydd o'r ddau gwintel isaf (MALlC, 40% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig) ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: **Cyflawni 35% yn 2020-21 o waelodlin 33.6% yn 2017-18.**<br>• Recriwtio hyd at 100 o fyfyrwyr unigol Blwyddyn 12 o ardaloedd côd post MALlC40 yn ne-orllewin Cymru.<br>• Recriwtio 100 o fyfyrwyr unigol o grwpiau a dangynrychiolir ledled Cymru i'r rhaglen Camu Ymlaen i Abertawe sy'n seiliedig ar bwnc. |

| |
|---|
| **Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cael eu recriwtio i astudio yma**<br><br>Bydd y Brifysgol yn parhau i ddatblygu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac yn cynllunio i gynnig darpariaeth a fydd yn caniatáu i fyfyrwyr elwa o ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae seicoleg ac addysg ymhlith y meysydd pwnc heb ddarpariaeth lle gellir ennill credydau drwy'r Gymraeg ar hyn o bryd, ond sy'n cynnig marchnadoedd newydd posib.<br><br>**Gweithgareddau i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg:**<br>• Diwrnodau rhagflas Cymraeg ar gyfer blynyddoedd 9 i 13, ar draws amrywiaeth o bynciau academaidd. |

- Partneriaeth rhwng Tŷ'r Gwrhyd a rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Prifysgol Abertawe i gefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg â disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
- Diwrnodau Rhagflas ar gyfer Disgyblion Galluog a Dawnus mewn Meddygaeth a Pheirianneg.
- Diwrnodau Blas ar Addysg Uwch mewn Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwaith Cymdeithasol.
- Diwrnodau Sgiliau Academaidd Bagloriaeth Cymru cyfrwng Cymraeg.
- Gweithdai i gefnogi ysgolion cyfrwng Saesneg yn ne-orllewin Cymru i gyflwyno eu mentrau iaith Gymraeg ac i gefnogi eu myfyrwyr wrth iddynt astudio Cymraeg a llenyddiaeth Gymraeg.
- Parhau i hyrwyddo Prif Ysgoloriaethau ac Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg Cymraeg â'r nod o ddenu niferoedd cynyddol o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg (ar hyn o bryd, rydym yn derbyn pedair Prif Ysgoloriaeth ac o leiaf 30 o Ysgoloriaethau Cymhelliant bob blwyddyn i'w dyfarnu i fyfyrwyr).
- Cynnal lefel y cymhelliant a'r cymorth i'r rhai sy'n astudio yn Gymraeg yn 20-21 drwy gynnig ysgoloriaethau a bwrsariaethau AHT (mae 55 o ysgoloriaethau ac wyth bwrsariaeth ar gael ar gyfer astudio lefelau amrywiol o gredydau yn Gymraeg).
- Gweithio i gynyddu nifer y pynciau/adrannau sy'n sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar fersiynau Cymraeg modiwlau/grwpiau seminar er mwyn normaleiddio a phrif-ffrydio'r ddarpariaeth. System optio allan fydd hon yn hytrach nag optio i mewn.

**Darperir gan:** Academi Hywel Teifi

**Rhesymeg:** Annog myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a cholegau addysg bellach i fanteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, gan wella eu potensial i lwyddo yn eu hastudiaethau a'u cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

**Grŵp neu Grwpiau o Fyfyrwyr:** Myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg

**Targedau:**

- Cynnydd yn y **niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg:**
  - 5+ credyd (o 356 yn 2017-18 i 400 yn 2019-20 a 500 yn 2020-21 a chynnydd blynyddol o 5% wedi hynny).
  - 40+ credyd (o 182 yn 2017-18 i 200 yn 2020-21 a chynnydd blynyddol o 5% wedi hynny).
- **Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
  Dyfarnu'r pedair Prif Ysgoloriaeth ac o leiaf 30 o Ysgoloriaethau Cymhelliant yn llwyddiannus i fyfyrwyr sy'n astudio 40+ o gredydau yn Gymraeg.
- **Prosiect Tŷ'r Gwrhyd**
  2020-21 - Parhau i ymgysylltu â mwy na 50 o siaradwyr Cymraeg mewn pum ysgol, fel y nodwyd yng Nghynllun Ffioedd a Mynediad 2018-19, drwy weithdai, ymweliadau ag ysgolion a chlybiau ar ôl ysgol. Mae'r Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach yn cyfrannu £1,000 at y prosiect hwn a'r Brifysgol fydd yn darparu'r £8,000 sy'n weddill.
- **Diwrnodau Rhagflas/Sgiliau Addysg Uwch** - Parhau i gynnig pedwar diwrnod y flwyddyn, gan dargedu cyfanswm o 400 o ddarpar fyfyrwyr. Adolygu adborth a llwyddiant y sioe deithiol oddi ar y campws sy'n cael ei chynllunio ar gyfer 2019-20 ac ymateb ar sail hyn, ar gyfer gweithredu yn 2020-21.
- **Diwrnodau Sgiliau Academaidd Bagloriaeth Cymru** - Parhau i gynnig dau ddiwrnod, un yn ne Cymru a'r llall yng ngogledd Cymru. Anelu at ddenu 250 o ddarpar fyfyrwyr.

## CC 2: Sicrhau bod myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn derbyn gwybodaeth effeithiol (gan gynnwys gwybodaeth am gymorth ariannol) cyn ac ar ôl iddynt benderfynu astudio yn y Brifysgol

Mae'r Brifysgol yn sicrhau ei bod yn darparu **gwybodaeth effeithiol i'r holl fyfyrwyr**, gan gynnwys y rhai o grwpiau a dangynrychiolir, drwy amrywiaeth o wasanaethau cyn ac ar ôl eu cwrs.

**Cyn iddynt gyrraedd y sefydliad, bydd y Brifysgol yn darparu gwybodaeth effeithiol am eu hastudiaethau i fyfyrwyr:**

- Caiff gwybodaeth am Dderbyn a Chyrsiau ei diweddaru ar-lein.
- Cynhyrchir llyfrynnau a phrosbectysau rhaglenni (gan gynnwys gwybodaeth am gymorth ariannol sydd ar gael yn y Brifysgol yn 2020-21).
- Parheir i fynychu cynadleddau a ffeiriau addysg uwch UCAS.
- Cyswllt uniongyrchol â myfyrwyr sy’n cyflwyno ymholiadau.
- Parheir i gynnal diwrnodau agored ac ymweliadau ar ôl ymgeisio.
- Sgyrsiau gan y Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr ar gyfer disgyblion blynyddoedd 12 a 13 mewn ysgolion ledled de Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig a threfol difreintiedig.
- Darperir prosbectws israddedig a thudalennau gwe cyrsiau yn Gymraeg. Yn ogystal, mae ap newydd Academi Hywel Teifi, *Arwain*, yn darparu gwybodaeth am gyrsiau a modiwlau cyfrwng Cymraeg, y cymorth ariannol a'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Brifysgol hefyd yn cydweithredu â'r Coleg Cymraeg ar amrywiaeth o weithgareddau recriwtio er mwyn denu myfyrwyr i ddarpariaeth Gymraeg, gan gynnwys gweithdai a digwyddiadau, cynllun myfyrwyr llysgennad y Coleg a thrwy ddigwyddiadau cenedlaethol allweddol megis y GwyddonLe yn Eisteddfod yr Urdd ac amrywiaeth o weithgareddau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.
- Mae trefniadau cymorth Gwasanaethau Myfyrwyr a gwybodaeth am gyllid ar gael ar-lein; hefyd mae sgyrsiau yn ystod diwrnodau agored yn esbonio'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir neu gefndiroedd difreintiedig.
- Mae pecynnau cofrestru'n rhoi manylion llawn am gyrsiau, gan gynnwys rhaglenni ac amserlenni.
- Diwrnodau agored a phrofiadau rhagflas mewn lleoliadau cymunedol i gefnogi oedolion sy'n dysgu i ddeall cyfleoedd addysg uwch ym Mhrifysgol Abertawe a manteisio arnynt.

**Tra bydd myfyrwyr yn y Brifysgol, bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod yn darparu gwybodaeth effeithiol iddynt ac yn codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael:**

- Mae Fforwm Myfyrwyr Cangen Prifysgol Abertawe y Coleg Cymraeg yn rhoi llais i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith, ac mae'n ffordd o rannu gwybodaeth rhwng myfyrwyr, y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg.
- Bydd mentor Cymraeg ei iaith yn cael ei gynnig i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg, fel sy'n ofynnol yn ôl y dyletswyddau a bennir i brifysgolion gan Safonau'r Gymraeg.

- Cysylltir â myfyrwyr drwy lythyr ac e-bost i'w hysbysu am unrhyw newidiadau a allai ddigwydd yn ystod eu cwrs. Gellir gosod gwybodaeth ar y wefan hefyd ac ar borth dynodedig ar-lein y Brifysgol. Byddwn yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch costau ychwanegol annisgwyl i fyfyrwyr.
- Bydd yr holl fyfyrwyr yn gallu cyrchu gwybodaeth lawn am eu cwrs ar-lein drwy'r Canllaw Academaidd i fyfyrwyr.
- Yn ogystal, mae gan y Brifysgol MyUniHub (siop dan yr unto ar gyfer ymholiadau myfyrwyr) ar bob campws, lle gall myfyrwyr alw heibio, gofyn cwestiynau a derbyn cyngor, gan gynnwys gwybodaeth gyffredinol sydd ar gael ar-lein ar wefan MyUniHub.
- Tudalennau gwe BywydCampws penodol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio y tu allan i'r prif gampws, ar raglenni masnachfraint.
- Llawlyfrau pwrpasol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner.
- Gweithio gyda myfyrwyr llysgennad i helpu myfyrwyr newydd i ymgartrefu ym Mhrifysgol Abertawe drwy wneud fideos a chyfrannu at brosiectau marchnata eraill. Mae myfyrwyr llysgennad hefyd yn cynnig cyflwyniadau ar fywyd myfyrwyr a sesiynau holi ac ateb i ddarpar fyfyrwyr, aelodau teulu ac athrawon/ymgynghorwyr colegau, yn ogystal ag ymweld ag ysgolion a cholegau i siarad am astudio yn ein sefydliad.

Mae Swyddog Cyfathrebu â'r Myfyrwyr amser llawn i arwain a chefnogi cyfathrebu effeithiol â myfyrwyr.

**Rhesymeg:** I sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn derbyn yr wybodaeth angenrheidiol sy’n berthnasol i'w hamgylchiadau er mwyn iddynt wybod a deall sut cânt eu cefnogi i astudio yn y brifysgol.

**Grŵp o Fyfyrwyr:** Pob myfyriwr, gan gynnwys y rhai o grwpiau a dangynrychiolir

Mae'r Brifysgol yn sicrhau ei bod yn darparu **gwybodaeth ariannol effeithiol i'r holl fyfyrwyr**, gan gynnwys rhai o grwpiau a dangynrychiolir, drwy amrywiaeth o wasanaethau sy'n targedu myfyrwyr cyn ac yn ystod eu cwrs.

**Cyn iddynt gyrraedd y sefydliad, bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod yn darparu gwybodaeth ariannol effeithiol i fyfyrwyr drwy ymrwymo i:**

- Ysgrifennu at yr holl fyfyrwyr sy'n gwneud cais am le yn 2020-21 i'w hysbysu am y ffioedd, y trefniadau ar gyfer talu ffioedd a'r cymorth sydd ar gael iddynt.
- Gwybodaeth glir am lefelau'r ffioedd ar gyfer pob rhaglen a faint dylai myfyrwyr ddisgwyl ei dalu am hyd eu rhaglen (mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys hefyd yn ein setiau gwybodaeth allweddol ar lefel rhaglenni). Yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer Addysg Uwch, bydd myfyrwyr yn gallu gweld cyfanswm cost eu gradd ac elfennau'r cyfanswm yn glir.
- Darparu gwybodaeth glir am gostau ychwanegol nodweddiadol a allai fod yn gysylltiedig â chyrsiau penodol, megis yr angen i brynu cotiau labordy, cyfarpar personol, neu gostau a ragwelir mewn perthynas â theithiau maes, etc.

- Darparu dolenni i ffynonellau eraill o wybodaeth a chymorth, gan gynnwys gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru lle ceir cyfrifianellau sy'n caniatáu i fyfyrwyr weld costau astudio'n gyflym a pha gymorth sydd ar gael iddynt.
- Cynnal sesiynau sgwrsio ar-lein cyn cyrraedd a drefnir gan Arian@BywydCampws sy'n caniatáu i fyfyrwyr gael cyngor arbenigol, gwybodaeth a chymorth am bopeth sy'n ymwneud â chyllid myfyrwyr â'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor perthnasol.
- Mae'r Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr yn archwilio ymarferoldeb darparu cymorth ariannol ar gyfer costau teithio i ddarpar fyfyrwyr o 2020 ymlaen. Mae'r fenter wedi'i chynllunio i gynorthwyo'r rhai y byddai fel arfer yn anodd iddynt deithio i ddiwrnodau agored y Brifysgol a hefyd i ddileu'r rhwystrau ymarferol ac ariannol sy'n gysylltiedig â mynd i ddiwrnod agored sefydliad addysg uwch ac ymweld â'n campysau. Bydd y fenter yn agored i fyfyrwyr sy'n bodloni'r un meini prawf â'r rhai a dargedir gan y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Sefydliadol (fel y nodwyd yn CC1).
- Mae sgyrsiau am **gyllid myfyrwyr (fideos)** ar ddiwrnodau agored y Brifysgol yn darparu gwybodaeth glir ar gyfer rhieni a myfyrwyr am lefelau'r ffioedd a'r pecynnau ariannu statudol a bwrsariaethau'r Brifysgol sydd ar gael. Mae'r tîm derbyn a recriwtio myfyrwyr yn darparu'r wybodaeth hon i ddarpar fyfyrwyr a'u rhieni drwy eu gwaith mewn ysgolion a ffeiriau recriwtio a chynadleddau addysg uwch. *Sylwer: Defnyddir fideos i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu yn Gymraeg ac maent yn berthnasol i'r holl ffrydiau cyllido, gan gynnwys SFW, SFE a'r GIG).*
- Mae gwefan y Brifysgol yn cynnwys 'tudalen costau byw' sy'n manylu ar gostau cyfartalog llety, cyfleustodau, gwariant ar hamdden, parcio, etc. Mae'r wybodaeth yn cynnwys ymwadiad i'r perwyl y bydd costau byw'n dibynnu ar ffactorau megis ffordd o fyw ac amgylchiadau unigol.
- Gwybodaeth benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n: gohirio mynediad; astudio dramor; astudio'n rhan-amser; ailsefyll blwyddyn gyfan neu ran o flwyddyn; neu'n astudio ar lefel nad yw'n lefel radd.
- Mae'r Brifysgol a'i phartneriaid dan drefniadau masnachfraint yn parhau i ymdrechu i gadw nifer a hyd a lled costau ychwanegol i'r lefel isaf bosib. Cyhoeddir manylion am gostau ychwanegol ar dudalennau gwe rhaglenni unigol a chânt eu cynnwys yn yr wybodaeth am raglenni sy'n cael ei hanfon at ymgeiswyr gyda'u cynnig.
- Cyfranogiad yn holl ddiwrnodau agored a chyffredinol UCAS (gan ddarparu sgyrsiau gwybodaeth am gyllid, fideos, gwybodaeth ysgrifenedig yn ogystal ag ymgynghorwyr i ateb ymholiadau penodol). Presenoldeb hefyd mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau croeso, gan gynnwys Penwythnos Cyrraedd a digwyddiadau Colegau penodol.
- Darparu sgyrsiau i ddarpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir (megis gofalwyr ifanc).

**Tra byddant yn y brifysgol, bydd y brifysgol yn sicrhau ei bod yn darparu gwybodaeth effeithiol i fyfyrwyr drwy ymrwymo i:**

- Sesiynau galw heibio Arian@BywydCampws sy’n rhoi cyfle i fyfyrwyr dderbyn cymorth ariannol gan arbenigwyr, gan hyrwyddo cyfraddau cadw drwy gyngor a chymorth ymarferol yn ogystal â phorth ar-lein arbennig, dros y ffôn a thrwy e-bost.

| |
|---|
| Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan Arian@BywydCampws yn cael eu hysbysebu'n eang drwy sgyrsiau i fyfyrwyr, presenoldeb mewn diwrnodau agored, ffeiriau croeso, e-byst, cyfryngau cymdeithasol a hysbysiadau ar fyrddau bwletin ac mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau a phosteri ar y campws.<br>• Sgyrsiau Gallu Ariannol a Digwyddiadau Ymgysylltu i helpu myfyrwyr i baratoi, cynllunio a sicrhau bod ganddynt ddigon o arian wrth astudio.<br>• Mae gwefan y Brifysgol hefyd yn cynnwys 'tudalen costau byw' sy'n manylu ar gostau cyfartalog llety, cyfleustodau, gwariant ar hamdden, parcio etc. Mae'r wybodaeth yn cynnwys ymwadiad i'r perwyl y bydd costau byw'n dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, megis ffordd o fyw ac amgylchiadau unigol.<br>• Ysgrifennu at fyfyrwyr sydd wedi gohirio mynediad o'r flwyddyn flaenorol i'w hysbysu am y ffioedd, ac at fyfyrwyr presennol y gallai'r newidiadau mewn ffioedd effeithio arnynt os penderfynant newid i gwrs arall neu os bydd rhaid iddynt ailsefyll, er mwyn darparu'r wybodaeth briodol iddynt.<br>• Darparodd tîm Arian@BywydCampws Swyddfa Cyngor a Chymorth Ariannol y Brifysgol wybodaeth i fyfyrwyr presennol drwy sesiynau cynghori galw heibio, drwy borth ar-lein arbennig y Brifysgol a thros y ffôn a thrwy e-bost. Mae gwasanaethau Arian@BywydCampws yn cael eu hysbysebu'n eang drwy sgyrsiau i fyfyrwyr, presenoldeb mewn diwrnodau agored, ffeiriau croeso, drwy e-byst a hysbysiadau ar fyrddau bwletin a thrwy amrywiaeth o ddigwyddiadau a phosteri ar y campws. Yn ystod 2017-18, darparodd Arian@BywydCampws wybodaeth, cymorth a chyngor drwy 12,960 o gysylltiadau â myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys e-byst, galwadau ffôn a 1,475 o ymweliadau â sesiynau galw heibio ac apwyntiadau un i un.<br>• Tudalennau cyngor ariannol ar y wefan (sy'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol). Yn 2017-18 derbyniodd y tudalennau hyn 62,702 o ymweliadau.<br>• Digwyddiadau ymgysylltu â myfyrwyr, gan gynnwys sgyrsiau sefydlu myfyrwyr newydd, digwyddiadau a gweithdai gallu ariannol a digwyddiadau hyrwyddo'r gwasanaeth. Yn 2017-18 cynhaliwyd 35 o'r digwyddiadau hyn.<br>• Sicrhau bod myfyrwyr amser llawn ar gyrsiau masnachfraint yn derbyn yr un lefel o wybodaeth a mynediad i wybodaeth, cymorth ac ymgysylltu. Mae'r Brifysgol yn cytuno ar gontract gyda'r holl ddarparwyr, sy'n amlinellu'r cyfrifoldeb i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i fyfyrwyr ynghylch cofrestru, ymgeisio, lefelau ffioedd a'r cymorth sydd ar gael iddynt (gan gynnwys pecynnau cymorth ariannol), yn gyson â disgwyliadau'r Brifysgol o ran sicrhau ansawdd profiad dysgu myfyrwyr.<br>• Gwybodaeth benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n gohirio mynediad, yn astudio dramor, yn astudio'n rhan-amser, yn ailsefyll blwyddyn gyfan neu ran o flwyddyn, sy'n astudio ar lefel nad yw'n lefel radd. |
| **Rhesymeg:** I sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn yr holl wybodaeth ariannol angenrheidiol sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau er mwyn iddynt wybod a deall sut cânt eu cefnogi i astudio yn y brifysgol. |
| **Grŵp o Fyfyrwyr:** Pob myfyriwr, gan gynnwys y rhai o grwpiau a dangynrychiolir |

## CC3 - Cadw: Darparu gwasanaethau cymorth llesiant ac ariannol cynhwysol i gefnogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i aros mewn addysg uwch a chwblhau eu hastudiaethau.

**Pecynnau Cymorth Ariannol**

**Pecynnau Cymorth Ariannol a ddarperir gan y Brifysgol** er mwyn denu, cefnogi a chadw myfyrwyr, gan gynnwys rhai o grwpiau a dangynrychiolir:

- **Bwrsariaethau ar sail incwm ar gyfer myfyrwyr presennol (rhai a ddechreuodd yn y Brifysgol yn 2018-19 a chyn hynny)** ar gyfer myfyrwyr o deuluoedd incwm isel. Bydd y myfyrwyr hyn yn parhau i dderbyn bwrsariaeth berthnasol, gan ddibynnu ar lefel incwm eu haelwyd tan iddynt gwblhau eu cwrs.
- **Bwrsariaeth ymadawyr gofal** gwerth £1,000 y flwyddyn (ar ben unrhyw hawl bresennol i fwrsariaeth ar sail incwm). Rydym hefyd wedi cynyddu cyllideb y fwrsariaeth ymadawyr gofal i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn cyfateb i nifer y myfyrwyr cymwys sy'n dod i Brifysgol Abertawe ac y gellir eu hariannu'n gyfforddus yn y dyfodol.
- **Cronfa Caledi Myfyrwyr gwerth £431,000** i helpu i atal myfyrwyr rhag tynnu'n ôl oherwydd anhawster ariannol (ac i gynorthwyo myfyrwyr anabl sy'n gwneud cais am brawf diagnostig cychwynnol cyn cyflwyno cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl). Cynnydd o £100,000 yn 2020-21 i helpu myfyrwyr a allai fod mewn anawsterau heb fwrsariaeth ar sail incwm pan ddaw'r cynllun hwn i ben.
- **Bwrsariaethau Symudedd** gwerth £1,000 i helpu tuag at gostau gweithio neu astudio dramor sy'n rhan o gwrs myfyriwr, gan gynnwys £250 ychwanegol (hyd at gyfanswm o £1,500) ar gyfer myfyrwyr o deuluoedd incwm isel neu sy'n ofalwyr, yn ymadawyr gofal a myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd.
- **Darparu Ysgoloriaethau Rhagoriaeth a Theilyngdod** a ddyfernir i fyfyrwyr ar sail cyrhaeddiad academaidd blaenorol ac er mwyn cefnogi myfyrwyr i astudio ym Mhrifysgol Abertawe. Mae hyn yn rhan o becyn cymorth ariannol y Brifysgol ac rydym yn disgwyl buddsoddi dros £900,000 i gefnogi dros 1,000 o fyfyrwyr. Mae ein data yn dangos bod yr ysgoloriaethau hyn yn cael effaith sylweddol wrth recriwtio myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir, gydag 80% o'r myfyrwyr sy'n derbyn un o'r ysgoloriaethau hyn yn dod o ardal cyfranogiad isel (POLAR).
- Mae **cyngor a chymorth ar gael gan swyddfa** Arian@BywydCampws y Brifysgol, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein - 18 awr yr wythnos (a rennir yn gyfartal rhwng Campws Singleton a Champws y Bae). Ceir gwasanaethau galw heibio yn ogystal â thros y ffôn ac mae gwasanaeth e-bost penodol ar gael pum niwrnod yr wythnos.
- Cynhelir **mentrau cynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer staff** yn 2020-21. Bydd tîm Arian@BywydCampws y Brifysgol yn cynnal rhaglen o sioeau teithiol ar gyfer staff y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â grwpiau a dangynrychiolir, megis ymadawyr gofal, myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r materion ychwanegol (ariannol ac eraill) y mae myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig yn eu hwynebu.

**Darperir gan:** Gwasanaethau Myfyrwyr, Arian@BywydCampws

**Rhesymeg:** Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod cymorth a chyngor ariannol, yn enwedig i'r myfyrwyr hynny o deuluoedd incwm isel neu gefndiroedd difreintiedig, yn chwarae rôl wrth gefnogi myfyrwyr i aros mewn addysg uwch.

Pob myfyriwr, gan gynnwys myfyrwyr o aelwydydd incwm isel, plant sy'n derbyn gofal, myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd, myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol a myfyrwyr anabl.

**Targedau:**
Yn seiliedig ar y rhagdybiaeth o un cyswllt ar gyfer cymorth fesul myfyriwr, ac ar ragamcanion ar sail gwaelodlin 2017-18, rydym yn rhagweld, yn 2020-21, y byddwn yn cefnogi:

- 900 o fyfyrwyr drwy gronfeydd caledi (yn seiliedig ar ein rhagdybiaeth o ran cynnydd yn nifer y myfyrwyr).
- 13,000 o fyfyrwyr wedi'u cefnogi neu eu cynghori gan ein swyddfa Arian@BywydCampws (gan gynnwys ymholiadau gan ddarpar fyfyrwyr).
- Er mwyn gwella darpariaeth gwasanaethau, byddwn yn ymdrechu i gael adborth gan ymgeiswyr ynghylch y broses o wneud cais am ddyfarniad o’r gronfa caledi ac effaith unrhyw ddyfarniad a wneir.

**Pecynnau cymorth ar gyfer myfyrwyr ag ystyriaethau ychwanegol (buddsoddwyd £140,000 ychwanegol):**

**Pecyn Cymorth i Ymadawyr Gofal:**
- Cynllun Gostyngiad Graddau Ymadawyr Gofal.
- Bwrsariaeth o £1,000 y flwyddyn (myfyrwyr israddedig) neu £1,000 y cwrs (myfyrwyr ôl-raddedig).
- Cymorth ariannol i fynychu Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Abertawe.
- Lledaenu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael drwy waith allgymorth, gwybodaeth benodol ar y we, sgyrsiau a diwrnodau agored.

**Pecyn Cymorth i Ofalwyr** - Ystod o gymorth wedi'i dargedu ar gyfer gofalwyr, gan gynnwys bwrsariaeth a chyswllt penodol a blaenoriaeth wrth gael mynediad i Gronfa Cyfle Prifysgol Abertawe.

**Cymorth i Fyfyrwyr sydd wedi'u Dieithrio o'u Teuluoedd** - Ar gael i fyfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd ac nad oes ganddynt gymorth teuluol nac ariannol fel arfer. Bydd y Brifysgol yn:

- Eu blaenoriaethu wrth ddyfarnu cronfeydd disgresiwn/caledi.
- Lledaenu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael drwy waith allgymorth, gwybodaeth benodol ar y we, sgyrsiau a diwrnodau agored.
- Cymorth penodol i hwyluso/cynorthwyo wrth wneud cais am gyllid myfyrwyr.
- Cyswllt penodol i weithredu fel un cyswllt rhagweithiol ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd.
- Cynnal ein hymrwymiad i'r Addewid Stand Alone sy'n nodi ac yn hyrwyddo'r cymorth rydym yn ei gynnig.

- Sgyrsiau gwybodaeth i staff er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion penodol myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd a'r heriau penodol maent yn eu hwynebu.

**Go Wales** - a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Bydd y Brifysgol yn parhau i weithio fel rhan o brosiect Go Wales tan o leiaf 2021. Yn rhan o'r fenter hon, mae Go Wales yn cynnig cymorth ariannol gyda lleoliadau gwaith, gan gynnwys costau teithio, addasiadau rhesymol yn y gweithle a chostau gofal/gofal plant.

**Darperir gan:** Gwasanaethau Myfyrwyr, Arian@BywydCampws, Academi Cyflogadwyedd Abertawe

**Rhesymeg dros y ddarpariaeth:**
Pecyn Cymorth i Ymadawyr Gofal: Darparu cyswllt cyson ar gyfer darpar fyfyrwyr y tybir eu bod yn ymadawyr gofal, drwy gydol y cyfnod recriwtio a phontio a thrwy gydol eu cyfnod astudio gyda ni. Hwyluso mynediad i addysg uwch a hyrwyddo integreiddio wrth gyrraedd. Mae'r pecyn cymorth ariannol yn sicrhau bod y grŵp hwn o fyfyrwyr yn gallu ymdopi â'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â llety drwy gydol y flwyddyn. Cynorthwyo wrth ddenu a chadw'r myfyrwyr hyn.

Pecyn Cymorth i Ofalwyr: Gall mynd i'r Brifysgol fod yn her arbennig i fyfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu, oherwydd y gall fod yn anodd iddynt ymdopi â chyfrifoldebau allanol yn ogystal ag astudiaethau. Adlewyrchir hyn gan ganfyddiadau astudiaeth o fyfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu a gynhaliwyd gan NUS. Nododd y canlyniadau mai 36% yn unig o fyfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu sy'n teimlo eu bod yn gallu cydbwyso eu hymrwymiadau (megis gwaith, astudio a theulu/perthnasoedd) o'u cymharu â 53% o fyfyrwyr nad oedd ganddynt gyfrifoldebau gofalu (NUS, 2013).

Myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd: Mae myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd yn wynebu heriau penodol. Yn anaml iawn y maent yn derbyn cymorth ffurfiol yn y gymuned, ac nid ydynt yn cael eu cydnabod eto fel grŵp penodol ym mhroses ymgeisio UCAS. Hybu cyfraddau cadw drwy sicrhau bod myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd yn gallu elwa o becyn ariannu llawn oherwydd yr anawsterau ychwanegol sydd ganddynt o ran darparu tystiolaeth ar gyfer eu statws wrth wneud cais am gyllid myfyrwyr. Hybu cyfraddau cadw drwy gefnogi teuluoedd y mae eu perthynas â'u teuluoedd yn chwalu yn ystod eu cyfnod astudio gyda ni.

**Grwpiau o Fyfyrwyr:** ymadawyr gofal, gofalwyr (ac eithrio rhieni oni bai eu bod yn gofalu am blentyn/blant ag anableddau neu anghenion meddygol eraill) a myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd.

**Targedau:**
Y nod cychwynnol yw adnabod cynifer o fyfyrwyr ag ystyriaethau ychwanegol â phosib.

**Pecyn Cymorth i Ymadawyr Gofal:**
- Rydym yn disgwyl cefnogi rhwng 44-50 o ymadawyr gofal yn 2020-21 (Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y 18 myfyriwr y rhagwelir y byddant yn graddio yn 2018-19, myfyrwyr newydd a'r potensial i nifer bach o fyfyrwyr dynnu'n ôl o'u cyrsiau).
- Parhau i hyrwyddo'r meini prawf cymhwyso a chynyddu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael drwy gydol y flwyddyn er mwyn darparu cymaint o gyfle â phosib i fyfyrwyr cymwys elwa o'r cynllun.

- Darparu un cyfle ffurfiol y flwyddyn i roi adborth er mwyn rhoi cyfle i ymadawyr gofal fyfyrio a dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau.
- Darparu cymorth rhwng cyfoedion cyn dechrau ar ffurf myfyriwr llysgennad pwrpasol a fydd ar gael i ymateb ymholiadau drwy sesiynau sgwrsio ar-lein cynlluniedig.

- Llunio llyfryn gwybodaeth pwrpasol ar gyfer darpar fyfyrwyr

**Cymorth i Fyfyrwyr sydd wedi'u Dieithrio o'u Teuluoedd:**
- Yn y flwyddyn 2020-21, byddwn yn ymdrechu i gefnogi rhwng **15 a 19** o fyfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd. (Mae'r ffigur hwn yn cynnwys myfyrwyr sy'n derbyn cymorth ar hyn o bryd a fydd yn graddio ym mlwyddyn academaidd 2018-19 neu 2019-20, neu ostyngiad posib yn nifer y myfyrwyr newydd. Yn ogystal, rydym wedi ystyried y posibilrwydd y bydd rhai myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd yn ailgymodi â'u rhieni.
- Darparu un cyfle ffurfiol y flwyddyn i roi adborth, er mwyn rhoi cyfle i fyfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd fyfyrio a dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau.
- Darparu cymorth gan gyfoedion ar ffurf myfyriwr llysgennad pwrpasol a fydd ar gael i ateb ymholiadau drwy sesiynau sgwrsio ar-lein cynlluniedig.
- Datblygu llyfryn gwybodaeth pwrpasol i ddarpar fyfyrwyr.

**Cymorth i alluogi myfyrwyr i barhau a chwblhau eu rhaglenni astudio**

**Ail-fuddsoddi yn Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe**
Drwy ail-fuddsoddi £87,450 yn SAILS, bydd y Brifysgol yn gallu darparu rhagor o gymorth estynedig i fyfyrwyr â'r nod o effeithio'n gadarnhaol ar gyfraddau cadw, dilyniant a chyrhaeddiad myfyrwyr, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir. Defnyddir yr arian a ail-fuddsoddwyd i:
- Ariannu un aelod staff bob blwyddyn i dreulio cyfnod sabothol am semester yn gweithio gyda SAILS yn ei Goleg. Mae'r fenter gan SAILS, i ariannu staff i dreulio un semester bob blwyddyn ar gyfnod sabothol amser llawn, yn rhan o'n strategaeth o alluogi newid sylweddol yn y colegau academaidd â'r nod o wella cyfraddau cadw a dilyniant ym meysydd angen ar draws y sefydliad. Rhoddir blaenoriaeth i feysydd pwnc lle nodwyd angen gwella drwy brosesau adolygu ansawdd. Bydd y cyfnod sabothol yn gofyn i staff academaidd weithio'n greadigol ac yn bwrpasol gyda thimau cwrs a myfyrwyr i ddod o hyd i atebion ac arferion diwygiedig neu newydd a fydd yn gwella cynhwysiant yn sylweddol. SAILS a thîm Ansawdd Gwasanaethau Academaidd fydd yn gyfrifol am werthuso a monitro parhaus. Bydd canlyniadau'r fenter hon yn effeithio'n gadarnhaol ar yr holl fyfyrwyr, ond byddant o fudd uniongyrchol i unigolion o grwpiau a dangynrychiolir, sy'n tueddu i fod yn fwy tebygol o wneud cynnydd gwael. Caiff arfer da ei rannu ymhlith y Colegau a chydweithwyr academaidd drwy weithdai, astudiaethau achos a chymorth gan gymheiriaid.
- Darparu cyllideb ar gyfer hyfforddiant a DPP staff ym maes cynwysoldeb a chymorth academaidd a bugeiliol.

- Talu arbenigwyr addysgol o brifysgolion eraill, wedi'u hwyluso gan AdvanceHE, i weithio gyda thimau cwrs er mwyn gwreiddio cynwysoldeb yn y cwricwlwm, mewn dysgu, addysgu ac asesu (i gefnogi meysydd pwnc sy'n tanberfformio).
- Cynyddu'r gyllideb grantiau bach i ariannu arloesi; a chyllid ar gyfer cynhadledd flynyddol er mwyn osgoi gofyn i'r Colegau am arian i dalu'r costau.

**Dadansoddeg Dysgu a Monitro Presenoldeb** (ariennir gan gronfeydd craidd y Brifysgol)

Byddwn yn parhau i ddatblygu **dadansoddeg dysgu** er mwyn gwella'r data sydd ar gael am gyfranogiad myfyrwyr yn eu dysgu a'u haddysgu, ar gyfer staff a myfyrwyr. Ers mis Chwefror 2019, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i fod yn rhan o fenter Dadansoddeg Dysgu JISC Cymru, a ariennir gan CCAUC i gyflawni newid sylweddol yng ngallu'r sector addysg uwch yng Nghymru i wella cyfraddau cadw a llwyddiant myfyrwyr drwy ddefnyddio agweddau a arweinir gan ddata, yn benodol dadansoddeg dysgu.

Bydd y rhaglen waith yn cynnwys pwyslais arbennig ar wella asesu ac adborth, ac adeiladu ar lais y myfyriwr. Hwn yw'r gwasanaeth dadansoddeg dysgu cenedlaethol cyntaf yn y byd a ddatblygwyd i gyflawni nodau strategol allweddol sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach. Bydd y gwaith yn ymdrechu i gyflawni'r canlynol:

- Lleihau nifer y myfyrwyr nad ydynt yn parhau.
- Cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol ym maes ehangu mynediad.
- Mewnwelediadau i ffactorau ac ymddygiad sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwahaniaethol.
- Asesu llwyddiant ymyriadau gan y sefydliadau i gefnogi myfyrwyr.
- Nodi problemau posib yn gynnar
- Nodi a monitro gwelliannau mewn dysgu ac addysgu ar raglenni unigol.

Mae'r fenter hon yn cwmpasu Cymru gyfan, a bydd yn rhoi Cymru ar flaen y gad yn y maes hwn ymhlith cenhedloedd y DU, gan sicrhau bod myfyrwyr yng Nghymru yn derbyn y cymorth gorau posib drwy gydol eu hastudiaethau. Bydd y gymuned ymarfer yn cefnogi cydweithredu a rhannu gwersi am sut gellir defnyddio dadansoddeg dysgu i gyflawni effaith ystyrlon ar gyfer myfyrwyr, a bydd yn galluogi'r sector i gyflymu'r gyfradd fabwysiadu.

Yn gysylltiedig â chyflawni'r mentrau dadansoddeg dysgu, bydd y Brifysgol yn parhau i ddatblygu'r **system monitro presenoldeb.** Cynlluniwyd y system i hyrwyddo cymorth academaidd a bugeiliol cynhwysol drwy fesur cyfranogiad myfyrwyr mewn sesiynau dysgu gan ddefnyddio caledwedd a meddalwedd darllen cardiau myfyrwyr. Yn sgil cyflwyno'r system monitro presenoldeb yn 2017, cynhelir treial o borthol myfyrwyr a bwriedir lansio darllenwyr cerdyn ychwanegol yn 2018-19 â'r nod o'u hymgorffori'n rhan o wasanaethau craidd erbyn 2020-21.

**Mesurau eraill i gefnogi myfyrwyr yn ystod eu cyfnod astudio**

- **Mae cyfranogiad ac ymdeimlad o berthyn ymhlith myfyrwyr yn cael eu creu** “through supportive peer relations, meaningful interaction between staff and students, developing students’ capacity as successful higher education (HE) learners,

| |
|---|
| and providing an HE experience that is relevant to students' interests and future goals".[7] Byddwn yn parhau i gynyddu cyfraddau cadw myfyrwyr drwy wella trefniadau sefydlu a phontio, cefnogi colegau/ysgolion i sefydlu cynlluniau mentora cyfoedion ar gyfer myfyrwyr, gweithio gyda staff ar ddefnyddio ein **Pecyn Cymorth Dysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd** i gefnogi myfyrwyr i ddod yn ddysgwyr annibynnol, datblygu adnoddau a hyfforddiant staff ym maes mentora academaidd ymhellach, cryfhau'r Rhwydwaith Bywyd Myfyrwyr, sy'n darparu cymorth ar draws y Brifysgol, a datblygu gwaith ar fonitro cyfranogiad myfyrwyr er mwyn nodi'r rhai sydd mewn perygl o fethu yn gynnar. Y canlyniad fydd ymagwedd gynhwysol ac effeithiol at gadw a chwblhau ar gyfer yr holl fyfyrwyr, yn deillio o lefelau cynyddol o gyfranogiad, perthyn a hyder myfyrwyr.<br>• Bob blwyddyn, mae SAILS yn cynnig **grantiau bach gwerth hyd at £3,000** i alluogi staff i wella eu dysgu ac addysgu, eu hasesu a'u hadnoddau cynwysoldeb, eu harferion a'u prosesau er lles myfyrwyr. Sefydlwyd cronfa grantiau bach SAILS sy'n dyfarnu cyfanswm o £3,000 y flwyddyn er mwyn ariannu tua chwe phrosiect peilot (hyd at £500 y prosiect) â'r nod uniongyrchol o wella cyfraddau mynediad, cadw a dilyniant myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn y sefydliad, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchodedig. Er y bydd canlyniadau'r prosiectau peilot yn effeithio'n gadarnhaol ar ein holl fyfyrwyr, y rhai o grwpiau a dangynrychiolir a fydd yn elwa fwyaf. Dyma enghreifftiau o brosiectau blaenorol sydd wedi elwa o grantiau bach: Cwrs maes rhithwir - ehangu mynediad i ecosystemau; Datblygu fframwaith cymorth ar gyfer nyrsys ag anghenion dysgu mewn ymarfer clinigol; ac archwilio'r rhagdybiaethau a'r stigma a wynebir gan ymgeiswyr gwrywaidd i astudio nyrsio.<br>• **Ar gyfer myfyrwyr aeddfed rhan-amser ar raglenni Addysg Barhaus Oedolion yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, mae Swyddog Sgiliau Astudio a Chadw pwrpasol** a fydd yn cynnig cymorth drwy gyflwyno myfyrwyr i heriau eu cynllun astudio ac yn eu helpu i fynd i'r afael â nhw. Darperir hyn drwy sesiynau wyneb yn wyneb gyda myfyrwyr a hefyd drwy'r Llawlyfr STAR (Study Tips to Achieve Results). Yn ogystal, bydd aelodau'r tîm datblygu cymunedol yn gweithredu fel cydlynwyr lleoliad; bydd gan bob myfyriwr ar raglen fentor academaidd i'w gefnogi i ddatblygu ei sgiliau a'i wybodaeth academaidd a rhoi cyflwyniad iddo i ddisgwyliadau myfyrwyr a gwasanaethau cymorth ehangach. |
| **Darperir gan:** Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS), Gwasanaethau Myfyrwyr, Colegau Myfyrwyr, Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau. |
| **Rhesymeg:** Mae dysgu ac addysgu a chymorth cynhwysol i fyfyrwyr yn flaenoriaeth strategol i Brifysgol Abertawe, er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr, ar ôl gwneud yr ymrwymiad i astudio, yn gallu cwblhau ei gymhwyster yn llwyddiannus. |
| **Grŵp o Fyfyrwyr:** Pob myfyriwr, gan gynnwys myfyrwyr o deuluoedd incwm isel, myfyrwyr ag anableddau (corfforol a dysgu), myfyrwyr aeddfed. |
| **Targedau:**<br>Gweler y targedau ynghylch diffyg parhau (cadw) ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir yn Atodiad B. |

[7] L. Thomas, M. Hill, J. O/Mahony and M. Yorke (April 2017), Supporting student success: strategies for institutional change, What Works? Student Retention & Success programme, Paul Hamlyn Foundation, Higher Education Academy and Action on Access

| **Cymorth a ddarperir gan y Gwasanaeth Anabledd a Lles**<br><br>• Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Lles yn gweithio i greu a datblygu **system reoli ar-lein estynedig i sicrhau addasiadau rhesymol** mewn perthynas â chymorth academaidd sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac i sicrhau bod addasiadau'n cael eu cofnodi a'u gweithredu er mwyn cefnogi myfyrwyr a staff yn well. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r prosiect gael ei integreiddio'n rhan o lansiad CRM ehangach, fel rhan o raglen waith dreigl. Rhagwelir y bydd hon ar waith erbyn 2021.<br>• Yn sgil nodi **wats clyfar** sy'n gallu synhwyro strociau yn 2017-18 bydd y Gwasanaeth Anabledd a Lles yn parhau i brofi dichonoldeb y rhain drwy gynnal adolygiad o weithrediad y wats clyfar, gan gasglu adborth gan ddefnyddwyr a gwerthuso pa mor effeithiol mae'r cymorth wedi bod. Os yw'n llwyddiannus, byddwn yn ystyried integreiddio hyn i'r ddarpariaeth gwasanaethau craidd erbyn 2020-21.<br>• **Arweiniad estynedig ar gymorth ar gyfer anableddau** a chyflyrau eraill i ddarpar fyfyrwyr sydd wedi datgelu anabledd yn ystod diwrnodau agored. Cysylltwyd â myfyrwyr cyn eu hymweliad i'w gwahodd i apwyntiad gyda'r Gwasanaeth Anabledd/Lles yn ystod eu hymweliad. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau a gyflwynwyd gan y GDPR nid oes modd casglu'r wybodaeth hon adeg estyn gwahoddiad bellach. Serch hynny, mae'r Swyddfa Anableddau a'r Gwasanaeth Lles yn parhau i fod yn bresennol yn ystod Diwrnodau Agored y Brifysgol, gan gwrdd â theuluoedd ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Mae presenoldeb ar y ddau gampws er mwyn sicrhau gwasanaeth cyfartal, ac mae canllaw ar gyfer darpar fyfyrwyr ag anableddau ar gael, yn Gymraeg a Saesneg, ar dudalennau gwe'r Brifysgol.<br>• **Cymuned ymarfer ar gyfer staff** i rannu arfer da a chydweithio ar weithgareddau sy'n hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir. Mae'r grŵp yn parhau i gwrdd yn rheolaidd ac mae ganddo aelodaeth gynyddol i gynorthwyo staff sy'n cefnogi myfyrwyr anabl. Mae adborth ar yr holl sesiynau a gynhaliwyd wedi bod yn hynod gadarnhaol ac mae'n amlwg o gymorth i gydweithwyr yn eu holl wahanol rolau a rhinweddau.<br>• Mae penodi **Gweithiwr Achosion Anabledd** ychwanegol wedi gwella hyblygrwydd a gwasanaethau ar y ddau gampws. Rydym wedi gallu cynyddu nifer yr apwyntiadau ar Gampws y Bae er mwyn darparu gwasanaeth cyfartal ar y ddau safle, gan ganiatáu i fyfyrwyr elwa o gymorth ar y ddau gampws. Bydd gwelliannau yn y maes hwn yn parhau yn ystod 2020-21.<br>• **Cymorth estynedig ar gyfer myfyrwyr ag anableddau**, cyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau meddygol eraill, gan gynnwys adnoddau a rhwydwaith cymuned ymarfer ar gyfer staff, hyfforddiant staff a gwell arweiniad ar gyfer darpar fyfyrwyr. Mae'r maes gwaith hwn yn cynnwys Academi Cyflogadwyedd Abertawe a thîm lleoliadau gwaith y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol. |
|---|
| **Darperir gan:** Gwasanaethau Myfyrwyr, Colegau Academaidd |
| **Rhesymeg:** Mae dysgu ac addysgu a chymorth cynhwysol i fyfyrwyr yn flaenoriaeth strategol i Brifysgol Abertawe er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr, wedi gwneud yr ymrwymiad i astudio, yn gallu cwblhau ei gymhwyster yn llwyddiannus. |
| **Grŵp o Fyfyrwyr:** Pob myfyriwr, gan gynnwys myfyrwyr o deuluoedd incwm isel, myfyrwyr ag anableddau (corfforol a dysgu), myfyrwyr aeddfed. |
| **Targedau:** |

Gweler y targedau o ran diffyg parhau (cadw) mewn perthynas â myfyrwyr anabl yn Atodiad B.

**Cymorth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles - mentrau a gweithgareddau sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles myfyrwyr**

Gan ystyried y cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr y mae angen cymorth iechyd meddwl arnynt yn y blynyddoedd diweddar, bydd y Gwasanaeth Lles yn cynnal y mentrau a'r gweithgareddau canlynol i gefnogi iechyd meddwl a lles myfyrwyr yn 2020-21.

**Cyngor, Arweiniad a Chymorth Iechyd Meddwl -** Mae'r Gwasanaeth Lles yn parhau i gynnig asesiadau, cyngor, cymorth ac ymyriadau i gynorthwyo myfyrwyr i reoli eu lles meddwl. Er mwyn ymdopi â galw cynyddol, mae'r Gwasanaeth Lles wedi recriwtio gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol ychwanegol i sicrhau y gallwn barhau i ddiwallu anghenion myfyrwyr.

**Hunangymorth Therapi Ymddygiad Gwybyddol (CBT) Silvercloud Ar-lein** - Silvercloud yw enw adnodd hunangymorth ar-lein sydd ar gael ym Mhrifysgol Abertawe a'i nod yw gwella iechyd meddwl myfyrwyr. Wedi'i gyfeirio gan arbenigedd ac ymchwil clinigol, mae Silvercloud yn rhoi cyfle i fyfyrwyr weithio'n gyfrinachol drwy amrywiaeth o fodiwlau, yn eu hamser eu hunain. Gellir teilwra hyn yn ôl yr heriau mae'r unigolyn yn eu hwynebu a'i nodau.

**Cwrs Rheoli Straen -** Mae'r rhaglen Rheoli Straen yn gwrs chwe wythnos a gynhelir gan Wasanaeth Lles y Brifysgol. Mae'n addysgu technegau Therapi Ymddygiad Gwybyddol (CBT) i'r cyfranogwyr i helpu i leihau straen a'r nod cyffredinol yw gwella strategaethau ymdopi er mwyn cefnogi a hybu lles yr unigolyn.

**Gwasanaeth Cyflyrau'r Sbectrwm Awtistig -** Mae'r gwasanaeth, sy'n cefnogi myfyrwyr â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig neu syndrom Asperger, wedi gweld cynnydd blynyddol yn nifer y myfyrwyr sy'n ei ddefnyddio ers 2016. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnig pecyn ymgynefino i baratoi myfyrwyr ar gyfer bywyd yn y Brifysgol. Mae'r rhaglen ymgynefino hefyd yn cynnwys opsiwn preswyl i fyfyrwyr â chyflwr ar y sbectrwm awtistig neu syndrom Asperger.

**Rhaglen Adfer SMART -** Mae Prifysgol Abertawe'n ddarparwr y rhaglen adfer SMART, sy'n cynnig cymorth a chyngor anffurfiol i fyfyrwyr sy'n ceisio cymorth gyda phroblemau gyda chyffuriau/alcohol. Mae'r ymagwedd SMART yn secwlar ac yn seiliedig ar wyddoniaeth; mae'n defnyddio dulliau cymhellol, ymddygiadol a gwybyddol a bydd yn parhau i gael ei chynnal yn ystod 2020-21.

**Rhaglen Hyrwyddwyr Lles -** Mae'r gwasanaeth wedi lansio Cynllun Hyrwyddwyr Lles, sy'n cael ei gydlynu gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ac yn defnyddio myfyrwyr gwirfoddol i hyrwyddo lles myfyrwyr i staff a myfyrwyr.

**Therapi Drama mewn Grŵp -** Drwy therapydd drama'r Gwasanaeth, mae nifer o grwpiau therapi drama wedi cael eu cynnal gyda myfyrwyr sydd ag amrywiaeth o anawsterau iechyd

meddwl, gan gynnwys gorbryder a gorbryder cymdeithasol. Y bwriad yw rhoi cyfle i fyfyrwyr feithrin y sgiliau i ddeall a rheoli eu anawsterau eu hunain.

**EMDR (Eye Movement Desensitisation Reprocessing Therapy)** - Drwy arbenigwr EMDR y Gwasanaeth Lles, mae'r Gwasanaeth yn cynnig y therapi hwn i fyfyrwyr sydd ag amrywiaeth o anawsterau iechyd meddwl. Dyluniwyd y therapi hwn i ymdrin ag anhwylder straen wedi trawma'n bennaf, ond mae hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn sesiynau un i un gyda myfyrwyr i drin gorbryder, panig, iselder ysbryd, straen, ffobia, galar a chaethiwed i sylweddau sy'n effeithio ar berfformiad academaidd.

**Cwnsela** - Mae'r Brifysgol wedi ailgyflwyno'r gwasanaeth cwnsela mewnol, ac mae'n cynnig cwnsela ar y campws i fyfyrwyr. Yn seiliedig ar alw diweddar, mae'r Brifysgol wedi dyblu'r amser cwnsela sydd ar gael.

**Cymorth i Ddioddefwyr Trais Rhywiol -** Bellach mae gan y Gwasanaeth Lles ymarferydd IDSVA (Gwasanaeth Eirioli Annibynnol ar gyfer Trais Domestig a Rhywiol) cymwysedig sy'n gallu darparu cymorth arbenigol i ddioddefwyr trais a chamdriniaeth rhywiol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn datblygu grŵp cymorth ar gyfer goroeswyr ymosodiad rhywiol y disgwylir iddo gael ei lansio yn 2019. Mae'r Gwasanaeth Lles hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer myfyrwyr sy'n rhoi gwybod am ymosodiad rhywiol, a'r adnoddau sydd ar gael i'r grŵp hwn.

**Cymorth Profedigaeth** - Mae'r Gwasanaeth Lles wrthi'n datblygu grŵp cefnogi ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cael profedigaeth. Mae'r fenter hon yn cael ei datblygu gyda chydweithwyr o Wasanaethau Myfyrwyr (y Gaplaniaeth).

**Atal Hunanladdiad** - Mae'r Gwasanaeth Lles yn rhan o arwain hyfforddiant atal hunanladdiad ar gyfer myfyrwyr a staff yn y Brifysgol.

**Cydweithio mewn Colegau** - Mae gwaith wedi dechrau, ar ddechrau blwyddyn academaidd 2018-19, gyda'r Coleg Peirianneg i ddarparu cyngor, arweiniad, asesiad a chymorth estynedig a mwy cydgysylltiedig i fyfyrwyr yn y Coleg. Ar ôl i'r ymagwedd hon gael ei gwerthuso, gellir ei rhoi ar waith yn y colegau eraill, yn amodol ar gyllid a chydweithrediad gan y Colegau.

**Therapi Cryno sy'n Canolbwyntio ar Atebion** - Mewn ymateb i alw cynyddol, mae ymarferwyr lles, cwnselwyr a mentoriaid wedi cwblhau hyfforddiant therapi cryno sy'n canolbwyntio ar atebion i'w galluogi i gynnig y driniaeth therapiwtig hon i fyfyrwyr.

---

**Darperir gan:** Gwasanaeth Cymorth Cynhwysol i Fyfyrwyr

---

**Rhesymeg:** Gan ystyried y cynnydd sylweddol mewn myfyrwyr y mae angen cymorth iechyd meddwl arnynt dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r Gwasanaeth Lles yn mabwysiadu ymagwedd fwy rhagweithiol ac ataliol at gefnogi myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys mentrau cydweithredol er mwyn helpu myfyrwyr i ddatblygu gwytnwch a strategaethau ymdopi, ochr yn ochr â'r cymorth un i un sy'n cael ei gynnig.

| |
|---|
| **Grŵp o Fyfyrwyr:** Pob myfyriwr, ond yn berthnasol yn enwedig i'r rhai sydd wedi datgelu nodweddion ynghylch cyflwr iechyd/anabledd cyn cyrraedd y Brifysgol, neu sydd wedi cael problemau iechyd meddwl yn ystod eu hamser yn Abertawe. |
| **Targedau:**<br>• Cynnig rhaglen dreigl o Reoli Straen drwy gydol y flwyddyn academaidd a pharhau i'w gwreiddio yng nghwricwlwm 2019-20: 8 cwrs o 6 sesiwn i'w cyflwyno drwy gydol blwyddyn academaidd 2020-21 (2 ar bob campws ym mhob bloc addysgu).<br>• Parhau i hyrwyddo'r deunydd hunangymorth (Silvercloud) ar-lein i fyfyrwyr priodol i'w helpu i reoli materion sy'n gysylltiedig ag iselder ysbryd, gorbryder, straen, panig a delwedd corff: bwriedir llunio adroddiad gwerthuso ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2020-21 i ddangos cynnydd yn y defnydd o'r adnodd hunangymorth a'r effaith gadarnhaol mae hyn wedi'i chael ar reoli iechyd meddwl myfyrwyr a'r galwadau ar y Gwasanaeth Lles gan fyfyrwyr.<br>• Bydd hyfforddiant atal hunanladdiad yn cael ei ddarparu i ragor o staff a myfyrwyr, mewn cydweithrediad â chydweithwyr ar draws y Brifysgol ac yn Undeb y Myfyrwyr. Bydd staff Lles yn cynnal o leiaf ddau gwrs atal hunanladdiad yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21. Bydd Undeb y Myfyrwyr (h.y. Arweinydd y prosiect hwn) yn gwerthuso darpariaeth ac effaith y rhaglen hon er mwyn cyfeirio darpariaeth yn 2021-22.<br>• Cynyddu ansawdd ac amrywiaeth y triniaethau therapiwtig sy'n cael eu cynnig gan y Gwasanaeth Lles i fyfyrwyr, gan fabwysiadu model ataliol a rhagweithiol ar gyfer rheoli iechyd meddwl myfyrwyr: cyflwyno a chyflawni ymyriadau grŵp ym mlwyddyn academaidd 2020-21 i gynnwys (ymhlith eraill) grŵp cymorth profedigaeth, goroeswyr ymosodiad rhywiol, grŵp ymwybyddiaeth ofalgar, hyfforddiant atal hunanladdiad, hyfforddiant gwytnwch a chymorth gan fyfyrwyr i fyfyrwyr.<br>• Parhau a chynyddu'r therapi cryno sy'n canolbwyntio ar atebion a ddarperir gan staff Lles i fyfyrwyr er mwyn cynyddu hunanymwybyddiaeth, datblygu gwytnwch a gwella eu gallu i ffynnu yn yr amgylchedd academaidd. Bwriedir llunio adroddiad ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2020-21 i ddangos y cynnydd mewn darpariaeth ac effaith gadarnhaol y driniaeth therapiwtig hon er mwyn cyfeirio gweithrediadau ac ymarfer y dyfodol.<br>• Cynyddu ansawdd ac amrywiaeth y grwpiau therapi a chymorth er mwyn mynd i'r afael mewn modd rhagweithiol ac effeithiol â'r angen am gymorth iechyd meddwl gan y myfyrwyr.<br>• Hyrwyddo gwytnwch a lles mewn modd rhagweithiol, drwy Brosiect yr Hyrwyddwyr Lles er mwyn cynyddu dealltwriaeth myfyrwyr a staff o iechyd meddwl a'u hymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael. Cyflawnir hyn drwy drefnu digwyddiadau, hyfforddiant a gweithgareddau. Caiff adroddiad gwerthuso ei lunio ar ddiwedd y flwyddyn academaidd i ddangos amrywiaeth y gweithgareddau a wnaed a'u heffaith ar gynyddu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, cyfeirio at wasanaethau a rheoli. |

**CC 4 - Dilyniant: Darparu gwasanaethau cymorth academaidd a bugeiliol cynhwysol, o safon uchel, sy'n cefnogi mwy o fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i wneud cynnydd yn eu hastudiaethau addysg uwch**

**Cymorth academaidd yn Gymraeg drwy'r Rhaglen Llwyddiant Academaidd a Thystysgrif Iaith Gymraeg y Coleg Cymraeg**

**Rhaglen Llwyddiant Academaidd Gymraeg**

Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaeth cymorth hwn wedi bod yn siomedig o isel. Mae'n cael ei farchnata'n drwm gan AHT a'r Ganolfan Llwyddiant Academaidd, ac mae darlithwyr yn ei hyrwyddo ac yn annog myfyrwyr i fanteisio arno. Fodd bynnag, nid yw'n llwyddo i ddenu diddordeb myfyrwyr. Yn 2019-20, byddwn yn adolygu'r gwasanaeth ac yn nodi ffyrdd newydd o annog myfyrwyr i adnabod gwendidau yn eu sgiliau academaidd ac i weithredu er mwyn gwella eu gwaith a'u cyflawniadau academaidd. Bydd cynnydd y rhaglen hon yn 2020-21 yn dibynnu ar lwyddiant y newidiadau a wneir yn 2019-20. Pan benodir Swyddog Materion Cymraeg newydd i Undeb y Myfyrwyr, bydd AHT yn gofyn am gymorth y swyddog hwnnw i fynd i'r afael â'r maes gwaith hwn a'i dargedau.

**Darperir gan:** Academi Hywel Teifi a'r Ganolfan Llwyddiant Academaidd

**Rhesymeg:** Annog myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg i fanteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, er mwyn gwella eu potensial i lwyddo yn eu hastudiaethau a'u cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol. Ymrwymiad i ddarparu profiad a chymorth cyfartal i fyfyrwyr ym mha iaith bynnag maent yn astudio. Ymrwymiad i wella profiad myfyrwyr yn Abertawe a chyfrannu at gyflawni targedau'r Brifysgol o ran y niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Grŵp o Fyfyrwyr:** Myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg

**Targedau:**

- Cynnydd yn y **niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg:**
  - 5+ credyd (o 356 yn 2017-18 i 400 yn 2019-20 a 500 yn 2020-21 a chynnydd blynyddol o 5% wedi hynny).
  - 40+ credyd (o 182 yn 2017-18 i 200 yn 2020-21 a chynnydd blynyddol o 5% wedi hynny).

**Tystysgrif Iaith Gymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

- Parhau i weithio tuag at gynyddu niferoedd y myfyrwyr sy'n cyfranogi. Targedu 50 yn 2019-20, 55 yn 2020-21.
- Cynnal cyfradd llwyddiant myfyrwyr dros 90% gyda 60% yn ennill Rhagoriaeth.
- Cynnydd o ran cyflawniad gradd myfyrwyr Cymraeg eu hiaith.

**Cefnogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau astudio academaidd a dod yn ddysgwyr annibynnol**

- **Prosiect Datblygu Sgiliau Academaidd Gwreiddiedig**
  Prosiect ar draws y sefydliad i gefnogi staff academaidd i wreiddio datblygu sgiliau academaidd yn eu rhaglenni astudio.
- **Cwrs Pontio Ehangu Cyfranogiad**
  Rhaglen cynefino a sgiliau academaidd tri diwrnod ar gyfer myfyrwyr y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer y rhaglen Ehangu Cyfranogiad; i'w chynnal yn yr wythnos cyn Wythnos y Glas, i'w dilyn gan gyfres o weithdai datblygu dysgwyr ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn academaidd. Denwyd 23 o'r myfyrwyr a wahoddwyd i gymryd rhan yn y rhaglen beilot yn 2018, gan gynnwys ymadawyr gofal neu fyfyrwyr

a oedd yn byw yn ardaloedd côd post POLAR 1 a 2 ac o fewn 30 milltir i Abertawe. Cynhelir y rhaglen hon eto yn 2019 a chaiff ei datblygu ymhellach ar gyfer 2020-21.

- **Sgiliau ar gyfer Dysgu, Sgiliau am Oes**
  Tri chwrs ar-lein i gynorthwyo myfyrwyr wrth bontio i addysg uwch - ar gael ar-lein i'r holl fyfyrwyr. Wedi'u gwreiddio mewn rhaglenni sgiliau mewn rhai colegau. Mae cwrs un, sy'n cyflwyno myfyrwyr i fyd addysg uwch, wedi cael ei gyfieithu i'r Gymraeg. Caiff cwrs un ei gynnig i fyfyrwyr â lleoedd wedi'u cadarnhau tua phythefnos cyn iddynt ddechrau yn y Brifysgol er mwyn hwyluso'r broses bontio. Bydd hyn yn barod i'w gyflwyno yn 2020-21.
- **Gweithdai grwpiau bach ar gyfer myfyrwyr â gwahaniaethau dysgu penodol.**
  Cynhaliwyd gweithdai ar sail arbrofol yn ystod tymor 3 blwyddyn academaidd 2017-18. Parhaodd y rhaglen yn 2018-19, mae'n cael ei gwerthuso ar hyn o bryd a bwriedir parhau i'w chyflwyno yn 2019-20. Y bwriad ar gyfer 2020-21 yw ehangu'r ddarpariaeth i greu cyfres o weithdai wedi'u sgaffaldio er mwyn cynnig cymorth datblygiadol i fyfyrwyr ag anghenion dysgu a nodwyd.
- **Gweithdai Mathemateg ac Ystadegau**
  Datblygwyd gweithdai ar sail yr ymholiadau mwyaf cyffredin sy'n cael eu gofyn i'r gwasanaeth galw heibio. Cafodd rhaglenni peilot eu cynnal a’u gwerthuso. Bwriedir datblygu ac ehangu'r gweithdai ar gyfer 2019-20 â'r nod o ddarparu cymorth pwrpasol, wedi'i wreiddio yn y colegau academaidd ar gyfer 2020-21.

**Darperir gan:** Y Ganolfan Llwyddiant Academaidd

**Rhesymeg:**

1. Mae gweithio i wreiddio datblygiad dysgu ar draws rhaglenni astudio yn sicrhau bod datblygu'n digwydd ar adeg briodol ac mewn modd cynhwysol, gan ddiwallu anghenion dysgu gwahanol. Yn ogystal, mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr o grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau a dangynrychiolir gymryd rhan yn weithredol mewn dysgu, gan gynnal cyfraddau cadw a dilyniant.
2. Helpu myfyrwyr ehangu cyfranogiad i wneud dechrau da wrth feithrin sgiliau hanfodol ar gyfer addysg uwch a chreu rhwydwaith cymorth o staff a chyfoedion yn gynnar yn eu taith drwy'r brifysgol. Rhoi gwybod iddynt am yr holl wasanaethau cymorth sydd ar gael.
3. Cynorthwyo myfyrwyr o bob cefndir i ymgynefino â'u profiad academaidd newydd wrth iddynt ddechrau yn y brifysgol. Mae'r cyrsiau'n rhyngweithiol ac maent yn darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch i gefnogi cynwysoldeb.
4. Mae cynnig gweithdai ar gyfer grwpiau bach, ochr yn ochr ag addysgu arbenigol a ariennir drwy'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, yn helpu i leihau teimladau o arwahanrwydd ymhlith myfyrwyr ag anghenion dysgu, gan atgyfnerthu technegau dysgu mewn modd blaengar.
5. Mae gwerthuso sesiynau mathemateg ac ystadegau un i un yn dangos patrwm o ymholiadau cyffredin; ychwanegwyd gweithdai i ymdrin â'r rhain. Bydd hyn yn helpu myfyrwyr i fagu hyder yn eu sgiliau mathemateg gan gefnogi cyfraddau dilyniant a chadw. Bydd cymorth wedi'i wreiddio yn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phersonoli'n fwy i ddisgyblaethau penodol myfyrwyr.

**Grŵp o Fyfyrwyr:** Ar gael i bob myfyriwr, ond mae ymyriadau o'r fath yn arbennig o berthnasol i grwpiau a dangynrychiolir, e.e. myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr o gefndiroedd cyfranogiad isel, myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Targedau:**

- Dogfen cyngor ac arweiniad a phecyn cymorth ar-lein ar gyfer staff. Sgiliau academaidd wedi'u gwreiddio ar Gam 4 y fframwaith prosiect mewn tair rhaglen erbyn 2020-21.
- Adborth yn dangos bod 75% o fyfyrwyr yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n well ar gyfer addysg uwch a'u bod wedi'u cefnogi drwy eu taith ddysgu.
- Mae Cwrs 1 (Cyflwyniad i'r Brifysgol) ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i fyfyrwyr ei gwblhau yn yr wythnosau cyn iddynt ddechrau yn y brifysgol. Mae Cwrs 2 (Sgiliau Astudio) a Chwrs 3 (Uniondeb Academaidd) ar gael ar-lein i fyfyrwyr presennol ac maent wedi'u gwreiddio mewn pum coleg academaidd. Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cyrchu'r cyrsiau ar-lein i 5,000.
- Tri gweithdy wedi'u sgaffaldio bob tymor. 80% o adborth myfyrwyr yn gadarnhaol. Cynnal gwerthusiad.
- Chwe gweithdy Mathemateg/Ystadegau bob tymor. 75% o gyfranogwyr yn sylwi ar welliant yn eu hyder. Gweithdy wedi'i wreiddio mewn un rhaglen academaidd.

**Gweithgareddau i sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn y cymorth academaidd a bugeiliol i symud o lefel i lefel.**

- Mae dilyniant myfyrwyr yn amrywio rhwng disgyblaethau ac o fewn disgyblaethau ac mae nifer o ffactorau'n effeithio arno, gan gynnwys cwricwla, diwylliannau ac arferion ar lefel pwnc, yn ogystal â nodweddion myfyrwyr.[8] Mae parodrwydd academaidd i astudio yn ffocws allweddol, ynghyd â chymhelliant, ehangder amrywiaeth staff a myfyrwyr, y berthynas addysgegol rhwng staff addysgu a myfyrwyr a rôl y gymuned o fyfyrwyr.
- Er mwyn ymateb i gyd-destunau pwnc, mae SAILS yn datblygu adnoddau megis y pecyn cymorth Dysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd ar gyfer y Brifysgol gyfan, ond mae hefyd yn gweithio gyda thimau cyrsiau penodol i wreiddio'r dysgu a'r ymagwedd.
- Ymdrinnir â pharodrwydd academaidd drwy raglenni sefydlu a phontio estynedig sy'n esbonio disgwyliadau academaidd yn glir, a thrwy ein prosiect tymor hir i wreiddio sgiliau astudio academaidd allweddol mewn rhaglenni astudio, gan gynnal ein Canolfan Llwyddiant Academaidd.
- Cefnogir cymhelliant i astudio drwy fentora academaidd, Academi Cyflogadwyedd Abertawe a gwaith parhaus ym maes dysgu gan gymheiriaid.
- Mae adeiladu cymuned o fyfyrwyr yn gofyn am amrywiaeth o ddarpariaeth, gan gynnwys cymdeithasau sy'n canolbwyntio ar bynciau, cymdeithasau a chwaraeon Undeb y Myfyrwyr, mentora cymheiriaid, lleoedd astudio a rhyngweithiadau ystyrlon rhwng myfyrwyr a rhwng myfyrwyr a staff.
- Bydd effeithiolrwydd mentora academaidd a chymorth estynedig ar gyfer llesiant drwy Rwydwaith Bywyd Myfyrwyr y Brifysgol gyfan, a sefydlwyd yn 2017-18, yn parhau i gael ei werthuso a chyflwynir gwelliannau yn ôl yr angen.
- **Bydd gwasanaeth pwrpasol, Llesiant@BywydCampws** (sydd y tu allan i'n gwasanaethau Lles, Anabledd ac Arian presennol) yn gyfrifol am hyfforddiant a safoni darpariaeth gwasanaethau llesiant ar draws y Brifysgol. Mae'r gwasanaeth

[8] R Woodfield and J O'Mahoney, (2016) Undergraduate student retention and attainment, HEA

| |
|---|
| hwn hefyd yn cynnwys cynnydd yn ein gallu i ddarparu gwasanaeth 'y tu allan i oriau'/ymateb brys. Gall hyn fod yn hynod effeithiol o ran cefnogi myfyrwyr nad oes ganddynt gymorth sefydlog neu effeithiol gan eu teuluoedd na mathau eraill o gymorth allanol.<br>• **Ar gyfer oedolion sy'n dysgu'n rhan-amser drwy Addysg Barhaus Oedolion, mae Swyddog Sgiliau Astudio a Chadw penodol**, a bydd aelodau o'r tîm datblygu cymunedol yn gweithredu fel cydlynwyr lleoliad a thiwtoriaid personol ar gyfer rhaglenni a gynhelir yn y gymuned ac ar y campysau. Bydd cymorth ar gyfer sgiliau astudio ac ysgrifennu academaidd yn cael ei ddarparu hefyd i fyfyrwyr aeddfed rhan-amser, ar sail un i un neu mewn grwpiau. |
| **Darperir gan:** Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS), Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau, Gwasanaethau Myfyrwyr, Gwasanaethau Academaidd ac Ansawdd a Choleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau. |
| **Rhesymeg:** Mae myfyrwyr â rhai nodweddion ac amgylchiadau'n gwneud cynnydd gwaeth na gweddill y garfan. Mae angen dealltwriaeth well o'r patrymau a'r nodweddion/amgylchiadau arwyddocaol ym mhoblogaeth amrywiol myfyrwyr Abertawe. Bydd y ddealltwriaeth well hon yn ein galluogi i weithredu er mwyn lliniaru'r gwahaniaethau mewn dilyniant er mwyn i'n holl fyfyrwyr elwa o gyfle cyfartal a darpariaeth gynhwysol. |
| **Grŵp o Fyfyrwyr:** Pob myfyriwr ond â phwyslais penodol ar gyrhaeddiad unigolion Du/Asiaidd/Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a gwrywod gwyn dosbarth gweithiol. |

## CC 5 - Canlyniadau: **Cefnogi mwy o fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i gyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn addysg uwch sy'n arwain at gyflogaeth neu astudiaethau pellach.**

| |
|---|
| Mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau sy'n cefnogi myfyrwyr i **symud ymlaen i gyflogaeth ac astudiaethau pellach**, yn enwedig Academi Cyflogadwyedd Abertawe a thîm Ewch yn Fyd-eang. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol wedi targedu grwpiau a dangynrychiolir yn benodol i dderbyn cymorth drwy'r mentrau canlynol:<br><br>• **Hyrwyddo Lleoliadau Gwaith Rhyngwladol -** creu cyfleoedd rhyngwladol drwy SPIN (Interniaethau â Thâl Abertawe). Mae'r cynllun hwn, a reolir gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe a'r Swyddfa Datblygu Rhyngwladol, yn cynnig taliad ychwanegol, gwerth £500, at y fwrsariaeth symudedd i **fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel.**<br>• Bydd **Ymadawyr Gofal** yn cael cynnig £500-£1,000 ar hyd eu cwrs astudio pellach (e.e. Cwrs Meistr Amser Llawn neu Ran-amser, gan gynnwys PhD).<br>• Mae **Academi Cyflogadwyedd Abertawe** yn cydlynu adnodd cyflogadwyedd cynhwysfawr, a ddarperir yn ganolog ac yn y Colegau, sy'n grymuso myfyrwyr i gyflawni canlyniadau da wrth raddio. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth barhaus rhaglen *Go Wales: Achieve through Work Experience* tan ddiwedd 2021. Nod y rhaglen hon yw darparu cymorth yn benodol i fyfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i gyflogaeth ar lefel raddedig, drwy ddarparu ymyriadau pwrpasol. Mae hyn yn ychwanegol at waith ACA sy'n canolbwyntio ar gefnogi 'canlyniadau cadarnhaol i bawb' gan ystyried y FfRhA. |

- Datblygu Gwobr Cyflogadwyedd Abertawe a deilliannau dysgu cyflogadwyedd, ar y cyd â strategaeth Mentergarwch Myfyrwyr newydd, a fydd i gyd yn llywio'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu ddiwygiedig i gyrraedd myfyrwyr yn well drwy'r cwricwlwm, gan leihau'r rhwystrau i fynediad sy'n deillio o ddiffyg amser/ymrwymiadau eraill.
- Bydd **Ymadawyr Gofal a Myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd** yn parhau i gael blaenoriaeth o ran mynediad i gyngor ar yrfaoedd/astudiaethau pellach ar ffurf cyflwyniad a chyfarfod wedi'i drefnu, os oes angen.
- Ar gyfer darpar **fyfyrwyr aeddfed rhan-amser** sy'n parhau â'u haddysg drwy Addysg Barhaus Oedolion, mae gweithiwr arweiniad yn cynnig cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd ac astudiaethau pellach, naill ai ar y campws neu yn y gymuned.
    - Caiff y myfyrwyr hyn eu hannog hefyd i gymryd rhan mewn Gweithdai Cyflogadwyedd sy'n ymdrin ag amrywiaeth o themâu, megis ysgrifennu CV, llwybrau gyrfa i raddedigion, nodi sgiliau trosglwyddadwy, gwerthu sgiliau i gyflogwyr graddedigion, opsiynau astudio ôl-raddedig, Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Abertawe, cymdeithasau a chlybiau, cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith. Cynhelir y sesiynau hyn bob blwyddyn yn Llyfrgell Glowyr De Cymru ac mewn lleoliadau cymunedol.
    - Datblygu Modiwl Busnes ac Entrepreneuriaeth i'w ddarparu i fyfyrwyr addysg barhaus rhan-amser yn 2018-19. Bydd hyn yn datblygu thema gref o gyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth ym mhob blwyddyn astudio ar gyfer y radd ran-amser, gan gefnogi datblygiad meddylfryd hyblyg a gwydn ymhlith graddedigion ar gyfer 2019-20.
    - Modiwlau DPP achrededig, ar y cyd â'r Adran Addysg Barhaus Oedolion a Choleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, ar gyfer yr holl fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig mewn Iaith, TG a Chwnsela.

- Mae'r **Swyddfa Anableddau** wedi datblygu nifer o fentrau i gefnogi myfyrwyr anabl:
    - Mae'r swyddfa wedi llunio taflen arweiniad ynghylch datgelu anabledd i ddarpar gyflogwyr a sut gall myfyrwyr ymdrin â hyn.
    - Sefydlwyd grŵp ar draws y Brifysgol i wella'r cymorth presennol ar gyfer dysgwyr ag anableddau sydd am ymgymryd â lleoliad gwaith neu astudio/weithio dramor. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynllun peilot gyda'r Ysgol Reolaeth er mwyn cynnwys gwybodaeth yn y Llawlyfr Lleoliadau Gwaith i Israddedigion am gefnogi myfyrwyr wrth iddynt ymgymryd â lleoliad gwaith, gan eu hysbysu am yr addasiadau y gellir eu gwneud a manteision datgelu.

- Ar gyfer **Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg**, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod lleoliadau gwaith sy'n benodol i'w graddau'n cael eu darparu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, yn enwedig i'r myfyrwyr hynny sy'n astudio ar gyrsiau meddygaeth a gofal iechyd. Byddwn yn parhau i gynyddu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd sydd wedi'u hachredu gan ddiwydiant/sector, e.e. nyrsio, bydwreigiaeth, meddygaeth, y gyfraith, y cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus. Asesu'r posibilrwydd o gynnig darpariaeth DPP yn Gymraeg ar draws pynciau amrywiol a chynnig darpariaeth addysg oedolion cyfrwng Cymraeg wedi'i hachredu.

| |
|---|
| **Darperir gan:** ACA, Academi Hywel Teifi, y Swyddfa Anableddau, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau a Gwasanaethau Myfyrwyr. |
| **Rhesymeg:** Er bod y Brifysgol yn darparu gweithgareddau cynhwysol ym maes gyrfaoedd a chyflogadwyedd i'r holl fyfyrwyr, gall rhai grwpiau a dangynrychiolir wynebu rhwystrau ychwanegol i symud i gyflogaeth neu astudiaethau pellach. Mae'r mentrau uchod yn ymdrechu i leihau'r rhwystrau hyn gan gynnig cyfleoedd datblygu i wella opsiynau'r unigolyn yn y dyfodol. |
| **Grwpiau o Fyfyrwyr:** Teuluoedd incwm isel, ymadawyr gofal, myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd, myfyrwyr aeddfed rhan-amser, myfyrwyr anabl, myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg. |
| **Targedau:**<br>Graddedigion 2017-18 (adroddir ar hyn yn 2020 o dan Ganlyniadau Graddedigion)<br>• Cyflogaeth ac Astudio Pellach = 97%<br>• Cyflogaeth ar Lefel Raddedig = 85.5%<br><br>**Profiad Gwaith Cyfrwng Cymraeg** - Parhau i gefnogi datblygiad profiad gwaith/interniaethau/cyfleoedd blwyddyn mewn diwydiant cyfrwng Cymraeg.<br><br>**Darpariaeth Gymraeg ar raddau galwedigaethol** - Parhau i gynnig o leiaf 40 o gredydau'r flwyddyn ar bob cynllun. |

## CC 6 - Cydraddoldeb: **Hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da ymhlith y grwpiau amrywiol o staff a myfyrwyr yn y Brifysgol a'r gymuned ehangach.**

Yn unol â'n hymrwymiadau strategol a'r amcanion corfforaethol a nodwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol (2016-20), mae'r gweithgareddau canlynol yn yr arfaeth ar gyfer 2020-21:

**Hil:**

- Mis Hanes Pobl Dduon yn ystod mis Hydref - cynyddu ymwybyddiaeth, gan gynnwys staff, myfyrwyr ac aelodau'r gymuned, gan ystyried yr heriau allweddol mae'r sefydliad yn eu hwynebu ym maes cydraddoldeb hiliol.
- Sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth i nodi Diwrnod Rhyngwladol Dileu Gwahaniaethu Hiliol yn ystod mis Mawrth.

**Crefydd:**

- Digwyddiadau Coffáu'r Holocost ym mis Ionawr - cofio a helpu i sicrhau nad yw erchyllterau'r gorffennol yn cael eu hailadrodd.
- Ramadan - mae'r brifysgol yn cefnogi staff a myfyrwyr yn ystod Ramadan drwy ddarparu cyfleusterau drwy gomisiynu pebyll arbennig.
- Eid – Cydlynir gweithgarwch gan bwyllgor rheoli'r Mosg, i ddathlu diwrnod olaf gŵyl addoli Dhul Hijjah.

- Y Darlun Mwy - Pwyslais ar grefydd, ffydd, diwylliant a chymuned yn ystod mis Chwefror/Mawrth

**Rhyw:**

- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod - Dathliadau yn ystod mis Mawrth, gan gynnwys digwyddiadau wedi'u trefnu gan y Brifysgol a'i cholegau. Mae'r rhain yn cynnwys y gyfres Menywod sy'n Ysbrydoli, sy'n proffilio menywod â nifer o nodweddion gwarchodedig ar wefan y Brifysgol yn ystod mis Mawrth.
- Diwrnod Ada Lovelace - mis Hydref, diwrnod i rannu syniadau am yr agenda cydraddoldeb a thrafod sut gellir cynyddu nifer y menywod mewn swyddi uwch yn y Brifysgol.
- Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig iawn i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau ym mhob un o'n saith Coleg. Mae'r Brifysgol wedi ennill Gwobr Arian Athena Swan fel sefydliad ac mae'r Ysgol Feddygaeth a Choleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd wedi ennill gwobrau Arian Athena Swan. Yn ogystal, mae gan y Coleg Peirianneg ac Adran y Biowyddorau wobrau efydd ar hyn o bryd ac mae'r adran Ffiseg wedi llwyddo yn ei hymgais i ennill gwobr JUNO. Mae nifer o golegau ac adrannau'n gweithio i ennill gwobrau pellach erbyn 2020-21. Sylwer, nid yw'r gwobrau hyn yn cael eu hariannu gan fuddsoddiad a nodir yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

**LGBT+:**

- Balchder Cymru - mae gan y Brifysgol stondin bob mis Awst.
- Bi-Fest Cymru - cynrychiolaeth i gefnogi'r gwaith o godi ymwybyddiaeth.
- Mis Hanes LGBT, gan gynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau mewnol - mis Chwefror.
- IDAHOBIT (Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Trawsffobia a Biffobia) - digwyddiad cefnogaeth i staff a myfyrwyr LGBT+ ym mis Mai.
- Diwrnod Dathlu Deurywioldeb - a gynhelir gan y Rhwydwaith Staff LGBT+ yn ystod mis Medi i groesawu blwyddyn academaidd newydd.
- Swansea Sparkle - Stondin yn y digwyddiad Trawsryweddol mwyaf yng Nghymru, bob mis Tachwedd.

**Anabledd:**

- Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhai sy'n wynebu rhagfarn oherwydd eu hunaniaeth, e.e. anabledd, hunaniaeth rhywedd, hil, ethnigrwydd, crefydd/ffydd/cred neu gyfeiriadedd rhywiol. Cynhelir hyn ar y cyd ag Undeb Myfyrwyr Abertawe ym mis Hydref bob blwyddyn.

**Darlith Flynyddol ar Gydraddoldeb:**

- Byddwn yn parhau i gynnal darlith flynyddol ar gydraddoldeb a bydd pob darlith yn ymdrin â thema wahanol.

**Darperir gan:** Y Tîm Cydraddoldeb, Undeb y Myfyrwyr

**Rhesymeg:** Codi ymwybyddiaeth, hyrwyddo cydraddoldeb a sicrhau bod yr holl staff a myfyrwyr yn cael eu trin yn deg, â pharch ac urddas, gan eu galluogi i wireddu eu potensial yn llawn, mewn amgylchedd gofalgar a diogel.

**Targedau:**

- Erbyn 2020, mae'r Coleg Peirianneg yn gobeithio ennill gwobr arian. Mae'r Ysgol Reolaeth, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau ac Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton yn gobeithio ennill gwobrau efydd. Yn ogystal, mae'r Ffowndri Gyfrifiadol a'r Adran Ddaearyddiaeth hefyd yn gweithio i ennill gwobr efydd erbyn 2020.
- Bydd effaith yn cael ei mesur drwy holiaduron adborth (gan gynnwys atebion ansoddol), lefel presenoldeb (o'i chymharu â'r blynyddoedd blaenorol, os yw'n berthnasol).

## Hyrwyddo addysg uwch mesur amcanion, mesurau a thargedau:

**HAU 1 - Partneriaethau strategol rhanbarthol: Sefydlu partneriaethau yng Nghymru sy'n cyflawni cenhadaeth Addysg Uwch y Sefydliad, yn ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr ac yn hybu ein dyheadau o ran y Genhadaeth Ddinesig.**

**Gweithgareddau cydweithrediad strategol rhanbarthol**

- Bydd y Brifysgol yn parhau i ddatblygu'r **fenter Abertawe Dinas Ddysgu**, yn rhan o Rwydwaith Byd-eang o Ddinasoedd Dysgu UNESCO (Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig). Ystyrir y fenter gan UNESCO fel ffordd effeithiol o roi Nodau Datblygu Cynaliadwy UNESCO ar waith yn lleol. Mae cydweithrediad Abertawe, Dinas Ddysgu yn canolbwyntio ar gyflawni'r nodau lles sy'n rhan o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae Prifysgol Abertawe'n aelod o Grŵp Llywio Gŵyl Ddysgu Abertawe gyntaf, i'w chynnal fel rhan o Abertawe Dinas Ddysgu UNESCO ym mis Ebrill 2019. Bwriedir cynnal yr ŵyl bob blwyddyn yn 2020, 2021 ac wedi hynny. Bydd Gŵyl Ddysgu Abertawe'n cynnig dros 200 o gyfleoedd dysgu am ddim ledled Sir Abertawe yn 2019, â phwyslais arbennig ar ddysgwyr mewn cymunedau sy'n wynebu amddifadedd mewn sawl maes.
- Bydd **Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe'n** parhau i ddatblygu Partneriaeth Addysg Gychwynnol gydag ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Benfro a chonsortia rhanbarthol. Bwriedir cyflwyno cynnig diwygiedig ym mis Mawrth 2019.
- Byddwn yn cefnogi gweithredu **Rhaglen Sgiliau'r Fargen Ddinesig** fel y cynrychiolydd addysg uwch ar Fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Dysgu Ranbarthol ac i CCAUC, a fydd yn datblygu llwybrau sgiliau ac yn cyfrannu at adfywio economaidd.
- **Prosiect Tŷ’r Gwrhyd** - menter ar y cyd rhwng Prifysgol Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a sefydlwyd gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Ei hamcan yw cefnogi'r iaith Gymraeg drwy fentrau addysgol a chymunedol â'r nod o atal trai'r iaith Gymraeg yng Nghwm Tawe a Chwm Nedd. Mae Tŷ'r Gwrhyd yn gweithio gydag ysgolion, busnesau a mentrau cymunedol i wneud gwahaniaeth i lefelau ymwneud â'r iaith Gymraeg a chyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

| |
|---|
| • Bydd yr **Academi Datblygiad Proffesiynol** yn parhau i gydlynu a hyrwyddo darpariaeth addysg a hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus i fusnesau yng Nghymru a gweddill y DU.<br>• Bydd y **Bartneriaeth Sgiliau Prifysgol a Choleg (CUSP)** yn parhau i gryfhau partneriaethau a chydweithrediadau â cholegau addysg bellach a diwydiant.<br>• Parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno gradd-brentisiaethau yng Nghymru. |
| **Darperir gan:** Cydweithredu Strategol Rhanbarthol, Academi Hywel Teifi, yr Uned Partneriaethau Academaidd |
| **Rhesymeg:** Ymagwedd partneriaeth i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd, arloesi ac entrepreneuriaeth, gan ddarparu llwybrau dysgu clir a hyblyg o'r ysgol i ddatblygu gyrfa, gwella safonau addysg ac ysgogi cynhyrchiant. Hefyd, cyfrannu at ddatblygiad yr economi yng Nghymru drwy ddarparu hyfforddiant ac addysg o safon uchel a arweinir gan gyflogwyr ac sy'n ymdrechu i fynd i'r afael â'r bylchau sgiliau a nodir gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Bydd y gweithgareddau hyn yn helpu i wella mynediad i addysg uwch, amrywio'r sylfaen myfyrwyr a sefydlu isadeiledd ar draws y Brifysgol i gefnogi wrth ddarparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus cynaliadwy. |
| Targedau:<br>• Parhau i wreiddio Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ESDGC) mewn Dysgu Entrepreneuraidd mewn addysg gynradd, uwchradd, addysg bellach ac uwch yn y rhanbarth. Cynnal ail Ŵyl Ddysgu Abertawe yn 2020 fel rhan o'r ymrwymiad blynyddol.<br>• Datblygu partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe.<br>• Parhau i sicrhau bod cynrychiolaeth ar Fwrdd RLSP, i CCAUC ac mewn ymateb i Brosiect Sgiliau'r Fargen Ddinesig yn deg ac yn ddiduedd, â phwyslais ar gydweithio i ddatblygu llwybrau sgiliau er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr rhanbarthol â photensial i dyfu.<br>• Niferoedd cynyddol sy'n defnyddio gwasanaethau'n rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau yn Nhŷ'r Gwrhyd a pharhau i gynnal cysylltiadau â disgyblion mewn o leiaf wyth ysgol; denu cynulleidfaoedd rhwng 30 a 50 i bob digwyddiad diwylliannol/academaidd ar gyfer cymunedau; cynyddu'r niferoedd sy'n dysgu Cymraeg o 120 yn 2019-20 i 130 yn 2020-21.<br>• Cynyddu nifer y cyrsiau DPP byr o 15 i 20 erbyn 2021.<br>• Cynyddu nifer y dysgwyr proffesiynol sydd wedi cofrestru i 150 erbyn 2021.<br>• Cyflwyno dau gwrs DPP cyfrwng Cymraeg mewn partneriaeth ag Academi Hywel Teifi erbyn 2021. |

| |
|---|
| **Ymgysylltu Dinesig**<br><br>**Mentrau a gweithgareddau sy'n dangos ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth yn ein cymuned ein hun a chymunedau lleol o ran lles, arloesi a throsglwyddo sgiliau a gwybodaeth.**<br>Yn sgil ymgynghori mewnol ac allanol, gan gynnwys dadansoddi sut mae Prifysgol Abertawe'n cyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig drwy saith nod |

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), bydd Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig Prifysgol Abertawe'n cael ei lansio'n ffurfiol yn 2020, blwyddyn ein Canmlwyddiant. Bydd y Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig a sefydlir yn darparu sylfaen ar gyfer ymagwedd ac amcanion ehangach y Brifysgol mewn perthynas â Chenhadaeth Ddinesig. **Erbyn 2025, nod y Brifysgol yw y bydd "...*wedi cyflawni ymagwedd gydlynol at y Genhadaeth Ddinesig ac yn cael ei chydnabod am ymgysylltu dinesig ardderchog sy'n "cyfuno tegwch â rhagoriaeth"*** ac yn ***"cyfrannu at broffil lleol, cenedlaethol a rhyngwladol y Brifysgol."***

Yn unol â chais Ysgrifennydd Gwladol Cymru, bydd ein strategaeth Cenhadaeth Ddinesig yn helpu'r sefydliad i ddatblygu ein hallbynnau yn y ddinas, y rhanbarth a Chymru ymhellach, o fewn y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Lleoliad arloesol
- Cyfraniad at gynyddu safonau ysgolion
- Datblygu dinasyddiaeth weithgar
- Gweithredu fel injan mentergarwch ac arloesi cymdeithasol

Yn 2020-21, byddwn yn parhau i ehangu nifer o fentrau presennol ein Cenhadaeth Ddinesig, yn ogystal â chyflawni'r prosiectau a nodwyd yn rhan o'r cyllid ar gyfer Cenhadaeth ac Ymgysylltu Dinesig a ddarparwyd gan CCAUC ym mis Awst 2018. Yn ogystal, byddwn yn ymgymryd â gweithgareddau newydd i gyd-fynd â dathliadau blwyddyn ein Canmlwyddiant.

**Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe**

Bydd Gŵyl Wyddoniaeth Prifysgol Abertawe yn 2020 yn ddigwyddiad diwylliannol a fydd yn cynnwys y Brifysgol gyfan. Bydd yn hyrwyddo ymchwil yr holl Golegau ac yn creu cyfleoedd eang i gynnwys a chysylltu â phartneriaid ymchwil, cymdeithasau dysgedig, partneriaid busnes, cyn-fyfyrwyr, y cyfryngau a'r gymuned ehangach. Yn 2020-21, nodau Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe fydd:

- Efelychu maint a graddfa Gŵyl Wyddoniaeth Prydain 2017 a cheisio ymgysylltu â chynulleidfaoedd o dros 10,000 drwy gynnal digwyddiadau ar y campws ac yng nghanol y ddinas hefyd.
- Tanio brwdfrydedd pobl ifanc a'r rhai sy'n dylanwadu arnynt, ac annog dyheadau cadarnhaol ynghylch gwyddoniaeth ac addysg uwch.
- Cynhelir y digwyddiad dros wythnos a'i nodau fydd dathlu a hyrwyddo ehangder ac ansawdd ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe, gan dynnu sylw at arloesi, diwylliant a threftadaeth y rhanbarth. Mae gwaith wedi dechrau eisoes drwy feithrin cysylltiadau â phartneriaid allanol megis Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Dinas a Sir Abertawe, yn ogystal â busnesau a sefydliadau lleol.

**Oriel Science**

- Wedi'i sefydlu'n wreiddiol i fod yn ganolfan wyddoniaeth dros dro, mae Oriel Science yn hyrwyddo ymchwil Prifysgol Abertawe ym meysydd STEMM drwy arddangosfa wyddonol thematig yn seiliedig ar ymchwil gwyddonol y Brifysgol, gan anelu at ddwy gynulleidfa darged: y cyhoedd cyffredinol a myfyrwyr ysgol. Dangosodd dadansoddiad o godau post ymwelwyr â'r arddangosfa gyntaf (2016-17) eu bod yn

cyfateb yn union â phroffil cymuned Abertawe ar sail y dangosydd economaidd-gymdeithasol, "Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru".

- Ein prif nod ar gyfer 2020-21 yw sefydlu lleoliad parhaol ar gyfer Oriel Science os gellir sicrhau cyllid mewnol ac allanol o fewn oes y cynllun hwn. Byddai cyflawni'r amcan hwn yn ein galluogi i gynyddu niferoedd ymweliadau i 40,000 y flwyddyn.

**Darganfod** (ariennir gan y Brifysgol)

- Mae Darganfod yn elusen wirfoddoli a arweinir gan fyfyrwyr. Mae'n darparu cyfleoedd i fyfyrwyr helpu i gyfoethogi bywydau pobl Abertawe er mwyn iddynt wireddu eu potensial fel unigolion grymus ac aelodau o grwpiau a chymunedau. Mae gweithgareddau Darganfod dan arweiniad myfyrwyr yn y gymuned wedi helpu i feithrin cyd-ddealltwriaeth a chydraddoldeb, yn ogystal â chynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu sgiliau bywyd a chyflogadwyedd gwerthfawr.
- Mae Darganfod wedi gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth Lles i ddarparu cynllun bydi i helpu myfyrwyr awtistig i ymgynefino ac mae'n disgwyl gwneud yr un peth yn 2020-21. O ganlyniad, cafodd myfyrwyr gwirfoddol eu hyfforddi a'u cefnogi i ddarparu cymorth ymgynefino i fyfyrwyr awtistig wrth iddynt ddechrau yn y brifysgol.
- Mae Darganfod yn darparu cymorth dwys i fyfyrwyr ag anghenion ychwanegol i'w galluogi i wirfoddoli ochr yn ochr â'u cyd-fyfyrwyr. Oherwydd amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael, gall myfyrwyr a allai brofi anawsterau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cyflogadwyedd eraill, achub ar gyfleoedd i wirfoddoli.
- Mae Darganfod yn darparu amrywiaeth o raglenni gwirfoddoli i helpu pob rhan o'r gymuned neu wella'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys nifer o brosiectau lle mae myfyrwyr yn rhyngweithio â phlant o gefndiroedd a dangynrychiolir; rhan o ddiben y prosiectau hyn yw ehangu gorwelion y plant hynny a'u hannog i feddwl am addysg brifysgol fel rhywbeth y gallent ei gyflawni.
- Yn rhyngwladol, mae Darganfod wedi gweithio gyda'r Swyddfa Datblygu Rhyngwladol i ddarparu lleoedd a ariennir gan fwrsariaeth i fyfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf Ehangu Cyfranogiad er mwyn iddynt gymryd rhan yn ein rhaglen haf flynyddol yn Sambia.

**S4 - Menter Gwyddoniaeth i Ysgolion Prifysgol Abertawe (Trio Sci Cymru)** (ariennir gan y Coleg Gwyddoniaeth)

- Mae S4 wedi darparu gweithdai gwyddoniaeth rhyngweithiol ac ymarferol i bobl ifanc yn ne Cymru er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n astudio gwyddoniaeth ar lefel addysg uwch ac yn mynd ymlaen i yrfaoedd STEM. Mae S4 wedi datblygu arbenigedd yn y maes hwn ers ei sefydlu yn 2012. Yn 2018, bydd y fenter yn newid i frand newydd, S4, yn rhan o Trio Sci Cymru. Bydd prosiect Trio Sci Cymru, sy'n werth £8.2m, yn helpu i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n astudio pynciau STEM yng ngorllewin a gogledd Cymru a chymoedd de Cymru, a gwella eu graddau. Bydd dros 5,600 o bobl ifanc rhwng 11 a 19 oed, o 30 ysgol, yn cael eu hannog i astudio pynciau STEM - yn enwedig Gwyddoniaeth Driphlyg (Bioleg, Cemeg a Ffiseg) ar lefel TGAU ac uwch, gan helpu i greu gweithlu addysgedig ac economi ffyniannus.

| |
|---|
| **GwyddonLe**<br>• Mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn noddi'r pafiliwn gwyddoniaeth yn Eisteddfod Genedlaethol flynyddol yr Urdd ers 2011 ac, yn y cyfnod hwnnw, mae'r pafiliwn wedi denu dros 200,000 o ymwelwyr. Er mai gŵyl gelfyddydol yn bennaf yw Eisteddfod yr Urdd, yn y Gwyddonle, mae'r pwyslais ar ysbrydoli pobl ifanc i ymddiddori mewn pynciau STEM a'u hystyried am lwybr yn y Brifysgol a'u gyrfaoedd.<br>• Yn ogystal, mae'r Gwyddonle yn gweithio mewn partneriaeth â chymdeithasau, sefydliadau a busnesau allanol sy'n canolbwyntio ar y gwyddorau er mwyn cyfoethogi profiad yr ymwelwyr ymhellach ac amlygu datblygiadau gwyddonol cyffrous. Mae'r pafiliwn yn denu sylw bob dydd yn y cyfryngau ar gyfer ei weithgareddau ac ymweliadau gan wleidyddion o Gynlluniad Cymru a San Steffan, gan gynnwys Prif Weinidog Cymru.<br><br>**Clinig y Gyfraith Abertawe** (ariennir gan Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton).<br>• Mae Clinig y Gyfraith Abertawe, a sefydlwyd ym mis Hydref 2017, yn darparu ymagwedd arloesol at ddysgu, addysgu ac ymchwil drwy gynnig gwasanaethau cyfreithiol am ddim i'r cyhoedd wedi’u darparu gan fyfyrwyr. Ers ei sefydlu, mae 206 o fyfyrwyr wedi gwirfoddoli gan gynorthwyo 114 o gleientiaid. Yn ogystal, mae dros 300 o bobl wedi cael cymorth uniongyrchol gan ein mentrau addysg gyfreithiol gyhoeddus, gan gynnwys digwyddiadau allgymorth a Chyfraith Stryd. Cydnabuwyd y cyflawniadau hyn drwy ddyfarnu Gwobr pro bono 2018 LawWorks Cymru i'r Clinig.<br><br>Bydd Clinig y Gyfraith Abertawe yn weithredol eto yn 2020-21 a bwriedir ehangu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig.<br><br>**Gweithgareddau'r Canmlwyddiant yn 2020**<br>• I ddathlu canrif o Brifysgol Abertawe, byddwn yn darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau i dynnu sylw at ymchwil y Brifysgol a meithrin cysylltiadau pellach â'r gymuned leol.<br><br>Adeg ysgrifennu'r cynllun hwn, mae'r digwyddiadau'n cael eu cynllunio o hyd, felly gallent newid. Mae'n debygol y bydd y ddarpariaeth yn cynnwys y canlynol (ymhlith eraill): Penwythnos Croeso'n Ôl Varsity, digwyddiad cydnabod staff a myfyrwyr ac ymweliad gan westai pwysig a chyngerdd i ddathlu ein canmlwyddiant. Rydym hefyd yn cynllunio dathliadau i gau'r flwyddyn, megis Penwythnos Gŵyl Prifysgol Abertawe'n 100 ym Mharc Singleton a'r Ddinas. Bydd hyn yn gyfle i ryngweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid a hyrwyddo'r Brifysgol a'i hymchwil i'r gymuned leol. Dathliad llawn canu a dawnsio a chyfle i wella enw da'r Brifysgol yn y ddinas. |
| **Darperir gan:** Y Brifysgol |
| **Rhesymeg:**<br>• Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i sicrhau ei bod yn rhyngweithio â'r gymuned leol, ysgolion, y trydydd sector, cwmnïau lleol, partneriaid diwydiannol a phartneriaethau masnachol i hybu twf a datblygu economaidd yn y cymunedau agos ac ehangach mae'n eu gwasanaethu. |
| **Grŵp o Fyfyrwyr:** Pob myfyriwr a chymunedau ehangach de-orllewin Cymru. |

**Targedau:**

- Lansio strategaeth Cenhadaeth Ddinesig y sefydliad yn 2020.
- Erbyn 2020-21, byddwn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe i 10,000 drwy gynnal digwyddiadau ar y campws ac yng nghanol y ddinas.
- Yn 2020-21, bydd Darganfod yn darparu cynllun bydi i helpu myfyrwyr awtistig i ymgynefino a'r nod yw cydweithio â 600 o fyfyrwyr gwirfoddoli.

**Graddau Sylfaen** (ariennir yr addysgu gan Golegau)

**Graddau Sylfaen a Graddau Baglor Cymalog,** wedi'u hachredu gan Brifysgol Abertawe a'u cyflwyno mewn partneriaeth â Cholegau Addysg Bellach. Nod y rhaglenni hyn yw mynd i'r afael â bylchau sgiliau a nodwyd ac maent yn darparu llwybrau amgen i addysg uwch, gyda dilyniant i raddau baglor.

Er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer dilyniant esmwyth a hyfforddiant sgiliau pellach, sy'n hyblyg er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr, mae'r graddau Sylfaen mewn Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch a Rheoli Busnes yn gysylltiedig â gradd baglor gymalog un flwyddyn. Felly, bydd myfyrwyr/prentisiaid sy'n cwblhau'r radd sylfaen yn gymwys i symud ymlaen i'r radd gymalog lefel 6. Mae'r llwybr dilyniant hwn yn cynnig hyblygrwydd i gyflogwyr er mwyn sicrhau bod eu staff yn derbyn yr hyfforddiant addysg uwch ar lefel sy'n addas i anghenion y busnes. Rhagwelir y bydd gradd-brentisiaethau'n disodli'r radd sylfaen a'r graddau cymalog presennol mewn Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch.

- Mae **Gradd Sylfaen** mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael ei datblygu ac mae'n cael ei haddysgu gan Goleg Penfro. Mae Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd wedi cynnig bwrsariaeth ffioedd, gan leihau cost y cwrs dros ddwy flynedd. Bydd myfyrwyr yn gallu symud ymlaen i ddarpariaeth lefel 6 yn y Brifysgol.
- Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid addysg bellach ac InstructUs i sicrhau bod ein darpariaeth wedi'i mapio i fframwaith gradd uwch gymeradwy (Cymru).
- Rydym yn cyflwyno **Gradd-brentisiaethau** mewn Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol ar gyfer 50 o weithwyr, y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gweithio i BBaCh.
- Byddwn yn parhau i ymrwymo i'r agenda Graddau-Brentisiaeth yng Nghymru.
- Rydym yn parhau i archwilio cyfleoedd pellach i ddarparu dysgu ar sail gwaith, mewn partneriaeth â diwydiant a cholegau addysg bellach.

**Darperir gan:** Arweinir a chydlynir y ddarpariaeth hon gan y Bartneriaeth Sgiliau Coleg a Phrifysgol (CUSP) ac Addysg Barhaus Oedolion yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

**Rhesymeg:** Mae'r Graddau Sylfaen a'r Gradd-brentisiaethau'n cael eu datblygu ar y cyd â chyflogwyr, mewn ymateb i anghenion busnes, megis datblygu sgiliau neu greu piblinell o ddoniau. Maent yn darparu mynediad i addysg uwch ar gyfer gweithwyr amser llawn. Drwy ddarparu rhaglenni astudio, mewn cydweithrediad â phartneriaid addysg bellach (Coleg Sir Benfro, Coleg Gŵyr Abertawe, Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Cambria), mae'r Brifysgol yn gallu darparu mynediad i addysg uwch yn lleol. Mae'r Brifysgol yn cyflwyno Gradd-brentisiaethau a bydd yn parhau i ymrwymo i'r agenda hon wrth i wybodaeth am adnoddau a fframweithiau ddod ar gael ac os yw cyflogwyr yn gefnogol.

**Grŵp neu grwpiau o fyfyrwyr:**

| |
|---|
| Yn ôl y proffil blaenorol o fyfyrwyr ar Raddau Sylfaen, mae gan tua 53% o fyfyrwyr nodweddion ehangu mynediad, ac mae'r graddau hyn yn tueddu i ddenu gwrywod gwyn ifanc o ardaloedd cyfranogiad isel. Mae'n bosib na fydd Gradd-brentisiaethau'n denu proffil ehangu mynediad uchel tebyg. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n cofrestru ar raddau sylfaen a gradd-brentisiaethau yn gweithio amser llawn, felly ni allant gymryd rhan mewn addysg uwch amser llawn safonol sy'n cael ei darparu ar y campysau. Mae graddau sylfaen a gradd-brentisiaethau yn darparu llwybr hyblyg i hyfforddiant addysg uwch sydd o fudd i'r unigolyn a'r busnes. |
| • Cyflwyno dau gynllun Gradd-brentisiaeth mewn Peirianneg (un yng ngogledd Cymru a'r llall yn ne Cymru), a pharhau i gyflwyno un mewn Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol gyda'n partner addysg bellach.<br>• Datblygu un cynllun Gradd-brentisiaeth mewn Gweithgynhyrchu Uwch.<br>• Datblygu Gradd Sylfaen mewn Gwyddoniaeth Ddiwydiannol mewn cydweithrediad â Tata Steel a Choleg Gŵyr.<br>• Datblygu data gwaelodlin ar gyfer y niferoedd sy'n dechrau graddau-brentisiaeth er mwyn pennu targedau ar gyfer 2020-21.<br>• Ehangu'r bartneriaeth i gynnwys partneriaid addysg bellach eraill.<br>• Parhau i archwilio - ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol - y posibilrwydd o gyflwyno rhai elfennau o raglenni addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg bellach. |

## HAU 2 - Profiad y Myfyrwyr: Darparu gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau sy'n gwella profiad y myfyrwyr, gan gynnwys gwelliannau i ansawdd yr addysgu.

| |
|---|
| **Gwelliannau i Ansawdd yr Addysgu**<br><br>• Datblygiad Addysgu ar draws y gweithlu/colegau. Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth drwy barhau i gynnal y gynhadledd dysgu ac addysgu a seminarau i hyrwyddo gwella addysgu, gweithdai i hyrwyddo sgiliau a thechnoleg newydd.<br>• Byddwn yn parhau i ddatblygu darpariaeth addysgu hyblyg, dysgu â chymorth technoleg ar draws y sefydliad a chymorth a datblygu rhagweithiol, gan ddatblygu addysgeg.<br>• Cydnabyddiaeth i Athrawon - byddwn yn parhau i ddatblygu'r llwybrau i achrediad yr Academi Addysg Uwch (AAU), gan weithio tuag at darged o achrediad i 80% o'r holl staff addysgu, gradd 7 ac uwch erbyn 2020 (60% yn 18-19, 70% yn 19-20 ac 80% erbyn 20-21), gan gynyddu hyn yn raddol i gyrraedd yr uchafswm erbyn 2022).<br>• Creu Gwobrau Dysgu ac Addysgu Sefydliadol.<br>• TAR - datblygiad addysgegol ar gyfer athrawon newydd, gan gynyddu ansawdd eu hymarfer addysgu ac asesu, i'w weithredu erbyn 2020-21.<br>• Agenda DPP estynedig sy'n hyrwyddo'r TAR a'r ffaith ei bod ar gael i'r holl staff, dull 'Drws Agored' o arsylwi ar athrawon, datblygiad technolegol ym maes addysgu a hwyluso DPP hunangyfeiriedig. |
| **Darperir gan:** Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe |

| |
|---|
| **Rhesymeg:**<br>• Ymgais i wella addysgu er mwyn cynnal safonau ardderchog, yn gydnaws â'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu.<br>• Ymrwymo i wella profiad y myfyrwyr yn Abertawe drwy ddysgu, addysgu ac asesu rhagorol.<br>• Ymrwymiad i gydraddoldeb rhwng addysg ac ymchwil ar ein trywydd gwella - cymorth, adnoddau a datblygiad. |
| **Targedau:**<br>• Sgôr Ansawdd Addysgu yr NSS - Cynnydd i 87% yn 18-19 (86% wedi'i gyflawni yn 17-18) ac i 88% (y chwartel uchaf) erbyn 2019-20, 89% yn 2021 ac yn y blaen.<br>• Targed achrediad yr AAU = 80% o'r holl staff addysgu, gradd 7 ac uwch erbyn 2020 (60% yn 18-19, 70% yn 19-20 ac 80% erbyn 20-21), gan gynyddu hyn yn raddol i'r uchafswm erbyn 2022.). |

**Gwelliannau i Brofiad y Myfyrwyr**

- **Cydweithio (staff a myfyrwyr) i greu dulliau digidol o ddarparu dysgu ffurfiannol.**
  Cynhaliodd dau Goleg (Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Coleg Gwyddoniaeth) gynlluniau peilot o ddyddlyfrau myfyriol digidol i fyfyrwyr ddarparu adborth yn 2018-19, gan ddefnyddio Pebble Pad i helpu myfyrwyr i gofnodi eu hadborth ar asesu a myfyrio arno er mwyn nodi tueddiadau a chyfleoedd i wella. Trafododd myfyrwyr eu hadborth â staff academaidd yn eu sesiynau mentora academaidd. Nododd staff a myfyrwyr mor fuddiol oedd y profiad hwn iddynt. O ganlyniad, bydd y dyddlyfr myfyriol hwn yn rhan o gynllun cyflawni (ar gyfer 2020-21) Strategaeth Dysgu ac Addysgu ddiwygiedig y Brifysgol i sicrhau bod yr arfer yn cael ei fabwysiadu gan y Brifysgol gyfan.

- **Datblygu symposia israddedig adrannol a rolau llysgennad dysgu Bydd hyn yn gwella gallu myfyrwyr fel ymchwilwyr mewn gweithgarwch ysgolheigaidd ac yn ysbrydoli cymheiriaid, yn ogystal â hyrwyddo dysgu a diogelwch ar draws cyfnodau.**
  Cynhaliwyd symposia a chynlluniau llysgenhadon dysgu ar sail arbrofol mewn tri Choleg (Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Peirianneg a Choleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd) yn 2018-19. Roedd ymagwedd pob Coleg at hyn ychydig yn wahanol er mwyn diwallu anghenion eu myfyrwyr nhw. Roedd adborth yn gadarnhaol ar y cyfan a nodwyd meysydd i'w gwella yn y dyfodol yn y broses werthuso. Mae'r Colegau hyn yn bwriadu parhau i gynnal y rhain. Bydd yr arfer hwn yn rhan o gynllun cyflawni (ar gyfer 2020-21) Strategaeth Dysgu ac Addysgu ddiwygiedig y Brifysgol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei fabwysiadu gan y Brifysgol gyfan.

- **Ehangu a gwreiddio cymdeithasau academaidd ymhellach.**
  Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr i lunio Cwestiynau Cyffredin, siart llywodraethu a fideo arfer gorau ar gyfer cymdeithasau academaidd i fod ar gael ar wefan Undeb y Myfyrwyr. Mae rolau Hyrwyddwr Cymdeithasau Academaidd wedi cael eu creu ym mhob Coleg; aelod o'r staff

academaidd sy'n bwynt cyswllt ar gyfer myfyrwyr ag ymholiadau am gymdeithasau academaidd.

- **Datblygu'r diwylliant adborth er mwyn hyrwyddo 'cau'r ddolen' ar sawl lefel drwy 'Gyda'n Gilydd Gwnaethom Newid'.**
  Mae negeseuon 'Gyda'n Gilydd Gwnaethom Newid' bellach yn cael eu lledaenu ar sawl lefel drwy'r Brifysgol, gan gynnwys ar dudalennau gwe MyUniHub, ac ym mhwyllgorau staff-myfyrwyr y colegau, a byddwn yn parhau i'w cynnwys yn y catalog modiwlau ac mewn llawlyfrau rhaglenni yn y dyfodol.

- **Cyfnewid myfyrwyr**
  Yn 2018-19, daeth dau fyfyriwr atom o Brifysgol Newcastle. Yn 2019-20 byddwn yn anfon dau fyfyriwr i sefydliadau addysg uwch eraill, un i Brifysgol South Bank yn Llundain i ymchwilio i arfer gorau ym maes dysgu gan gymheiriaid a'r llall i Brifysgol Durham i ddysgu am eu rhaglenni anrhydedd cyfunol. Mae'r ddau faes hyn yn feysydd ffocws i ni fel sefydliad, a bydd y myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn gallu ein helpu wrth ddatblygu'r elfennau hyn yn Abertawe yn y dyfodol. Mae gan y ddau fyfyriwr elfennau yr hoffent gael profiad ohonynt hefyd. Mae hyn bellach yn rhan o'n darpariaeth safonol (rhan o gylch gorchwyl ein Tîm Partneriaethau ac Ymgysylltu â Myfyrwyr a cheir proses ymgeisio ffurfiol) a byddwn yn parhau i anfon dau fyfyriwr bob blwyddyn, os ceir digon o ddiddordeb yn y cynllun.

- **Cynllun Gwella Dysgu ac Addysgu Abertawe (SLATES)**
  Yn 2018-19 cynhaliwyd prosiect peilot mewn gwytnwch emosiynol myfyrwyr, a gynlluniwyd mewn partneriaeth â myfyriwr gwirfoddoli, dan arweiniad aelod o'r staff academaidd. Cafodd ei hysbysebu ar sail treial i fyfyrwyr Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau a denwyd mwy o ddiddordeb na nifer y lleoedd a oedd ar gael. Dywedodd 100% o'r cyfranogwyr eu bod wedi mwynhau'r digwyddiad ac na allent feddwl am ddim byd arall y gellid bod wedi'i gynnwys. Cafodd y sesiynau hyn eu cyflwyno mewn amgylchedd hamddenol a chyfeillgar a anogodd y myfyrwyr i siarad am eu pryderon ond a ddarparodd gyfle hefyd iddynt feithrin sgiliau i wynebu heriau a'u goresgyn.

  Roedd yr adborth cyffredinol yn hynod gadarnhaol. Y peth a apeliodd fwyaf at y rhan fwyaf o'r myfyrwyr oedd y cyfle i gael trafodaeth agored â'u cymheiriaid mewn amgylchedd strwythuredig. Dyma rai o'r agweddau cadarnhaol eraill a nodwyd gan y myfyrwyr: y cyngor ymarferol, natur ryngweithiol ac anffurfiol y digwyddiad a'r amser ar gyfer hunanfyfyrio.

  Byddwn yn ail-lansio hyn ym mlwyddyn academaidd 2018-19 (ac yn y blynyddoedd dilynol) gan ariannu o leiaf ddau brosiect. Caiff myfyrwyr a staff eu hyfforddi mewn egwyddorion sylfaenol Rheoli Newid a Rheoli Prosiect. Caiff y sesiynau eu harwain yn fwy gan fyfyrwyr gyda chymorth staff yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol. Bydd hyn yn rhan o gynllun cyflawni Strategaeth Dysgu ac Addysgu ddiwygiedig y Brifysgol.

| |
|---|
| **Darperir gan:** Yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol ar y cyd â phartneriaethau'r Brifysgol. |
| **Rhesymeg:** Byddwn yn parhau i wella profiad myfyrwyr o bob grŵp ym Mhrifysgol Abertawe drwy weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr. Mae'r ddwy thema (Cyfranogiad Myfyrwyr mewn Dysgu a Grymuso Myfyrwyr i Ddysgu) eleni yn bwriadu gwneud hyn drwy:<br>• Wella'r diwylliant digidol mewn dysgu ac addysgu ymhlith staff a myfyrwyr.<br>• Gwella a chynyddu cyfleoedd i gael rhyngweithiadau llwyddiannus ac ystyrlon rhwng myfyrwyr.<br>• Meithrin diwylliant a chymuned ymarfer ymhlith staff a myfyrwyr.<br>• Grymuso llais y myfyrwyr a grymuso staff a myfyrwyr drwy feithrin diwylliant o greu ar y cyd. |
| **Targedau:**<br>Os bydd y cynlluniau peilot perthnasol yn llwyddiannus, byddwn yn gweithio tuag at wreiddio dyddiaduron myfyriol digidol, symposia adrannol ar gyfer israddedigion a rolau llysgennad dysgu. Fel y disgrifir uchod, bydd y rhain yn rhan o'r cynllun cyflawni (2020-21) ar gyfer Strategaeth Dysgu ac Addysgu ddiwygiedig y Brifysgol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu mabwysiadu ar draws y Brifysgol. |

## HAU 3 – Cyflogadwyedd Darparu gwasanaethau, cymorth a gweithgareddau i fyfyrwyr mewn partneriaeth â chyflogwyr, sy'n cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru

| |
|---|
| **Cyfleoedd Symudedd** - Y Tîm Ewch yn Fyd-eang yn y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol sy'n gyfrifol am sicrhau, datblygu a hyrwyddo amrywiaeth eang o gyfleoedd rhyngwladol (astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor) sy'n cael eu cynnig i'r holl fyfyrwyr.<br><br>**Datblygiad athrawon, wedi'i gydlynu gan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (ADAA)** - Cysylltu damcaniaeth ag ymarfer drwy berfformiad yn y gweithle, gan gynnwys dysgu rhagweithiol yn y gweithle sy'n ysgogol ac yn gefnogol, drwy addysgu sy'n gysylltiedig ag ymarfer, addysgeg drwy brofiad ac asesu ar sail profiad, gan alluogi athrawon i gynnwys cyflogadwyedd yn eu gweithgareddau addysgu myfyrwyr.<br><br>**Academi Cyflogadwyedd Abertawe (ACA):**<br><br>**Gweithredu'r 'Map Taith Gyrfa' diwygiedig, sy'n berthnasol i fyfyrwyr ar bob lefel, mewn unrhyw ddisgyblaeth.** Mae'r map hwn yn tanategu holl weithgarwch y Brifysgol ym maes cyflogadwyedd ac mae'n darparu neges glir a chyson i fyfyrwyr, gan eu helpu i gyfranogi mewn cyflogadwyedd, drwy waith gwasanaeth canolog a darpariaeth a gefnogir gan Golegau. Mae'r map yn caniatáu i fyfyrwyr weld eu cynnydd drwy gamau'r map yn eu hamser eu hunain, mewn modd cyfeiriedig. Mae'r map yn cynorthwyo staff ar draws y Brifysgol wrth gefnogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau a phrofiad, drwy ychwanegu adnoddau ar-lein i staff, wedi'u datblygu gan Ymgynghorwyr Gyrfaoedd a Swyddogion Lleoliad Gwaith sy'n gysylltiedig â Cholegau.<br><br>Mae cymorth cyflogadwyedd wedi cael ei gryfhau yn sgil cyflwyno **"Cofrestru ar gyfer Gyrfa"** adeg cofrestru/ailgofrestru ar gyfer yr holl fyfyrwyr (â'r nod o gofnodi data effeithiol |

ar barodrwydd am yrfa a dilyniant a chynorthwyo wrth fireinio gweithgarwch cyflogadwyedd drwy'r cwricwlwm) - bydd hyn o gymorth wrth ddatblygu dangosfyrddau 'canlyniadau graddedigion' newydd er mwyn helpu i deilwra negeseuon a nodi blaenoriaethau mewn Colegau.

Mae **Gwobr Cyflogadwyedd Abertawe** yn cael ei hadolygu fel rhan o'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu newydd er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Golegau wrth ei chyflwyno. Gellir ei chynnig naill ai fel modiwl annibynnol neu ei chynnwys mewn modiwlau presennol fel cyfres o ddeilliannau dysgu. (Mae'r Wobr yn helpu myfyrwyr i archwilio pwy ydynt a datblygu profiad a sgiliau i'w paratoi'n well i sicrhau cyflogaeth ar ôl graddio. Mae'r wobr ar ei mwyaf effeithiol pan gaiff ei hymgorffori yn narpariaeth y Coleg, gyda chymorth aelodau ACA sy'n gweithredu fel 'ymgynghorwyr').

**Y Parth Cyflogaeth** - proses wedi'i brandio i ryngweithio â chyflogwyr er mwyn hwyluso twf lleoliadau gwaith myfyrwyr a graddedigion, swyddi graddedig a swyddi rhan-amser. Mae hefyd yn cynnwys mecanwaith y gellir ei ehangu i hyrwyddo a darparu lleoliadau gwaith wedi'u hariannu'n fwy effeithiol ar gyfer myfyrwyr a graddedigion yn y DU, sefydliadau Cymreig yn benodol. Gall darparwyr lleoliadau gwaith amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ond mae bob amser amrywiaeth eang o ddiwydiannau a rolau ar gael - o BBaCh ac elusennau lleol i gorfforaethau rhyngwladol mawr. Yn 2019, daeth ACA yn gyfrifol am reoli Cynllun Myfyrwyr Llysgennad y Brifysgol - ar hyn o bryd mae hwn yn cynnig cyflogaeth ran-amser â thâl i 450 o fyfyrwyr yng ngweithgareddau gweinyddol y Brifysgol; y cynllun cyflawni yw cynyddu cyfleoedd mewnol ac allanol a chynyddu nifer y rolau llysgennad.

**Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch -** mae hwn yn cofnodi cyflawniad myfyrwyr mewn addysg uwch ac mae'n darparu gwybodaeth am ddysgu a chyflawniad myfyrwyr a'r sgiliau maent wedi'u dysgu sy'n fanylach na'r system draddodiadol o ddosbarthau gradd. Gall myfyrwyr ei gyrchu wrth astudio neu ar ôl graddio a gall eu helpu i ddangos i gyflogwyr fod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i'w penodi.

**Darperir gan:** Tîm Ewch yn Fyd-eang, y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol, ACA, yr Uned Partneriaethau Academaidd

**Targedau:**

- **Cyfleoedd Symudedd**: Targed - cyfanswm o 600 o fyfyrwyr yn cyfranogi ar gyfer 2020-21 (cynnydd o waelodlin o 531 yn 2017-18)

- **Y Parth Cyflogaeth a Lleoliadau Gwaith:**
  - 2017-18: 623 wedi'u cyflawni
  - 2018-19: Targed – 800
  - 2019-20: targed - 1000
  - **2020-21: Targed - 1200**

- **Gwobr Cyflogadwyedd Abertawe:** nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyfer Gwobr Cyflogadwyedd Abertawe ac yn ei chwblhau:
  - **2017-18 - Cofrestru:** 1,526 Cwblhau: 832 (gwir ffigur).
  - **2018-19 - Cofrestru:** 2,000 Cwblhau: 1,000.
  - **2019-20 ac wedi hynny - Fel rhan o gynlluniau newydd y Strategaeth Dysgu ac Addysgu a'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu mewn Colegau,** rhagwelir y bydd y

Wobr yn cael ei chyflwyno mewn dulliau mwy hyblyg, naill ai fel modiwl annibynnol neu fel cyfres o ddeilliannau dysgu cyflogadwyedd, gan sicrhau bod modd cyflwyno'r cyd-rannau i'r holl fyfyrwyr. Felly, caiff ein holl fyfyrwyr gyfle i archwilio pwy ydynt a meithrin profiad a sgiliau i'w paratoi'n well i sicrhau cyflogaeth ar ôl graddio. Bydd y marciau sy'n cael eu hennill a'r profiadau'n parhau i gael eu cynnwys ar Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg (HEAR) myfyriwr.

Er bod y nifer sy'n cofrestru ar gyfer y Wobr hon wedi gostwng, mae'r ganran sy'n ei chwblhau wedi cynyddu. Mae hyn yn rhan o'r trafodaethau ynghylch sut i sicrhau bod y wobr yn hygyrch oherwydd pan fydd myfyrwyr yn cyfranogi, mae'n ennyn eu diddordeb ac yn eu cefnogi.

**Targedau Canlyniadau Graddedigion:**

Graddedigion 2017-18 (caiff hyn ei gofnodi yn 2020 o dan Ganlyniadau Graddedigion)

- Cyflogaeth ac Astudiaethau Pellach = 97%
- Cyflogaeth ar lefel raddedig = 85.5%

## HAU 4 - Rhyngwladoli: Darparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo addysg uwch Cymru'n rhyngwladol, gan arwain at recriwtio mwy o fyfyrwyr yn rhyngwladol a phartneriaethau rhyngwladol.

**Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i hyrwyddo Prifysgol Abertawe ac Addysg Uwch Cymru yn rhyngwladol.** Y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol sy'n gyfrifol am hyrwyddo Prifysgol Abertawe dramor; recriwtio myfyrwyr rhyngwladol o safon uchel, nodi cyfleoedd dramor ar gyfer myfyrwyr o Abertawe a sefydlu partneriaethau â sefydliadau addysg uwch, cyrff ysgoloriaethau, sefydliadau llywodraethol a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu partneriaethau sydd o fudd i'r naill ochr a'r llall mewn perthynas â gweithgareddau rhyngwladoli. Mae niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol sy'n dewis astudio yn Abertawe'n dyst i lwyddiant y gweithgarwch hwn. Rydym hefyd yn cynnal rhwydwaith ardderchog o gyn-fyfyrwyr sy'n golygu bod hyrwyddwyr Abertawe ledled y byd.

Mae'r Brifysgol hefyd yn rhan o nifer o **bartneriaethau strategol rhyngwladol lefel uchel**, er enghraifft gyda phrifysgolion yn Tecsas a Grenoble. Mae'r partneriaethau hyn yn eang ac yn ddwfn, gan gynnwys gweithgarwch ymchwil, addysgu a myfyrwyr ar y cyd ar draws amrywiaeth eang o feysydd academaidd.

Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn:

- Cydweithio â Global Wales a rhanddeiliaid Cymru gyfan eraill er mwyn hyrwyddo addysg uwch Cymru'n rhyngwladol.
- Gweithio i gynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cofrestru.
- Gweithio i wella ein cymorth ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol ymhellach.
- Darparu cyfleoedd i'r holl fyfyrwyr weithio neu astudio dramor er mwyn gwella eu rhagolygon cyflogadwyedd.
- Darparu bwrsariaethau symudedd i helpu i ysgogi myfyrwyr.
- Hyrwyddo dealltwriaeth o ddiwylliannau a chymdeithasau eraill.

- Cydweithio â sefydliadau tramor, a ddewiswyd yn benodol oherwydd cynnwys eu cyrsiau a/neu eu cyfleusterau unigryw i gynnwys cydnabyddiaeth credydau a graddau ar y cyd lle y bo'n briodol.
- Parhau i wella ansawdd a graddfa ein hymchwil.
- Parhau â'n gwaith i ddiwygio'r cwricwlwm fel y gall rhagor o fyfyrwyr elwa o astudio a gweithio dramor.

**Darperir gan:** Y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol mewn partneriaeth â'r colegau academaidd ac adrannau gwasanaeth proffesiynol eraill

**Rhesymeg:** Parhau i ddatblygu ôl troed byd-eang Abertawe, yn unol â'i statws fel sefydliad â meddylfryd rhyngwladol sydd ymhlith goreuon y byd.

**Targedau:**

- Cynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol (FPE) o 2,808 (13.7%) yn 2017-18 i 3,257 (14%) yn 2020-21.
- Parhau i ddatblygu partneriaethau rhyngwladol gweithredol, cynaliadwy a buddiol i'r naill ochr a'r llall ar draws y sbectrwm o weithgarwch rhyngwladoli.
- Gwell proffil ac enw da yn fyd-eang.

**Hyrwyddo Addysg Uwch Cymru**

Mae'r **Gyfarwyddiaeth Partneriaethau Academaidd** yn achub ar gyfleoedd i hyrwyddo sector addysg uwch Cymru drwy sefydlu partneriaethau cydweithredol â sefydliadau addysg a chanolfannau ymchwil o safon uchel ledled y byd. Mae cydweithrediadau o'r fath yn cynnwys trefniadau astudio a goruchwylio ar y cyd ar lefel PhD, Meistr ac Israddedig, gan hwyluso cyfnewid syniadau, dealltwriaeth ddiwylliannol a sgiliau iaith. Mae llwyddiant y partneriaethau hyn i'w weld mewn allbynnau ymchwil, ceisiadau ar y cyd llwyddiannus am gyllid a graddedigion sy'n gyflogadwy iawn.

Mae'r Brifysgol yn:

- Darparu cyllid sbarduno i ddatblygu cyfleoedd gyda phartneriaid strategol - manteisiwyd arnynt gan naw academydd, gan arwain at gynhadledd, cyfleoedd rhwydweithio, trafodaethau i ddatblygu gradd Meistr ar y cyd a cheisiadau ar y cyd am gyllid. Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu ar gyfer 2018-19.
- Gweithio o fewn consortia Ewropeaidd er mewn parhau i gyflwyno rhaglenni Erasmus Mundus yn 2020-21.
- Parhau i gefnogi datblygiadau gradd-brentisiaeth Llywodraeth Cymru, cynnal rhaglen beilot yn y ffrwd ddigidol. Mae'r Brifysgol yn parhau i ymwneud â datblygu fframwaith ar gyfer y ffrwd Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch ac mae'n bwriadu cyflwyno gradd-brentisiaethau ar sail y fframwaith hwn.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Partneriaethau Academaidd wedi datblygu nifer o fodelau partneriaeth arloesol (e.e. graddau israddedig ac ôl-raddedig ar y cyd a dwbl) gyda phrifysgolion yn Ewrop, Asia, Affrica a Gogledd America. Mae'r mentrau hyn yn codi proffil Cymru ac addysg uwch Cymru'n rhyngwladol.

Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi:

- Lansio gradd Meistr ar y cyd newydd mewn Cyfrifiadureg gyda Grenoble.
- Datblygu a lansio un radd ddeuol gyda Phrifysgol Trent.
- Nodi a chynnig partneriaeth strategol newydd yn Tsieina.
- Datblygu amrywiaeth o raddau arloesol sy'n cael eu cynnig: gan y Brifysgol ei hun; ar y cyd â diwydiant (o raddau EngD i raddau sylfaen); ar y cyd â cholegau addysg bellach; ar y cyd â phrifysgolion eraill ledled y byd; ar gyfer dysgwyr proffesiynol. Mae rhai o'r graddau hyn yn cynnwys rhaglenni dysgu ar sail gwaith (sy'n cael eu cyflwyno'n annibynnol a chyda phartneriaid addysg bellach), graddau baglor deuol, graddau doethuriaeth a meistr deuol a rhaglenni "cyfadran symudol" ("flying faculty").
- Creu pum partneriaeth academaidd newydd gyda phartneriaid o safon uchel.

Mae'r Academi Datblygiad Proffesiynol hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu a hyrwyddo hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y farchnad dramor.

**Darperir gan:** Y Gyfarwyddiaeth Partneriaethau Academaidd

**Rhesymeg:** Parhau i ddatblygu partneriaethau cydweithredol â sefydliadau o safon uchel ledled y byd. Parhau i archwilio a datblygu graddau arloesol â'r nod o ddenu myfyrwyr o safon uchel a gwella cyflogadwyedd rhyngwladol graddedigion.
Mae cyflwyno cyrsiau hyfforddiant DPP i farchnadoedd tramor yn cael effaith ar addysg uwch yng Nghymru o ran recriwtio tramor, cyfleodd ymchwil rhyngwladol, cynhyrchu incwm a hyrwyddo addysg yng Nghymru.

Bydd y gweithgareddau hyn hefyd yn cefnogi'r Brifysgol i amrywio ei sylfaen myfyrwyr ac ymateb i natur newidiol addysg (h.y. Brexit, adolygiadau o gyllid addysg, cyflwyno gradd-brentisiaethau) ac anghenion diwydiant wrth i'r Brifysgol geisio ehangu’r rôl sydd ganddi wrth arwain economi wybodaeth y rhanbarth.

**Targedau:**

- Cyd-drafod partneriaeth strategol newydd â Phrifysgol Wuhan yn Tsieina.
- Datblygu gradd ar y cyd newydd gyda'n partner strategol, Grenoble Alpes.
- Cynnydd o 10% ychwanegol yn nifer y myfyrwyr PhD ar y cyd yn Grenoble Alpes
  16 wedi'u cofrestru yn 2017-18.
  18 wedi'u cofrestru yn 2018-19
- Datblygu dau drefniant gradd ddeuol/dwbl gyda phartneriaid presennol.
- Datblygu a threialu gradd israddedig ddwbl gyda phartner newydd yn Tsieina.
- Datblygu a threialu gradd Meistr dysgu o bell/telegynadledda yn India.
- Datblygu a thyfu partneriaethau academaidd yn Awstralia a Seland Newydd.
- Datblygu dwy radd ddeuol/ddwbl newydd gyda'n prifysgol bartner yng Nghanada.
- Adolygu hyfforddiant datblygiad proffesiynol presennol er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy barhaus pan fydd cyllid Ewropeaidd wedi dod i ben.
- Ehangu gweithgareddau addysg uwch mewn addysg bellach gyda phartneriaid presennol a newydd drwy:
  - Ymgorffori dwy radd-brentisiaeth yn y portffolio ac, o bosib, cynnwys modiwlau cyfrwng Cymraeg mewn rhaglenni.
  - Sefydlu prentisiaeth uwch mewn Rheolaeth yn ne Cymru.
- Datblygu un radd Baglor ddeuol gyda phartner yn Tsieina.
- Cofrestru 25 o ymgeiswyr newydd ar radd Meistr ddwbl.

| |
|---|
| **Gwobr Academi Hywel Teifi** - Gwobr sy'n cydnabod gweithgareddau/cyfraniad allgyrsiol gan fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith at gymuned y Brifysgol, y gymuned leol ac yn genedlaethol/yn rhyngwladol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Wobr hefyd yn ceisio darparu sgiliau cyflogadwyedd pellach i fyfyrwyr a'u hannog i ymwneud â Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig newydd y Brifysgol.<br><br>**Ieithoedd i Bawb** - Cyfle i ddysgu/wella sgiliau mewn iaith newydd, gan gynnwys Cymraeg, fel rhan o gynllun gradd y myfyriwr. |
| **Darperir gan:** Academi Hywel Teifi |
| **Rhesymeg:** Annog myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg i fanteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, gan wella eu potensial i lwyddo yn eu hastudiaethau a'u cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol. Ymrwymo i wella profiad y myfyrwyr yn Abertawe a chynyddu cysylltiadau rhwng y myfyrwyr a'r gymuned ehangach ac agor llwybrau gyrfa posib. Amlygu ymroddiad, gallu a brwdfrydedd myfyrwyr unigol i ddarpar gyflogwyr wrth i'r myfyrwyr gystadlu am gyflogaeth. |
| **Grŵp neu Grwpiau o Fyfyrwyr:** Myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg |
| **Targedau:**<br>• Cynnydd yn y niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg:<br>- 5+ credyd (o 356 yn 2017-18 i 400 yn 2019-20 a 500 yn 2020-21 a chynnydd blynyddol o 5% wedi hynny).<br>- 40+ credyd (o 182 yn 2017-18 i 200 yn 2020-21 a chynnydd blynyddol o 5% wedi hynny).<br>- Cofrestru pum myfyriwr ar gynllun Gwobr Academi Hywel Teifi ar gyfer 2019-20 a 10 ar gyfer 2020-21.<br>• Cofrestru 15-20 myfyriwr ar y modiwl Ieithoedd i Bawb - Cymraeg ar gyfer 2020-21.<br>• Cofrestru pum myfyriwr ar gynllun Gwobr Academi Hywel Teifi ar gyfer 2019-20 a 10 ar gyfer 2020-21. |

## HAU 5 - Cynyddu ymwybyddiaeth o werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr yn gyffredinol

Mae'r amcan hwn wedi cael ei gynnwys yn y cynllun ond mae adrannau eraill yn y cynllun wedi ymdrin ag ef i raddau helaeth. Er enghraifft, bydd yr holl weithgareddau Marchnata a Recriwtio i ddenu myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir (ar wahân i allgymorth wedi'i dargedu) hefyd yn berthnasol i'r adran hon. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cael eu rhestru, ond ni ellir cynnwys y buddsoddiad ar gyfer gweithgareddau marchnata craidd/recriwtio myfyrwyr o dan Gyfle Cyfartal, felly mae wedi cael ei gynnwys yma. I osgoi dyblygu, nid yw'r gweithgareddau hyn wedi cael eu nodi eto yma.

## 8) Buddsoddi Incwm Ffioedd

Yng Nghynllun Ffioedd a Mynediad 2020-21, mae'r sefydliad wedi amcangyfrif y bydd yn buddsoddi £18.8m neu 17.6% (17.5% yn 2019-20) o gyfanswm y ffioedd incwm a ragwelir.

Rhennir y buddsoddiad hwn rhwng Cyfle Cyfartal (£12.46m) a Hyrwyddo Addysg Uwch (£6.35m). Mae'r buddsoddiad hwn hefyd yn cynnwys cyllid cyfatebol gwerth £282,332 (ar gyfer y Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach) a ddefnyddiwyd i ddatblygu a chyflawni Strategaeth Ymgyrraedd yn Ehangach y sefydliad.

Gellir gweld amcangyfrif o sut mae cyfanswm y buddsoddiad hwn wedi'i rannu ar draws amcanion yn y cynllun yn Atodiad B (taenlen Excel - tabl B).

## 9) Monitro Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

Cynllun blynyddol yw'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, felly nid yw'n ymarferol rhoi adroddiadau diweddaru rheolaidd i'r Cyngor drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd y cynllun perthnasol yn cael ei fonitro drwy'r broses werthuso a gaiff ei chyflwyno yng nghyfarfodydd y Cyngor bob mis Tachwedd, o hyn allan, cyn ei gyflwyno i CCAUC. Bydd hyn yn rhoi trosolwg gwell i'r Cyngor o gydymffurfiaeth â'r cynllun a'i berfformiad mewn meysydd allweddol, gan eu galluogi i lunio barn ynghylch sut gellir datblygu fersiwn nesaf y cynllun. Yn ogystal, bydd cyfarfodydd y Cyngor ym mis Mawrth yn allweddol, oherwydd y caiff drafft cyntaf y cynllun nesaf ei gyflwyno i'w drafod a'i gymeradwyo. Bydd awduron y cynllun yn cyflwyno cynllun 2020-21 i'r Cyngor ym mis Mawrth.

## 10) Gwerthuso effeithiolrwydd Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

Am y tro cyntaf, cyflwynodd y Brifysgol ei hunanwerthusiad o Gynllun Ffioedd a Mynediad 2017-18 i CCAUC. Tan i ni dderbyn adborth gan CCAUC ar ein hymagwedd at y broses werthuso, bydd y Brifysgol yn parhau i fabwysiadu'r ymagwedd ganlynol:

Mae Grŵp Datblygu Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol wedi cytuno ar yr ymagwedd ganlynol a amlinellwyd yn fras yng nghynlluniau 2018-19 a 2019-20. Cydnabuwyd ei bod yn hynod anodd gwerthuso cynllun mor sylweddol ac asesu cydymffurfiaeth/effaith pob gweithgaredd/menter. O ganlyniad, bydd y Brifysgol yn mabwysiadu'r ymagwedd ganlynol, a fydd yn cynnig gwerthusiad lefel uchel drwy asesu targedau, ac asesu mwy penodol o dri i bedwar amcan, yn seiliedig ar werthuso'r mentrau allweddol sy'n tanategu'r amcanion hynny.

Methodoleg werthuso:

- Nodi tri i bedwar amcan yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad i'w gwerthuso.
- Nodi'r gweithgareddau a'r mentrau allweddol sy'n tanategu'r amcanion hyn.
- Caiff pob gweithgaredd/menter allweddol ei werthuso gan ddefnyddio templed gwerthuso mewnol sy'n asesu cydymffurfiaeth, yn nodi nodau a thargedau/allbynnau allweddol ac yn adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd ar sail mesurau effaith/llwyddiant a nodwyd. Mae'r templed hefyd yn ceisio nodi unrhyw faterion neu opsiynau ar gyfer gwella/datblygu Cynlluniau Ffioedd a Mynediad y dyfodol.
- Cwrdd â'r bobl â chyfrifoldeb am weithgareddau a mentrau allweddol i'w tywys drwy'r broses werthuso.

- Pan fydd data am dargedau ar gael, adolygir targedau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad er mwyn nodi meysydd i'w gwella a helpu i dargedu gweithgarwch y dyfodol.
- Bydd canlyniadau'r gwerthusiad yn cael eu cyflwyno i Weithgor y Cynllun Ffioedd a Mynediad (sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Undeb y Myfyrwyr) a'r Cyngor ym mis Tachwedd 2021 er mwyn adolygu'r gwerthusiad a nodi datblygiadau a fydd yn cyfeirio cynllun 2020-21.

| Enw'r sefydliad: | Prifysgol Abertawe |
|---|---|

# Adran 3 Awdurdodi Cais Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020-21

**Awdurdodi Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020-21 i'w gyflwyno i CCAUC**

Wrth awdurdodi ceisiadau cynllun ffioedd a mynediad i'w cyflwyno i CCAUC, mae cyrff llywodraethu yn:

i. cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn y cais cynllun ffioedd a mynediad 2020-21 hwn yn gywir adeg ei ysgrifennu, a'i fod yn seiliedig ar ddata y gellir ei ddilysu.

ii. cadarnhau:
   a. ei bod hi'n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio data ariannol, ansawdd a/neu wybodaeth/ddata arall sydd ganddo am sefydliad a reoleiddir ar hyn o bryd, waeth a ddarparwyd yr wybodaeth/data yn wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 ai peidio

iii. deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld â sefydliadau i gael dealltwriaeth well o gymhwysedd mewn perthynas â threfnu a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynwyd mewn cynlluniau ffioedd a mynediad ac ansawdd yr addysg a ddarperir gan sefydliadau neu ar eu rhan.

iv. deall bod rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth, cymorth a mynediad i'w cyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar eu rhan, i CCAUC a/neu asiant CCAUC.

v. deall y gall CCAUC gynnal, neu drefnu i asiant gynnal, adolygiad mewn perthynas ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran sefydliadau, a rhaid i gyrff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a roddir iddynt gan CCAUC neu'r corff a benodwyd gan CCAUC at y diben hwn.

vi. cadarnhau bod yr holl addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran, waeth beth yw lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi cael ei chynnwys yn y cais cynllun ffioedd a mynediad hwn.

vii. cadarnhau bod y risg y bydd y sefydliad yn methu am resymau ariannol yn isel yn y tymor canolig i'r tymor hir.

viii. cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig ac nad yw'r archwilydd cofrestredig yr un cwmni a/neu unigolyn a baratôdd y cyfrifon.

ix. deall bod rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch.

x. deall bod rhaid cyflawni unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wnaed yn y cynllun ffioedd a mynediad gwreiddiol, fel y'i cymeradwywyd gan CCAUC.

| **Cyflwyniad cynllun ffioedd a mynediad 2020/21 i CCAUC[9]** | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu: | 25 Mawrth 2019 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu:<br>(pŵer dirprwyedig i'r Is-ganghellor i lofnodi) | |
| Dyddiad: | **25 Mawrth 2019** |
| **Cyflwyno cynllun ffioedd a mynediad 2020/21 wedi'i ddiweddaru/terfynol (lle bo'n berthnasol)** | |
| Dyddiad cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu: | 9 September 2019 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu: | |
| Dyddiad: | 9. 9. 19 |

[9]Ni chaiff cynlluniau ffioedd a mynediad a gyhoeddir ar wefannau sefydliadau gynnwys unrhyw ddyddiad ond dyddiad y fersiwn derfynol a gyflwynwyd gan y corff llywodraethu ac a gymeradwywyd gan CCAUC.

**Atodiad Ai** – Sut mae Amcanion Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020-21 yn cysylltu â Chategorïau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

## Cyfle Cyfartal

| | | Amcanion | |
|---|---|---|---|
| Categori Llywodraeth Cymru | Hyrwyddo a diogelu mynediad i addysg uwch, gan gynnwys nodi'r unigolion o grwpiau a dangynrychiolir sydd â'r potensial mwyaf. | **CC1 – Mynediad** – Hwyluso mynediad i addysg uwch drwy ymgysylltu â myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir, eu hysbrydoli a gwella eu sgiliau i ymgymryd ag astudio ar lefel Prifysgol. | **CC2** – Sicrhau bod myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn derbyn **gwybodaeth am gymorth ariannol** cyn ac ar ôl iddynt benderfynu astudio yn y Brifysgol. |
| | Denu darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir a'u cadw | **CC1 – Mynediad** – Hwyluso mynediad i addysg uwch drwy ymgysylltu â myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir, eu hysbrydoli a gwella eu sgiliau i ymgymryd ag astudio ar lefel Prifysgol. | **CC3 -Cadw** – Darparu cymorth cynhwysol ym maes llesiant, anabledd, lles a chymorth ariannol cynhwysol i alluogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i aros mewn addysg uwch a chwblhau eu hastudiaethau. |
| | Codi dyheadau a sgiliau addysgol pobl o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch | **CC1 – Mynediad** – Hwyluso mynediad i addysg uwch drwy ymgysylltu â myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir, eu hysbrydoli a gwella eu sgiliau i ymgymryd ag astudio ar lefel Prifysgol. | |
| | Cefnogi a chynyddu cyfraddau dilyniant a chwblhau gan bobl o grwpiau a dangynrychiolir | **CC4 – Dilyniant** – Darparu cymorth academaidd cynhwysol, o safon uchel, sy'n galluogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i wneud cynnydd yn eu hastudiaethau yn y brifysgol a gwireddu eu potensial. | |
| | Gwella profiad o addysg uwch ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch | **CC6 – Cydraddoldeb** - gwella cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da ymhlith y grwpiau amrywiol o fyfyrwyr a staff yn y Brifysgol a'r gymuned ehangach. | **CC1-5** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Darparu gwybodaeth effeithiol i grwpiau a dangynrychiolir cyn iddynt ddechrau eu hastudiaethau ac yn ystod eu cyfnod astudio | **CC2** – Sicrhau bod myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn derbyn **gwybodaeth am gymorth ariannol** cyn ac ar ôl iddynt benderfynu astudio yn y Brifysgol | |
| | Darparu cymorth academaidd a lles o safon uchel i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch | **CC4 – Dilyniant** - Darparu cymorth academaidd cynhwysol, o safon uchel, sy'n galluogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i wneud cynnydd yn eu hastudiaethau yn y brifysgol a gwireddu eu potensial. | **CC3 – Cadw** – Darparu cymorth cynhwysol ym maes llesiant, anabledd, lles a chymorth ariannol i alluogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i aros mewn addysg uwch a chwblhau eu hastudiaethau. |
| | Cefnogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch i symud ymlaen i gyflogaeth neu astudiaethau pellach. | **CC5 - Canlyniadau** – Cefnogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ym Mhrifysgol Abertawe a fydd yn arwain at gyflogaeth neu astudiaethau pellach. | |

## Hyrwyddo Addysg Uwch

| | | **Amcanion** | |
|---|---|---|---|
| Categori Llywodraeth Cymru | Ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol a chymunedau yng Nghymru. | **HAU – Partneriaethau Strategol Rhanbarthol** – Gweithio mewn partneriaethau ledled Cymru i gyflawni cenhadaeth addysg uwch y sefydliad, ehangu cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr a hyrwyddo dyheadau ein Cenhadaeth Ddinesig. | |
| | Gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gan gyfeirio at ansawdd profiad y myfyrwyr. | **HAU2 Profiad y Myfyrwyr** – Darparu gwasanaethau, cyfleusterau, ymyriadau a gweithgareddau sy'n gwella profiad y myfyrwyr, gan gynnwys gwella ansawdd yr addysgu. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cryfhau cyflogadwyedd graddedigion yng Nghymru | **HAU3 - Cyflogadwyedd** – Darparu gwasanaethau, cymorth a gweithgareddau i fyfyrwyr, mewn partneriaeth â chyflogwyr, sy'n cryfhau cyflogadwyedd graddedigion yng Nghymru | |
| | Hyrwyddo addysg uwch Cymru yn fwy effeithiol yn rhyngwladol | **HAU4 - Rhyngwladoli** – Darparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo addysg uwch Cymru'n rhyngwladol, gan arwain at recriwtio mwy o fyfyrwyr yn rhyngwladol a phartneriaethau rhyngwladol. | |
| | Darparu addysg uwch gynaliadwy | **HAU1 - Partneriaethau Strategol Rhanbarthol** – Gweithio mewn partneriaethau ledled Cymru i gyflawni cenhadaeth addysg uwch y sefydliad, ehangu cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr a hyrwyddo dyheadau ein Cenhadaeth Ddinesig. | **HAU4 - Rhyngwladoli** – Darparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo addysg uwch Cymru'n rhyngwladol, gan arwain at recriwtio mwy o fyfyrwyr yn rhyngwladol a phartneriaethau rhyngwladol. |
| | Codi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr | **HAU5 - Codi ymwybyddiaeth** o Brifysgol Abertawe a gwerth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr yn gyffredinol. | |

**Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21**
**Tabl A: Lefelau ffioedd a buddsoddiad ac incwm o ffioedd, 2020/21**

| | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad: | Swansea University |
| UKPRN y sefydliad: | 10007855 |

Rhaid cwblhau'r Atodiad hwn p'un a ydych wedi nodi lefelau ffioedd yn eich cynllun mynediad a ffioedd neu beidio. Rhaid i sefydliadau nad ydynt wedi nodi lefelau ffioedd gwblhau'r ddogfen hon gan ddefnyddio eu hincwm ffioedd disgwyliedig ar gyfer 2020/21. Rydym yn derbyn y ffigurau hyn fel rhagolwg yn unig, ac nid ymrwymiad i'r lefel

Rhaid nodi yn y tabl hwn ddata perthnasol i gyrsiau israddedig amser llawn a TAR (SAC) amser llawn rydych yn eu rheoli, sy'n dod o dan y drefn ffioedd bresennol yn 2020/21.

Os byddwch yn darparu cyrsiau sydd â blwyddyn allan, fel blwyddyn allan ar leoliad diwydiannol, neu flwyddyn dramor, a bod gwahanol lefelau o ffioedd yn cael eu codi am y blynyddoedd hyn, dylid ystyried hyn wrth gyfrif y ffi ar gyfartaledd a chyfanswm yr incwm ffioedd a gofnodir yn y tabl hwn.

Am ragor o arweiniad a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, edrychwch ar **Adran Pedwar** y cyfarwyddyd.

| | Rhowch Ydyn neu Nac y |
|---|---|
| Ydych chi wedi nodi lefel ffioedd yn eich cynllun mynediad a ffioedd?Gweler paragraff 75. | Ydyn |

a) Beth yw eich lefel ffioedd arfaethedig uchaf ar gyfer?

| | £ |
|---|---|
| Israddedigion amser llawn | 9,000 |
| TAR (SAC) amser llawn | 9,000 |

b) A yw'r ffioedd arfaethedig yn a) (uchod) yn cael eu codi am bob darpariaeth israddedig a TAR (SAC) amser llawn yn eich sefydliad neu a gânt eu darparu ar eich rhan?

| | Rhowch Ydy neu Nac y |
|---|---|
| Israddedigion amser llawn | Nac ydy |
| TAR (SAC) amser llawn | Ydy |

c) Os na, beth yw'r ffi gyfartalog (gymedrig) debygol i bob myfyriwr israddedig a TAR (SAC) amser llawn?

| | £ |
|---|---|
| Israddedigion amser llawn | 8,748 |
| TAR (SAC) amser llawn | 9,000 |
| Pob myfyriwr IR/TAR (SAC) amser llawn | 8,751 |

ch) Pa incwm trefn ffioedd bresennol ydych chi'n disgwyl ei dderbyn yn 2020/21? Dylech gynnwys yr holl incwm ffioedd a dderbynnir am bob myfyriwr israddedig amser llawn a TAR (SAC).

| | £ |
|---|---|
| Israddedigion amser llawn | 105,305,100 |
| TAR (SAC) amser llawn | 1,350,000 |
| **Cyfanswm** | **106,655,100** |

d) Rhowch fanylion am faint o incwm ffioedd rydych yn disgwyl ei fuddsoddi mewn perthynas â chyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch. Lle roedd gan ddarparwyr addysg uwch gynlluniau 2019/20 rhaid i'r gyfran o gyfanswm yr incwm a fuddsoddwyd yn 2020/21 fod o leiaf y gyfran a fuddsoddwyd yn 2019/20. Yn achos yr ymgeiswyr hynny, mae CCAUC wedi darparu isod swm a chanran cyfanswm incwm 2019/20.

| | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm i'w fuddsoddi yn y canlyn | £ | % o gyfanswm yr incwm | £ | % o gyfanswm yr incwm |
| Cyfle cyfartal | 12,462,346 | 11.7% | 13,046,845 | 11.3% |
| Hyrwyddo addysg uwch | 6,352,811 | 6.0% | 7,255,489 | 6.3% |
| **Cyfanswm** | **18,815,157** | **17.6%** | **20,302,334** | **17.5%** |

**Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21**
**Tabl B: Rhagolwg gwariant incwm y cynllun mynediad a ffioedd, 2020/21**

Institution name: Swansea University
Institution UKPRN: 10007855

Rhaid cofnodi rhagolwg gwariant yr incwm ffioedd a gofnodwyd yn Nhabl A, a ddarparwyd yn erbyn y categorïau isod, yn y tabl hwn.

**Nodyn cyfarwyddyd**

Mae'r tabl hwn yn casglu gwybodaeth am y buddsoddiad sydd wedi'i ymrwymo i gyflawni pob amcan sydd wedi'i nodi yn eich cynllun mynediad a ffioedd (gweler paragraffau 102 i 106), y buddsoddiad sydd wedi'i ymrwymo i werthuso cynlluniau mynediad a ffioedd, y buddsoddiad sydd wedi'i ymrwymo i bartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach a chymorth ariannol i fyfyrwyr.

Nodwch yr amcanion **rydych wedi'u dewis** yn y tabl isod, a'r incwm disgwyliedig ar gyfer 2020/21 i'w fuddsoddi ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn.

Dylai'r sefydliadau hynny nad ydynt wedi nodi ffioedd yn eu cynllun gwblhau'r tabl yn seiliedig ar y ffioedd maent yn disgwyl eu codi ar gyfer 2020/21. Nid yw hyn yn ymrwymo sefydliadau i'r ffi hon.

**Rhaid i fuddsoddiad er mwyn cyflawni amcanion i wella cyfleoedd cyfartal ymwneud â grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch yn unig.**

Bydd gweithgareddau cymorth ariannol i fyfyrwyr yn rhan o gyfanswm buddsoddiad yr ymgeisydd mewn amcanion i gefnogi cyfleoedd cyfartal a/neu hybu addysg uwch (fel y nodir yn Nhabl B (a) a (b)).
Mae Tabl B (d) isod yn gofyn i ymgeisydd nodi ar wahân y buddsoddiad disgwyliedig mewn gweithgareddau cymorth ariannol i fyfyrwyr **sydd eisoes wedi'u cynnwys** yn (a) a (b).

Dylai ymgeiswyr ddatgan lefel eu gwariant yn erbyn pob amcan. Bydd rhaid i'r holl amcanion fod â gwariant wedi'i nodi yn eu herbyn.

Os yw gwariant yn cael ei nodi yn erbyn mwy nag un amcan, dylid ei rannu rhwng amcanion. Dylai cyfanswm y gwariant yn erbyn a) a b) gyd-fynd â'r cyfatebol a nodir yn Nhabl A.

Am ragor o gyfarwyddyd a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, gweler **Adran Pedwar** y cyfarwyddyd.

**Rhagolwg gwariant incwm y cynllun mynediad a ffioedd 2020/21**

a) Cyfle cyfartal

| **Amcanion i wella cyfleoedd cyfartal** | 2020/21<br>£ | 2019/20<br>£ |
|---|---|---|
| 1. Denu – Ysbrydoli a recriwtio myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i astudio ym Mhrifysgol Abertawe | 4,373,972 | |
| 2. Sicrhau bod myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn derbyn gwybodaeth effeithiol (gan gynnwys gwybodaeth am gymorth ariannol) cyn ac ar ôl iddynt benderfynu astudio yn y Brify | 726,881 | |
| 3. Cadw myfyrwyr – Darparu gwasanaethau llesiant a chymorth ariannol cynhwysol i gefnogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i aros ym maes addysg uwch a chwblhau eu hastudia | 4,211,080 | |
| 4. Cynnydd – Darparu gwasanaethau cymorth academaidd a bugeiliol cynhwysol ac o safon uchel sy'n cefnogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i wneud cynnydd drwy eu hastudia | 1,997,456 | |
| 5. Canlyniadau – Cefnogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ym maes addysg uwch a fydd yn arwain at waith neu astudiaethau pellach. | 1,102,958 | |
| 6. Cydraddoldeb – Gwella'r cyfleoedd cyfartal sydd ar gael a meithrin perthnasoedd da ymhlith y grwpiau myfyrwyr a staff amrywiol yn y Brifysgol a'r gymuned ehangach. | 50,000 | |
| 7. | | |
| 8. | | |
| 9. | | |
| 10. | | |
| **Cyfanswm** | **12,462,346** | **13,046,845** |
| Canran y gwariant disgwyliedig i'w wario ar gyfle cyfartal | 11.7% | |

b) Hyrwyddo AU

| **Amcanion i hyrwyddo addysg uwch** | 2020/21 £ | 2019/20 £ |
|---|---|---|
| 1. Partneriaethau Strategol Rhanbarthol – Cynnig partneriaethau yng Nghymru sy'n cyflawni cenhadaeth Addysg Uwch y Sefydliadau, yn ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr ac yn datblygu eir | 450,000 | |
| 2. Profiad y Myfyrwyr – Darparu gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau sy'n gwella profiad y myfyrwyr gan gynnwys gwella ansawdd yr addysgu. | 480,000 | |
| 3. Cyflogadwyedd – Darparu gwasanaethau, cymorth a gweithgareddau i fyfyrwyr mewn partneriaeth â chyflogwyr, sy'n gwella cyflogadwyedd graddedigion o Gymru | 421,125 | |
| 4. Rhyngwladoli – Darparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo addysg uwch Cymru'n rhyngwladol, gan arwain at recriwtio mwy o fyfyrwyr yn rhyngwladol a phartneriaetha | 2,617,112 | |
| 5. Codi ymwybyddiaeth o Brifysgol Abertawe a gwerth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr yn gyffredinol. | 2,384,573 | |
| 6. | | |
| 7. | | |
| 8. | | |
| 9. | | |
| 10. | | |
| **Cyfanswm** | **6,352,811** | **7,255,489** |
| Canran y gwariant disgwyliedig i'w wario ar hyrwyddo addysg uwch | 6.0% | |

c) Gwerthusiad

| | 2020/21 £ |
|---|---|
| Buddsoddiad mewn gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau mynediad a ffioedd | 5,000 |

ch) Cyfanswm gwariant disgwyliedig incwm cynllun mynediad a ffioedd 2020/21, a) + b) + c)

| 2020/21 £ | 2019/20 £ |
|---|---|
| **18,820,157** | **20,302,334** |

d) Ymgyrraedd yn Ehangach

| | 2020/21 £ | 2019/20 £ |
|---|---|---|
| Buddsoddiad i gefnogi'r Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach | 282,332 | 282,332 |

dd) Cymorth ariannol i fyfyrwyr (eisoes wedi'u cynnwys yn a) a b) uchod)

| | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | Niferoedd myfyrwyr a gynorthwyir a ragwelir | £ | Niferoedd myfyrwyr a gynorthwyir a ragwelir |
| Hepgor ffioedd | | | 0 | 0 |
| Bwrsariaethau | 2,106,000 | 1,600 | 3,383,000 | 3,100 |
| Ysgoloriaethau | 929,312 | 1,100 | 906,647 | 1,100 |
| Cronfeydd caledi | 431,144 | 900 | 323,000 | 1,100 |
| Darparu cyngor a sgiliau rheoli ariannol | 291,947 | 13,000 | 291,947 | 12,000 |
| Cymorth ariannol arall | | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3,758,403** | **16,600** | **4,904,594** | **17,300** |
| Canran o'r rhagolwg gwariant i'w wario ar gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr | 20.0% | | 24.2% | |

Os yw'r cyfanswm i'w fuddsoddi yn 2020/21 yn llai nag yr oedd yn 2019/20 rhowch sylwadau isod:

Rhagwelir y bydd swm y cymorth ariannol i fyfyrwyr yn llai yn 2020-21 oherwydd bod y cynllun bwrsariaeth ar sail incwm yn 2019-20 yn dod i ben. Bydd y gyllideb hon yn parhau i ostwng wrth i'r cynllun gael ei ddirwyn i ben a chaiff ymrwymiadau i fyfyrwyr presennol eu cwblhau. Fodd bynnag, ar gyfer 2020-21 mae'r Brifysgol wedi penderfynu ail-fuddsoddi bron £1,000,000 o'r gyllideb hon a neilltuwyd ar gyfer bwrsariaethau ar sail incwm i weithgareddau sy'n mynd i'r afael â thangynrychioli neu wella'r hyn rydym yn ei gynnig i grwpiau a dangynrychiolir. Mae £240,000 wedi'i gynnwys yn y tabl uchod (cyllideb uwch i ymadawyr gofal, myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd a gofalwyr) ac mae'r £760,000 arall yn ymddangos mewn rhannau o'r cynllun megis arian i sefydlu Uned Ehangu Cyfranogiad y Brifysgol a'n Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Sefydliadol a ariennir yn gyfatebol.

**Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21**
**Tabl C: Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig amser llawn a TAR (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol, 2020/21**

Institution name: Swansea University
Institution UKPRN: 10007855

Dylid llenwi'r tabl hwn pan mae'r canlynol yn berthnasol:
- rydych yn cynnig codi gwahanol ffioedd ar gyfer gwahanol gyrsiau neu grwpiau, ar gyfer y ddarpariaeth israddedig amser llawn a TAR (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol.
- rydych yn cynnig codi'r un ffi ar gyfer yr holl gyrsiau neu grwpiau, ar gyfer y ddarpariaeth israddedig amser llawn a TAR (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol, ond mae gennych ddarpariaeth nad ydych yn e

Os codir gwahanol ffioedd am wahanol gyrsiau neu grwpiau, neu mae gennych chi ddarpariaeth nad ydych yn ei dilysu eich hun, bydd y data yn y tabl hwn a'r data a gofnodir yn Nhabl D yn rhoi fel cyfanswm yr un ffi ar gyfartaledd a'r incwm ffioedd cyffredinol ag a nodwyd yn Nhabl A.

Dylai'r sefydliadau hynny nad ydynt wedi nodi ffioedd yn eu cynllun gwblhau'r tabl yn seiliedig ar y ffioedd maent yn disgwyl eu codi ar gyfer 2020/21. Nid yw hyn yn ymrwymo sefydliadau i'r ffi hon.

Mae'r cyfarwyddyd isod yn nodi categorïau'r cyrsiau y dylid ac ni ddylid cofnodi gwybodaeth ar eu cyfer. Sylwer bod yr wybodaeth am y ddarpariaeth a gyflwynir o dan drefniadau partneriaeth yn cael ei chasglu

**Nodyn cyfarwyddyd**

**Cofiwch gynnwys** gwybodaeth am gyrsiau:
- Rydych chi'n eu darparu a'u rheoli ac sy'n cael eu dilysu gan gorff arall ond nid ydynt yn rhan o drefniant masnachfraint.
- Rydych chi'n eu darparu, eu rheoli a'u dilysu eich hun.
- Rydych chi'n eu darparu a'u rheoli, sy'n cael eu dilysu gennych chi, neu riant gorff neu gorff arall, ble rydych chi'n is-gorff i'r rhiant-gorff, ac nid yw eich rhiant-gorff yn cynnwys y cyrsiau yn ei gynllun mynedia

**Peidiwch â chynnwys** gwybodaeth am gyrsiau:
- Rydych chi'n eu rhoi allan ar fasnachfraint i ddarparwr arall.
- Rydych chi'n eu darparu ar ran darparwr arall drwy gyfrwng cytundeb masnachfraint.
- Nad ydych chi'n eu darparu, ond yn eu dilysu yn unig.
- A gyflwynir gan is-gorff, os mai chi yw'r rhiant-gorff i'r is-gorff hwnnw, p'un ai yw'r is-gorff yn cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun ai peidio.

Os byddwch yn darparu cyrsiau sydd â blwyddyn allan ar leoliad diwydiannol, neu flwyddyn dramor, a bod gwahanol lefelau o ffioedd yn cael eu codi am y blynyddoedd hyn, dylech gofnodi data yn y tabl hwn i adlewyrchu'r gwahanol lefelau o ffioedd a godir. Er enghraifft, gall hyn olygu eich bod yn cofnodi un rhes o ddata ar gyfer yr holl gyrsiau a grwpiau sy'n talu ffi hyfforddi o £9,000 ac un rhes o ddata ar gyfer grwpiau sy'n cymryd blwyddyn allan ac yn talu ffi o £1,800.

Dylech gategoreiddio eich darpariaeth yn wahanol lefelau o ffioedd yn ôl nod cymhwyster a/neu bwnc a/neu flwyddyn (blynyddoedd) y cwrs, fel sy'n briodol isod. Mae'r meysydd (dyfarniad cymhwyster a phwnc) yn feysydd testun rhydd felly os yw grŵp arall yn fwy priodol, rhowch wybodaeth am y grŵp hwn yn y meysydd hyn.

Wrth lenwi colofn blwyddyn/blynyddoedd y cwrs, nodwch bob blwyddyn y mae'r ffi'n berthnasol iddynt, er enghraifft, '1, 2' neu 'Pob Un'. Dylid defnyddio '0' ar gyfer blynyddoedd sylfaen.

Os ydych yn codi'r un ffi ar gyfer yr holl gyrsiau neu grwpiau ond bod gennych ddarpariaeth nad ydych yn ei dilysu eich hun, dylech gynnwys eich holl ddarpariaeth israddedig amser llawn a TAG (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol. Dylid cynnwys rhes o ddata ar gyfer pob corff dilysu a rhes o ddata ar gyfer unrhyw ddarpariaeth rydych yn ei dilysu eich hun.

Ar gyfer pob categori sydd wedi'i gynnwys rhowch fanylion am nifer disgwyliedig y myfyrwyr.

Am ragor o arweiniad a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, edrychwch ar A**dran Pedwar** y cyfarwyddyd.

| Crynodeb o'r data | RADDEDIGION AMSER LLAW | TAR (SAC) AMSER |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr incwm disgwyliedig | 104,822,100 | 1,350,000 |
| Cyfanswm nifer disgwyliedig y myfyrw | 11,976 | 150 |
| Ffi gyfartalog | 8,753 | 9,000 |

| Rhes | Ffi arfaethedig £ | Nod y cymhwyster (neu ddull arall o grwpio) | Pwnc (neu ddull arall o grwpio) | Blwyddyn/ blynyddoedd y cwrs | TAR (SAC) Y/N? | Nifer rhagdybiedig myfyrwyr a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r ffi gyfartalog | A yw'r ddarpariaeth hon yn cael ei dilysu gan gorff arall? Y neu N | Os Y, rhowch enw'r corff dilysu | Cyfanswm yr incwm disgwyliedig (nifer y myfyrwyr x ffi arfaethedig) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 9,000 | Anrhydedd Gradd Baglor<br><br>Tystysgrif Addysg Uwch (cwrs amser llawn 1 flwyddyn)<br><br>Gradd gyntaf ym maes iechyd/milfeddygol neu gymhwysedd yn seiliedig ar gymwysterau blaenorol i ddechrau ar gwrs ym mlynyddoedd 2 neu 3<br><br>Diploma a chymhwysedd ar gyfer iechyd/milfeddygol<br><br>Gradd Gyntaf Uwch (gradd 4 blynedd sy'n arwain at gymhwyster Meistr) | | Pob blwyddyn oni bai am flwyddyn dramor neu mewn diwydiant | N | 11,575 | N | | 104,175,000 |
| 2 | 1,350 | Anrhydedd Gradd Baglor – blwyddyn dramor<br><br>Gradd Gyntaf Uwch – blwyddyn dramor | | Blwyddyn 3 | N | 166 | N | | 224,100 |
| 3 | 1,800 | Anrhydedd Gradd Baglor – blwyddyn mewn diwydiant (blwyddyn 3)<br><br>Gradd Gyntaf Uwch – blwyddyn mewn diwydiant (blwyddyn 4) | | Blwyddyn 3 neu 4 | N | 235 | N | | 423,000 |
| 4 | 9,000 | TAR | | Blwyddyn 1 | Y | 150 | N | | 1,350,000 |

**Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21**
**Tabl D: Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig amser llawn a TAR (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol ar gyfer darpariaeth partneriaeth yn y DU, 2020/21**

Institution name: Swansea University
Institution UKPRN: 10007855

Dylai'r tabl hwn gael ei lenwi gan yr holl ddarparwyr sy'n rhoi masnachfraint i ddarparwyr elusennol eraill sy'n elusennau neu'n rhiant gyrff i is-gyrff elusennol nad ydynt yn cyflwyno eu cynllun mynediad a ffioedd eu hunain, ar gyfer darpariaeth israddedig a TAR (SAC) amser llawn o dan y drefn ffioedd bresennol. Dim ond os yw'r darparwr arall neu'r is-gorff yn y DU a'r myfyrwyr yn y DU y dylid llenwi'r tabl hwn.
Os codir gwahanol ffioedd ar gyfer gwahanol gyrsiau, neu os oes darpariaeth sy'n cael ei dilysu gan gorff arall ar wahân i'r darparwr sy'n cyflwyno, bydd y data yn y tabl hwn a'r data a nodir yn Nhabl C yn rhoi'r un ffi gyfartalog fel cyfanswm, a'r un incwm ffioedd cyffredinol â'r incwm a nodir yn Nhabl A.Os yw lefel y ffioedd yr un fath ar gyfer yr holl gyrsiau israddedig/TAR (SAC) amser llawn o dan y drefn ffioedd bresennol, fel y nodir yn Nhabl A, bydd y lefel ffioedd a nodir yn y tabl hwn yn gyfartal a'r un fath â'r lefel ffioedd a nodir yn Nhabl A.
Dylai'r sefydliadau hynny nad ydynt wedi nodi ffioedd yn eu cynllun gwblhau'r tabl yn seiliedig ar y ffioedd maent yn disgwyl eu codi ar gyfer 2020/21. Nid yw hyn yn ymrwymo sefydliadau i'r ffi hon.

Mae'r cyfarwyddyd isod yn nodi'r categorïau o gyrsiau y dylid ac ni ddylid cofnodi gwybodaeth ar eu cyfer.

**Nodyn cyfarwyddyd**

**Cofiwch gynnwys** gwybodaeth am gyrsiau:
- Rydych chi'n eu rhoi allan ar fasnachfraint i ddarparwr arall.
- A gyflwynir gan is-gorff, os mai chi yw rhiant-gorff yr is-gorff hwnnw, p'un ai yw'r is-gorff yn cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun ai peidio.

**Peidiwch â chynnwys** gwybodaeth am gyrsiau:
- Rydych chi'n eu darparu ar ran darparwr arall drwy gyfrwng cytundeb masnachfraint.
- Rydych chi'n eu darparu a'u rheoli ac sy'n cael eu dilysu gan gorff arall ond nid ydynt yn rhan o drefniant masnachfraint.
- Rydych chi'n eu darparu, eu rheoli a'u dilysu eich hun.
- Rydych chi'n eu darparu a'u rheoli, sy'n cael eu dilysu gennych chi, neu eich rhiant-gorff neu gorff arall, ble rydych chi'n is-gorff i'r rhiant-gorff.
- Nad ydych chi'n eu darparu, ond yn eu dilysu yn unig.
- A gyflwynir gan is-gorff, os mai chi yw rhiant-gorff yr is-gorff hwnnw, p'un ai yw'r is-gorff yn cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun ai peidio.

Rydych chi'n eu rhoi allan ar fasnachfraint i ddarparwr heb fod yn elusennol.
A gyflwynir gan is-gorff heb fod yn elusennol, os mai chi yw rhiant-gorff yr is-gorff hwnnw.

Wrth lenwi colofn blwyddyn/blynyddoedd y cwrs, nodwch bob blwyddyn y mae'r ffi'n berthnasol iddynt, er enghraifft, '1, 2' neu 'Pob Un'. Dylid defnyddio '0' ar gyfer blynyddoedd sylfaen.

Os llofnodwyd cytundebau partneriaeth cyn 1 Medi 2015 cadarnhewch eu bod yn cynnwys atodiad sy'n cadarnhau bod y ddarpariaeth yn dod o dan y Ddeddf AU.
**Os nad oes atodiad o'r fath yn bodoli, mae angen esboniad a dylid ei gyflwyno gydag Atodiad A sydd wedi'i gwblhau.**

Am ragor o arweiniad a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, edrychwch ar A**dran Pedwar** y cyfarwyddyd.

| **Crynodeb o'r data** | ISRADDEDIGION AMSER LLAWN | TAR (SAC) AMSER LLAWN |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr incwm disgwyliedig | 483,000 | 0 |
| Cyfanswm nifer disgwyliedig y myf | 62 | 0 |
| Ffi gyfartalog | 7,790 | |

| Rhes | Enw'r partner | Cyfeiriad y partner | Cadarnhewch fod y partner yn elusen (*Cadarnhawyd*) | Nod y cymhwyster Dewiswch oddi ar gwymprestr | Teitl y cwrs | Dyddiad y cytundeb partneriaeth DD/MM/BBBB | Os yw dyddiad y cytundeb partneriaeth cyn 1 Medi 2015, ceir atodiad sy'n cadarnhau bod y ddarpariaeth yn dod o dan y Ddeddf AU (*Cadarnhawyd*) | Blwyddyn/blynyddoedd y cwrs | Nifer rhagdybiedig y myfyrwyr a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r ffi gyfartalog | Ffi arfaethedig £ | Cyfanswm yr incwm disgwyliedig (nifer y myfyrwyr x ffi arfaethedig) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Coleg Cambria | Kelsterton Road, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 4BR | Cadarnhawyd | (c) gradd sylfaen | FdSc Rheoli Busnes Cymhwysol i'w chyflwyno'n hyblyg i alluogi myfyrwyr i astudio'n amser llawn neu'n rhan-amser | 31.07.17 | Cadarnhawyd | 1 a 2 | 30 | 7,500 | 225,000 |
| 2 | Coleg Cambria | Kelsterton Road, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 4BR | Cadarnhawyd | (c) gradd sylfaen | FdEng Peirianneg Uwch-weithgynhyrchu | 31.07.17 | Cadarnhawyd | 1 a 2 | 20 | 7,500 | 150,000 |
| 3 | Coleg Cambria | Kelsterton Road, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 4BR | Cadarnhawyd | (a) gradd gyntaf | BSc Rheolaeth Busnes Cymhwysol | 31.07.17 | Cadarnhawyd | 1 | 12 | 9,000 | 108,000 |

**Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21**
**Tabl G: Targedau**

Institution name: Swansea University
Institution UKPRN: 10007855

**Nodyn cyfarwyddyd**

Dylai cynllun mynediad a ffioedd gynnwys targedau sefydliadol SMART sy'n cyfrannu at ddangos ymrwymiad yr ymgeisydd i gynyddu a/neu gynnal nifer y myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch, neu amcanion eraill y cynllun mynediad a ffioedd, fel sy'n briodol.Dylai'r targedau ddangos lefel yr uchelgais, amseriad y cynnydd a'r pellter i'w deithio gan ymgeiswyr o ganlyniad i ddarpariaeth a buddsoddiad y cynllun mynediad a ffioedd.

Mae CCAUC yn derbyn nad yw'n fuddiol nac yn ystyrlon pennu targedau yn holl feysydd y cynllun mynediad a ffioedd. Dylai'r cynlluniau gynnwys targedau digonol i ddarparu cofnod llawn o lefel y buddsoddiad cyhoeddus mae'r cynllun yn ymwneud ag ef, a'r elw arno.Bydd lefel y buddsoddiad cyhoeddus yn wahanol rhwng sefydliadau, a hefyd nifer y targedau.

Ar gyfer targedau rhifol, dylai'r wybodaeth gyd-destunol neu'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrif y targed gael eu cynnwys lle bo hynny'n briodol, ar ffurf niferoedd poblogaeth, neu niferoedd neu ganrannau o'r grŵp penodol y mae'r targed yn berthnasol iddo, os nad yw'r rhain wedi'u cynnwys fel y targed.Er enghraifft, os yw cynnydd yn y ganran o fyfyrwyr sydd o grŵp penodol yn rhan o'r targed, neu os yw'r newid yn y ganran o fyfyrwyr o grŵp penodol yn rhan o ddisgrifydd y targed, dylech gynnwys yn yr wybodaeth gyd-destunol y nifer disgwyliedig o'r grŵp hwn a/neu'r boblogaeth ddisgwyliedig o fyfyrwyr y mae'r ganran wedi'i seilio arni.Dylai nifer y boblogaeth fod yn gyson â'r wybodaeth arall sydd wedi'i darparu yn yr Atodiad hwn a'ch rhagolygon diweddaraf, h.y. y rhai a ddychwelwyd i CCAUC ym mis Gorffennaf 2018, wedi'u diweddaru fel sy'n briodol os oes gwybodaeth ychwanegol ar gael.Dim ond ar gyfer targedau 2020/21 mae hyn yn ofynnol a'r data gwaelodlin, ac nid ar gyfer targedau ymhellach yn y dyfodol.

Wrth fonitro targedau sydd â rhif neu ganran fel y targed, byddwn yn sylfaenu ein penderfyniad ar a yw'r targed wedi'i gyrraedd neu heb ei gyrraedd ar yr ystadegyn targed. Defnyddir yr wybodaeth gyd-destunol i ddeall yn llawnach a yw unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn y targed yn trosi i wahaniaethau yn nifer y myfyrwyr o grwpiau penodol lle mae'r canrannau'n cael eu rhoi, neu mewn canrannau lle mae rhifau'n cael eu rhoi.

Am ragor o arweiniad a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, edrychwch ar **Adran Pedwar** y cyfarwyddyd.

| Rhes | Disgrifiad o'r targed (dim mwy na 500 nod) | Amcan cysylltiedig (fel y rhestrir yn nhabl B a) a B b)) | A yw cyflawni'r targed yn gyfrifoldeb i fwy nag un ymgeisydd cynllun mynediad a ffioedd? | | wyddyn sylfae | Data sylfaen | | Targed | | Targedau tymor hwy dewisol | | | | Rhowch sylwadau ar dargedau 2020/21 os nad yw disgrifiadau rhifiadol yn briodol, neu os oes angen darparu gwybodaeth arall.Byddem yn disgwyl bod mwyafrif y targedau yn rhai rhifiadol. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | 2020/21 | | 2021/22 | | 2022/23 | | |
| | | | Y / N | Os Y, rhowch enw'r partner/partneriaid | | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | |
| 1 | **Myfyrwyr incwm isel - Diffyg dilyniant** - Canran y myfyrwyr israddedig amser llawn, yn eu blwyddyn gyntaf (gradd gyntaf) sy'n dod o deulu incwm isel (llai na £30k), nad ydynt bellach mewn addysg uwch ar ôl eu blwyddyn derbyn [ar sail poblogaeth blwyddyn 1 PI HESA sy'n byw yn y DU, ac eithrio myfyrwyr israddedig eraill, FPE]. | EoP3 | N | | 2016-17 | 86 | 7.7% | 71 | 6.7% | | 6.2% | | 5.7% | |
| 2 | **Plant sy'n derbyn gofal (LAC)** - nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n astudio gradd israddedig gyntaf yn y Brifysgol (Myfyrwyr FPE blwyddyn gyntaf). | EoP1, PoHE5 | N | | 2017-18 | 20 | 0.4% | 24 | 0.4% | 26 | 0.4% | 28 | 0.4% | |
| 3 | **Mesur cenedlaethol 7a - Cyfrwng Cymraeg** - Nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n dilyn **a) o leiaf 5 o gredydau** eu cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn. | EoP1, EoP4 | N | | 2017-18 | 340 | | 500 | | 520 | | 540 | | |
| 4 | **Mesur cenedlaethol 7b - Cyfrwng Cymraeg** - Nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n dilyn **b) o leiaf 40 o gredydau** eu cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn. | EoP1, EoP4 | N | | 2017-18 | 175 | | 200 | | 210 | | 220 | | |
| 5 | **Myfyrwyr anabl - Cyfranogiad** - Canran y myfyrwyr israddedig, gradd gyntaf yn eu blwyddyn gyntaf (FPE) sydd wedi datgan anabledd. | EoP1, PoHE5 | N | | 2017-18 | 526 | 9.9% | 559 | 10.2% | | 10.3% | | 10.4% | |
| 6 | **Myfyrwyr anabl - Diffyg dilyniant** - Canran y myfyrwyr israddedig amser llawn, gradd gyntaf yn eu blwyddyn gyntaf (FPE) sydd wedi datgan anabledd, nad ydynt bellach mewn addysg uwch ar ôl eu blwyddyn derbyn [yn seiliedig ar boblogaeth blwyddyn 1 PI HESA, sy'n byw yn y DU, ac eithrio myfyrwyr israddedig eraill]. | EoP3 | N | | 2016-17 | 40 | 7.4% | 34 | 6.8% | | 6.6% | | 6.4% | |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | **Myfyrwyr BAME (byw yn y DU)** - Cyfranogiad - Canran y myfyrwyr israddedig, gradd gyntaf, yn eu blwyddyn gyntaf sy'n byw yn y DU (FPE) o gefndir BAME. | EoP1, PoHE5 | N | | 2017-18 | 620 | 14.0% | 685 | 15.0% | | 15.5% | | 16.0% | |
| 8 | **Myfyrwyr BAME (byw yn y DU) - Diffyg dilyniant** - Canran y myfyrwyr amser llawn, israddedig, gradd gyntaf yn eu blwyddyn gyntaf, sy'n byw yn y DU (FPE) o gefndir BAME, nad ydynt bellach mewn addysg uwch ar ôl eu blwyddyn derbyn [yn seiliedig ar boblogaeth blwyddyn 1 PI HESA, sy'n byw yn y DU, ac eithrio myfyrwyr israddedig eraill]. | EoP3 | N | | 2016-17 | 41 | 7.7% | 48 | 7.0% | | 6.5% | | 6.0% | |
| 9 | **Rhyngwladoli** - Nifer y myfyrwyr tramor fel canran o'r holl fyfyrwyr. (FPE ar sail cartref yn HESA) | PoHE3 | N | | 2017-18 | 2,802 | 13.7% | 2,942 | 14.0% | | 14.2% | | 14.4% | Gyda'r farchnad yn y DU, bydd y gystadleuaeth am fyfyrwyr tramor yn fwy - ychwanegwyd targedau twf llai |
| 10 | **Profiad y myfyrwyr** - Canran y myfyrwyr sy'n fodlon ar y profiad cyffredinol (NSS) | PoHE2 | N | | 2017-18 | | 89.0% | | 90.0% | | 90.5% | | 91.0% | |
| 11 | **Cyflogadwyedd graddedigion** - Canran ymadawyr o Brifysgol Abertawe sydd mewn cyflogaeth broffesiynol neu sy'n dilyn astudiaethau pellach ar lefel raddedigion bymtheg mis ar ôl gadael. [Yn seiliedig ar gyfrifiad Times University Guide sy'n ymwneud ag ymadawyr amser llawn, gradd gyntaf sy'n byw yn y DU gan ddefnyddio codau SOC 2010 am gyflogaeth broffesiynol] | PoHE3, PoHE5 | N | | 2016-17 | | 85.6% | | 85.5% | | 86.5% | | 87.5% | Carfan 2016-17 yw'r gwaelodlin Adroddir ar garfan 2017-18 yn 2020 o dan yr arolwg Hynt Graddedigion newydd |
| 12 | **Cyflogadwyedd graddedigion- WIMD** - Canran ymadawyr o Brifysgol Abertawe sy'n byw yn nau chwartel isaf yr WIMD sydd mewn cyflogaeth broffesiynol neu'n dilyn astudiaethau pellach ar lefel raddedig bymtheg mis ar ôl gadael (gan ddefnyddio'r arolwg Hynt Graddedigion newydd).[Yn seiliedig ar gyfrifiad Times University Guide sy'n ymwneud ag ymadawyr amser llawn, gradd gyntaf sy'n byw yn y DU gan ddefnyddio codau SOC 2010 am gyflogaeth broffesiynol] | EoP5, PoHE5 | N | | n/a | | n/a | | 85.5% | | 86.5% | | 87.5% | Carfan 2016-17 yw'r gwaelodlin Adroddir ar garfan 2017-18 yn 2020 o dan yr arolwg Hynt Graddedigion newydd |
| 13 | **Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD)** - Nifer y cyrsiau DPP byr | PoHE1, PoHE5 | N | | 2017-18 | 15 | | 20 | | | | | | |
| 14 | **Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD)** - Nifer y dysgwyr proffesiynol sydd wedi cofrestru | PoHE1, PoHE5 | N | | 2017-18 | | | 150 | | | | | | |
| 15 | **Mesur cenedlaethol 1a** - Nifer a chanran yr holl fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru o bob oedran sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, sy'n byw yn y **a) ddau gwartel isaf** o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (WIMD) | EoP1, PoHE5 | N | | 2017-18 | 3,020 | 33.8% | 3,129 | 34.0% | | 34.3% | | 34.6% | Gosodwyd ein targed 2020-21 yn unol â marchnad y DU, sy'n golygu y bydd mwy o gystadleuaeth am fyfyrwyr o Gymru o faes cystadleuol ehangach. Er gwaethaf ein hymdrechion a'n mentrau, rydym yn dal i gredu y bydd twf yn araf iawn am yr ychydig flynyddoedd nesaf. |
| 16 | **Mesur cenedlaethol 1b** - Nifer a chanran yr holl fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru o bob oedran sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, sy'n byw yn **a) y chwartel isaf** o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (WIMD) | EoP1, PoHE5 | N | | 2017-18 | 1,400 | 15.7% | 1,472 | 16.0% | | 16.3% | | 16.6% | Fel uchod |
| 17 | **Mesur cenedlaethol 2** - Cyfranogiad - Nifer a chanran yr holl fyfyrwyr sy'n byw yn y DU o bob oedran sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, sy'n dod o ardaloedd cyfranogiad isel yn y DU. | EoP1, PoHE5 | N | | 2017-18 | 5,130 | 30.9% | 5,325 | 31.2% | | 31.5% | | 31.8% | Fel uchod ond cyfeiriad at fyfyrwyr o Gymru a Lloegr ac effaith bosibl Augar |
| 18 | **Mesur cenedlaethol 3a** - Cadw myfyrwyr - Canran y myfyrwyr israddedig amser llawn mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sydd mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl eu blwyddyn derbyn ar gyfer **a) myfyrwyr sy'n byw yn y DU** | EoP3 | N | | 2016-17 | 4,150 | 95.9% | 4,277 | 96.0% | | 96.0% | | 96.0% | |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19 | **Mesur cenedlaethol 3b** - Cadw myfyrwyr - Canran y myfyrwyr israddedig amser llawn mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sydd mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl eu blwyddyn derbyn ar gyfer **b) myfyrwyr sy'n byw yn y ddau gwartel isaf o'r WIMD** | EoP3 | N | | 2016-17 | 660 | 94.7% | 687 | 96.0% | | 96.0% | | 96.0% | |
| 20 | **Mesur cenedlaethol 3c** - Cadw myfyrwyr - **canran y myfyrwyr gradd gyntaf ran-amser** mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sydd mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl eu blwyddyn derbyn ar gyfer **c) myfyrwyr sy'n byw yn y DU** | EoP3 | N | | 2015-16 | 30 | 82.4% | 40 | 70.0% | | | | | Gall y canlyniad metrig hwn godi a gostwng yn sylweddol oherwydd bod niferoedd isel iawn fel arfer ynghlwm. Y meincnod UKPI ar gyfer Abertawe yw 67.9% - byddem yn disgwyl cyflawni'r meincnod hwnnw o leiaf neu wella arno, felly rydym wedi pennu targed o 70% ar gyfer 2020-21. |
| 21 | **Mesur Cenedlaethol 3d** - Cadw - **cyfran y myfyrwyr gradd gyntaf rhan-amser** sy'n hanu o ddau gwintel isaf WIMD ym Mhrifysgol Abertawe sy'n bresennol mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl blwyddyn os mynediad iddynt | EoP3 | | | 2014-15 | 20 | 65.0% | 15 | 70.0% | | | | | |
| 22 | **Mesur cenedlaethol 4a - Rhan-amser** - Nifer a chanran y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch rhan-amser mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach | EoP3, PoHE5 | N | | 2017-18 | 2,455 | 12.1% | 2,709 | 13.0% | | 13.5% | | 14.0% | |
| 23 | **Mesur cenedlaethol 8a - Symudedd myfyrwyr** - Nifer a chanran y myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n astudio, yn gweithio neu'n gwirfoddoli dramor ar gyfer a) pob myfyriwr | PoH2, 3, 4 | N | | 2017-18 | 545 | 2.7% | 650 | 2.8% | | 3.0% | | 3.2% | |
| 24 | **Mesur cenedlaethol 8b - Symudedd myfyrwyr** - Nifer a chanran y myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n astudio, yn gweithio neu'n gwirfoddoli dramor ar gyfer b) myfyrwyr sy'n byw yn y ddau gwartel isaf o'r WIMD | PoH2, 3, 4 | N | | 2017-18 | 35 | 1.1% | 70 | 2.0% | | 2.5% | | 3.0% | |
| 25 | **Cydraddoldeb - Meithrin perthnasoedd da** ymhlith y staff a myfyrwyr amrywiol a'r gymuned ehangach drwy gynnal, cyd-gynnal a bod yn rhan o nifer o ddigwyddiadau a diwrnodau/gweithgareddau codi ymwybyddiaeth sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb. | EoP6 | N | | 2017-18 | 20 | | 16 | | | | | | Mae gennym 16 o ddigwyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer 2020-21 hyd yn hyn - gallai hyn godi wrth i ni ganfod gweithgareddau a digwyddiadau newydd. |
| 26 | **Cyflwyniadau gan y Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr** mewn ysgolion ar gyfer blynyddoedd 12 a 13 ledled de Cymru, a chynnwys ardaloedd gwledig a threfol sydd dan anfantais. | EoP2 | N | | 2017-18 | 35 | | 38 | | | | | | cynnwys sesiynau cyfweliadau ffug, ymweliadau â'r campws, Ffeiriau Addysg Uwch a diwrnodau rhagflas (ac eithrio Arddangosfeydd UCAS) |
| 27 | Digwyddiadau ymgysylltu â myfyrwyr Arian@BywydCampws gan gynnwys sgyrsiau cyflwyno myfyrwyr newydd, digwyddiadau a gweithdai gallu ariannol a digwyddiadau hyrwyddo'r gwasanaeth. | EoP2, PoHE5 | N | | 2017-18 | 65 | | 75 | | | | | | |